



CYFRIFON BLYNYDDOL 2023-24



Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government



Cynnwys

Adroddiad ar Berfformiad	3
1. Trosolwg	3
1.1 Cwmpas y cyfrifoldeb	3
1.2 Cefndir a swyddogaethau statudol.....	3
1.3 Crynodeb o'n perfformiad.....	5
Dadansoddiad o Berfformiad	9
2.1 Cynnydd yn erbyn ein blaenoriaethau gweithredol ar gyfer 2023-24	9
2.2 Prif risgiau.....	18
2.3 Adolygiad ariannol.....	20
2.4 Cynaliadwyedd	25
3 Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol	31
3.1 Adroddiad y Cyfarwyddwyr	31
3.2 Datganiad o gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu	34
3.3 Datganiad Llywodraethu	35
4. Datganiadau Ariannol	72
4.1 Datganiad o wariant net cynhwysfawr	77
4.2 Datganiad o'r sefyllfa ariannol	78
4.3 Datganiad o lifoedd arian parod.....	79
4.4 Datganiad o newidiadau yn ecwiti trethdalwyr.....	80
4.5 Nodiadau i'r Cyfrifon ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024.....	81

Adroddiad ar Berfformiad

1. Trosolwg

1.1 Cwmpas y cyfrifoldeb

Sefydlwyd Cymwysterau Cymru ym mis Awst 2015, drwy *Ddeddf Cymwysterau Cymru*, ac fe dderbyniom ein dyletswyddau a'n pwerau ym mis Medi'r flwyddyn honno. Y flwyddyn hon (mis Ebrill 2023 i fis Mawrth 2024) yw ein wythfed flwyddyn ariannol lawn ar waith.

Rydyn ni'n rheoleiddio cyrff dyfarnu sy'n cynnig cymwysterau yng Nghymru. Rydwn ni'n gorff annibynnol sy'n canolbwyntio ar gymwysterau sy'n cael eu hariannu'n gyhoeddus, gan gynnwys TGAU, Safon Uwch a chymwysterau galwedigaethol. Rydwn ni'n gweithio gydag eraill i adolygu ac i ddiwygio cymwysterau.

Nid yw cymwysterau gradd yn rhan o'n gwaith, ond rydwn ni'n gweithio gyda phrifysgolion a cholegau er mwyn sicrhau eu bod yn deall y cymwysterau, gan ganiatáu i ddysgwyr symud ymlaen at addysg uwch. Rydwn ni am i gymwysterau fod y gorau y gallan nhw fod i ddysgwyr, athrawon a chyflogwyr, gan helpu pobl i addasu mewn byd sy'n newid yn gyflym. Rydwn ni'n gweithio gyda chyrff dyfarnu i ehangu'r cymwysterau sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg.

Yn ogystal â'n Cyfrifon Blynyddol, rydwn ni hefyd yn llunio Adroddiad Blynyddol sy'n rhoi mwy o wybodaeth am ein gwaith a sut rydwn ni'n cyflawni ein prif nodau. Mae ein Hadroddiad Blynyddol yn rhoi disgrifiad cynhwysfawr o bob un o'n blaenoriaethau gweithredol a'r gweithgareddau rydwn ni wedi'u cynnal drwy gydol y flwyddyn er mwyn eu cyflawni. Cyhoeddwyd ein Hadroddiad Blynyddol diweddaraf ym mis Tachwedd 2023, ar gyfer y cyfnod rhwng mis Medi 2022 a mis Awst 2023, ac fe wnaeth Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Senedd graffu arno.

Mae'r set hon o Gyfrifon Blynyddol yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024.

1.2 Cefndir a swyddogaethau statudol

Ni yw'r rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer cymwysterau heblaw rhai lefel gradd a gynigir gan gyrff dyfarnu a gydnabyddir yng Nghymru. Rydwn ni'n gorff statudol annibynnol sy'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru ac sy'n atebol i bobl Cymru drwy Senedd Cymru. Mae dysgwyr yn ganolog i'r hyn rydwn ni'n ei wneud, ac rydwn ni am iddyn nhw fod yn hyderus bod eu cymwysterau'n gofnod teg, dibynadwy, gwerthfawr a chlodadwy o'u gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u sgiliau. Ein prif nodau yw:

- Sicrhau bod cymwysterau, a system gymwysterau Cymru, yn effeithiol wrth ddiwallu anghenion rhesymol dysgwyr yng Nghymru.
- Hybu hyder y cyhoedd mewn cymwysterau ac yn system gymwysterau Cymru.

Rydwn ni'n rheoleiddio cyrff dyfarnu, a thrwy ein gwaith yn meithrin ac yn cynnal hyder bod y cymwysterau y maent yn eu darparu yn deg, y gellir ymddiried ynddynt a'u bod yn cael eu

gwerthfawrogi yng Nghymru a thu hwnt. Drwy ein gwaith diwygio, rydyn ni hefyd yn llywio sut y bydd cymwysterau yn diwallu anghenion dysgwyr y dyfodol. Rydyn ni'n adolygu'r cymwysterau sydd ar gael i ddysgwyr yng Nghymru yn rheolaidd a, lle bo angen, gallwn gomisiynu cyrff dyfarnu i ddatblygu cymwysterau newydd. Rydyn ni hefyd yn cynnal ymchwil ac yn gwneud argymhellion i Lywodraeth Cymru.

Rydyn ni'n rhoi sylw i wyth 'mater' wrth benderfynu sut rydyn ni'n mynd ati i wneud ein gwaith:

"Wrth ystyried yr hyn sy'n briodol at ddiben cyflawni ei brif nodau, mae'r materion y mae Cymwysterau Cymru yn rhoi sylw iddynt yn cynnwys (ymhlith pethau eraill):

- (a) Dymunoldeb hyrwyddo twf cynaliadwy yn economi Cymru;*
- (b) Dymunoldeb hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg, gan gynnwys drwy argaeledd trefniadau asesu sy'n darparu ar gyfer asesu drwy gyfrwng y Gymraeg, ac argaeledd cymwysterau sydd fel arall yn hyrwyddo neu'n hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg;*
- (c) Ystod a natur y cymwysterau sydd ar gael ac ystod a natur eu trefniadau asesu;*
- (d) Gofynion rhesymol cyflogwyr, sefydliadau addysg uwch a'r proffesiynau o ran addysg a hyfforddiant (gan gynnwys o ran y safonau gofynnol cymhwysedd ymarferol);*
- (e) Pa un a yw'r wybodaeth, y sgiliau a'r ddealltwriaeth y mae'n ofynnol eu dangos at ddiben penderfynu a yw cymhwyster i gael ei ddyfarnu i berson yn adlewyrchu'r wybodaeth gyfredol a'r arferion gorau;*
- (f) Pa un a yw cymwysterau yn dangos lefel o gyrhaeddiad sy'n gysonâ'r hyn a ddangosir gan beth bynnag y mae Cymwysterau Cymru yn ei ystyried yn gymwysterau cyffelyb,, pa un a'u dyfernir yn Ewrop neu rywle arall;*
- (g) Pa un a ddarperir cymwysterau yn effeithlon ac er mwyn sicrhau gwerth am arian; a*
- (h) Priod rolau a chyfrifoldebau pob un o'r personau a ganlyn mewn cysylltiad â system gymwysterau Cymru (gan gynnwys drwy gyfeirio at gydweithredu rhwng y personau hynny, a pha mor effeithiol ydynt wrth gyflawni eu rolau);*
 - (i) Cyrff dyfarnu, darparwyr dysgu, Cymwysterau Cymru a Gweinidogion Cymru;*
 - (ii) Unrhyw bersonau eraill sy'n cyflawni swyddogaethau y mae Cymwysterau Cymru yn ystyried eu bod yn berthnasol at ddiben system gymwysterau Cymru.*

Deddf Cymwysterau Cymru (2015)

1.3 Crynodeb o'n perfformiad

Mae ein [Strategaeth Blaenoriaethau Strategol 2022-27](#) yn cyflwyno ein cynllun tymor hwy ar gyfer sut y bydd ein gwaith yn esblygu gyda phartneriaid ac yn amlinellu sut y byddwn yn parhau i sicrhau y gall dysgwyr Cymru ddewis o blith cymwysterau sy'n berthnasol, yn deg, yn hyblyg ac yn ddwyieithog. Mae hefyd yn llywio datblygiad ein blaenoriaethau gweithredol blynyddol.

Gosodwyd pum blaenoriaeth weithredol ar gyfer 2023-24:

- Diwygio
- Rheoleiddio
- Cyrhaeddiad a Dylanwad
- Adnoddau Corfforaethol
- Ymchwil, Dealltwriaeth ac Effaith

Mae mwy o wybodaeth am ein blaenoriaethau gweithredol ar gael yn ein [Cynllun Busnes 2023/24](#). Nododd ein Cynllun Busnes ar gyfer 2023/24 ein ffocws ar gyfer y flwyddyn hefyd ac amlinellodd y gwaith roedden ni'n bwriadu ei gyflawni i gefnogi ein pum blaenoriaeth weithredol.

Mae'r grynodeb hon o'n perfformiad yn amlinellu ein prif gyflawniadau yn ystod y flwyddyn. Mae rhagor o fanylion i'w cael yn yr adran dadansoddi perfformiad.

Sylwadau gan Brif Weithredwr Cymwysterau Cymru

Diwygio

Yn 2023/24 rydyn ni wedi parhau â'n rhaglen waith *Cymwys ar gyfer y Dyfodol* i ddiwygio cymwysterau ar gyfer dysgwyr rhwng 14 ac 16 oed; rydyn ni wedi cynnal ein dull datblygu ar y cyd gweithredol trwy gynnwys academyddion, arbenigwyr pwnc, ymarferwyr a dysgwyr yn y gwaith o ddylunio cymwysterau newydd ac wedi ymgynghori ar gynigion dylunio. Roedd ein gwaith yn ystyried anghenion pob dysgwr rhwng 14 ac 16 oed, ac fe wnaethom ymgysylltu'n eang er mwyn sicrhau bod nodau, cynnwys ac asesiadau'r cymwysterau a ddatblygwyd yn elwa o amrywiaeth o safbwyntiau.

Rydyn ni wedi croesawu cyfleoedd i arloesi ac i foderneiddio asesiadau, a hynny er mwyn gwireddu'r buddion sydd i'w cael o wella ein defnydd o dechnoleg ac offer digidol, a buom yn gweithio'n agos gyda chyrrff dyfarnu ac â chanolfannau er mwyn sicrhau bod modd rheoli newidiadau.

Yn ystod y cyfnod hwn, rydyn ni wedi:

- cyflawni cerrig milltir sylweddol yn y rhaglen *Cymwys ar gyfer y Dyfodol* sy'n diwygio cymwysterau i gefnogi'r cwricwlwm newydd – gweithio gyda phartneriaid a rhanddeiliaid ar y gofynion dylunio ar gyfer TGAU newydd Gwneud-i-Gymru a chyhoeddi ein gofynion terfynol a'r [adroddiad penderfyniadau](#) ym mis Mehefin 2023, ac yna'r [adroddiad penderfyniadau](#) ar ein Cynnig Llawn o Gymwysterau 14-16 ym mis

Ionawr 2024, lle gwnaethom gyhoeddi ein penderfyniad i sefydlu Tystysgrif Alwedigaethol Addysg Uwchradd (TAAU).

- parhau â'n dull sector o adolygu a diwygio'r cynnig cymwysterau ôl-16, gan ddatblygu ein rhaglen o adolygiadau sector, ymgynghori ar gynigion i gomisiynu cymwysterau ôl-16 newydd Gwneud-i-Gymru mewn Lletygarwch ac Arlwyo a gweithredu camau gweithredu o'n gwaith monitro cynnar o gymwysterau ôl-16 diwygiedig mewn lechyd a Gofal Cymdeithasol.
- goruchwyllo'r gwaith o weithredu newidiadau i gymwysterau llythrennedd digidol Sgiliau Hanfodol Cymru a pharhau â'n hadolygiad o'r gyfres Sgiliau Hanfodol Cymru lawn.
- ystyried argymhellion Adolygiad Llywodraeth Cymru o Gymwysterau Galwedigaethol.
- dechrau cynllunio dull strategol o sicrhau asesu arloesol, gan gynnwys mwy o ddefnydd o dechnoleg gan gyrff dyfarnu, gweithio gyda chyrff dyfarnu a'r system addysg ehangach i hyrwyddo'r defnydd o asesu digidol dwyieithog a chefnogi newid. Buom yn gweithio gyda darparwyr llwyfannau digidol i ddatblygu ein harbenigedd a'n dealltwriaeth o asesu digidol gan archwilio sut roedd technolegau digidol yn cynnig dulliau newydd.

Rheoleiddio

Yn ystod 2023/24, fe wnaethom barhau ar y daith yn ôl i drefniadau TGAU, UG a Safon Uwch cyn y pandemig. Yn haf 2023 cafodd dysgwyr a oedd yn sefyll arholiadau ffurfiol ryw faint o gymorth ar ffurf gwybodaeth ymlaen llaw ac fe wnaethom fabwysiadu dull dyfarnu lle roedd canlyniadau tua hanner ffordd rhwng rhai 2019 a 2022. Fe wnaethom fonitro'r broses ddyfarnu yn agos er mwyn sicrhau canlyniadau teg i ddysgwyr a chadarnhau ein dull ar gyfer arholiadau ac asesiadau ar gyfer blwyddyn academaidd 2023/24.

Yn ystod y cyfnod hwn, rydyn ni wedi:

- monitro cydymffurfiaeth cyrff dyfarnu â'n Hamodau Cydnabod Safonol trwy ein proses Datganiad Cydymffurfiaeth flynyddol, a thrwy fonitro digwyddiadau ac ymchwilio i gwynion.
- cynllunio ar gyfer adolygu a chymeradwyo cyflwyniadau ar gyfer cymwysterau diwygiedig a datblygu ein dull rheoleiddio i gefnogi cyflwyno'r Cynnig Llawn o Gymwysterau 14-16.
- ystyried y cymwysterau TGAU Gwneud-i-Gymru newydd cyntaf a gyflwynwyd a dechrau cynllunio ar gyfer cymeradwyo'r Cynnig Llawn o Gymwysterau 14-16.
- ystyried cymwysterau i'w dynodi a chydweithio â chyrff dyfarnu i sicrhau bod ein cronfa ddata Cymwysterau yng Nghymru (QiW) yn darparu gwybodaeth gywir i ddiwallu anghenion defnyddwyr.
- monitro hynt cyfres arholiadau haf 2023 a gaeaf 2023/24 a gwaith dyfarnu cymwysterau galwedigaethol.
- gweithio i gynnal safonau drwy ystyried ffyrdd o gryfhau'r broses bresennol ar gyfer gosod safonau a dyfarnu i gefnogi'r broses o newid i gymwysterau newydd a goruchwyllo'r gwaith o ddyfarnu cymwysterau yn haf 2023 ar bwynt hanner ffordd yn fras rhwng canlyniadau haf 2022 a haf 2019.

Cyrhaeddiad a Dylanwad

Yn ystod 2023/24 fe wnaethom barhau i wella'r ffyrdd rydyn ni'n cyfathrebu ac yn ymgysylltu â chynulleidfaedd ac â rhanddeiliaid allweddol er mwyn meithrin a chynnal hyder y cyhoedd mewn cymwysterau ac yn y system gymwysterau yng Nghymru. Yn ystod y cyfnod hwn, rydyn ni wedi:

- meithrin hyder a dealltwriaeth y cyhoedd drwy gynllunio a gweithredu gweithgarwch cyfathrebu ac ymgysylltu effeithiol yn llwyddiannus.
- sicrhau ymgysylltiad strategol effeithiol trwy feithrin a datblygu cysylltiadau â rhanddeiliaid presennol a newydd.
- darparu cyfathrebu effeithiol trwy gyfrwng gweithgareddau cyfryngau, digidol a chyfathrebu creadigol a deniadol.
- cyfathrebu ac ymgysylltu ar ein gwaith allweddol gan ddatblygu a chyflawni ymgyrchoedd pwrpasol i hyrwyddo a meithrin ymgysylltiad â'n gweithgareddau rheoleiddio a diwygio.
- gwella'r broses o olrhain a gwerthuso ein hymgysylltu allanol, adolygu ein cyfathrebu mewnol a cheisio sicrhau defnydd effeithiol o'r Gymraeg ar draws ein cyfathrebiadau allanol.
- cynyddu ein cyrhaeddiad ar draws llwyfannau cyfryngau cymdeithasol gyda 3,654 o bostiadau, 18,000 o gysylltiadau, 29,500 o edrychiadau YouTube a thros 1000 o ddilynwyr/tanysgrifwyr newydd ar draws YouTube, X, Facebook, LinkedIn, ac Instagram.
- derbyn 279,000 o ymweliadau â'r wefan, 32,375 o lawrlwythiadau PDF a 4,750 o atgyfeiriadau i'n gwefan trwy'r cyfryngau cymdeithasol.

Adnoddau Corfforaethol

Yn ystod 2023/24, rydyn ni wedi parhau i ennyn ymddiriedaeth drwy reoli ein hadnoddau ac arferion corfforaethol sy'n cydymffurfio yn gadarn ac yn effeithiol. Fe wnaethom weithio gyda phartneriaid ar draws y sector cyhoeddus er mwyn cefnogi'r system gymwysterau ac i fanteisio ar gyfleoedd i wella effeithlonrwydd neu effeithiolrwydd. Fe wnaethom ganolbwyntio ar les gweithwyr, ar ein hamcanion cydraddoldeb a chenedlaethau'r dyfodol, ac ar ein heffaith amgylcheddol, gan atgyfnerthu ein hymrwymiad i wneud Cymwysterau Cymru yn weithle gwych. Yn ystod y cyfnod hwn, rydyn ni wedi:

- darparu gwasanaethau corfforaethol i sicrhau bod y sefydliad yn rhedeg yn esmwyth, gan gefnogi a herio timau i fod yn effeithiol ac yn effeithlon ac i sicrhau eu bod yn cydymffurfio yn wyneb hinsawdd ariannol anodd.
- cynnal adolygiad gwariant canol blwyddyn i asesu'r diffyg cyllid posibl a nodi cyllid y gellid ei ryddhau o gyllidebau heb fod yn rhai cyflog i dalu am y dyfarniad cyflog.
- adolygu ein gwaith recriwtio arfaethedig ac wedi nodi'r swyddi hynny lle gellid gohirio'r recriwtio dros dro i helpu i gyflawni arbedion cost yn ystod y flwyddyn.
- parhau i feithrin gweithio hybrid effeithiol, gan edrych ar wella prosesau i weddu i weithio o bell ac ystyried barn staff ac undebau wrth i ni fonitro effeithiolrwydd.
- datblygu ein gweithlu, gan annog staff i ddatblygu eu sgiliau a'u profiad.
- cefnogi lles ein gweithwyr drwy gynnal digwyddiadau, trwy gyfathrebu'n rheolaidd a chyda mentrau.
- cefnogi datblygiad y Bwrdd drwy fynd i'r afael ag argymhellion Adolygiad Effeithiolrwydd y Bwrdd 2022, gan drefnu diwrnodau datblygu a darparu hyfforddiant.

Fe wnaethom gefnogi'r prosiect 'Llwybr i'r Bwrdd' hefyd sy'n cael ei redeg gan grŵp o ymddiriedolaethau tai i annog mwy o bobl o gefndir lleiafrifoedd ethnig i fod yn aelodau Bwrdd.

- cyflawni camau gweithredu a monitro cynnydd yn erbyn ein Cynllun Lleihau Carbon a'n Cynllun Iaith Gymraeg. Fe wnaethom lwyddo i ddarparu rhaglen archwilio fewnol, gyda phob archwiliad wedi cynnig sicrwydd sylweddol neu resymol.

Ymchwil, Dealltwriaeth ac Effaith

Yn ystod 2023/24 fe wnaethom geisio gwneud penderfyniadau a oedd yn gytbwys, ac yn seiliedig ar dystiolaeth; wedi'u llywio gan ein gwaith ymchwil, dadansoddi ystadegol, ymgynghoriadau ac ymgysylltu. Cefnogwyd ein gwaith gan ein dull o ystyried anghenion cenedlaethau'r dyfodol o ddysgwyr a'n dyletswyddau cydraddoldeb, ac fe wnaethom barhau i fonitro ein heffaith a bod yn dryloyw, gan rannu adroddiadau cynnydd yn rheolaidd. Yn ystod y cyfnod hwn, rydyn ni wedi:

- cefnogi cymwysterau dwyieithog trwy ymgynghori ac yna cyflwyno amodau newydd yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff dyfarnu wneud eu polisi dwyieithrwydd yn glir a hyrwyddo argaeledd.
- cynnal a chomisiynu ymchwil i gefnogi gweithgareddau diwygio, gan gynnwys gwaith ar archwilio dealltwriaeth athrawon a'r cyhoedd o sut mae safonau cymwysterau'n cael eu cynnal ac archwilio dulliau o ymdrin â chydraddoldeb, tegwch, amrywiaeth a chynhwysiant yn y system gymwysterau.
- casglu, dadansoddi a chyhoeddi data ac ystadegau i helpu i fonitro safonau, ategu asesiadau o effaith a monitro dangosyddion.
- datblygu ein Datganiad Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol drwy fabwysiadu dull traws-sefydliadol, dadansoddi tueddiadau, ac ystyried ein gweledigaeth hirdymor a'r pum ffordd o weithio.
- parhau i gyflawni ein hamcanion cydraddoldeb strategol, adolygu ac [adrodd](#) ar gynnydd yn erbyn ein [Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2022-24](#) cyfredol a defnyddio tystiolaeth o'n hymchwil a'n hymgysylltiad i osod amcanion newydd ar gyfer 2024-28.
- cyflawni yn erbyn ein Cynllun Gweithredu Gwrth-Hiliol 2022-24 a chyhoeddi ein [Cynllun Gweithredu Gwrth-Hiliol 2024-28](#).
- adrodd ar ein gweithgareddau gan gynhyrchu a chyhoeddi adroddiadau corfforaethol rheolaidd gan gynnwys [Cynllun Busnes 2023/24](#), [Adroddiad Blynyddol 2022/23](#) a [Chyfrifon Blynyddol 2022/23](#).

Philip Blaker	Philip Blaker Swyddog Cyfrifyddu 19 Medi 2024
---------------	--

Dadansoddiad o Berfformiad

2.1 Cynnydd yn erbyn ein blaenoriaethau gweithredol ar gyfer 2023-24

Roedd blaenoriaethau gweithredol 2023-24 yn seiliedig ar gynllun y flwyddyn flaenorol. Adroddodd ein Uwch Grŵp Arwain gynnydd yn erbyn y blaenoriaethau hyn yn achlysurol gan ein galluogi i adrodd ar gynnydd ym mhob un o gyfarfodydd y Bwrdd. Mae'r tabl isod yn rhoi trosolwg o'r hyn rydyn ni wedi'i gyflawni dros y flwyddyn.

①	Diwygio
✓	Ym mis Mehefin 2023, cyhoeddwyd ein hadroddiad TGAU Gwneud-i-Gymru: Crynodeb o'r Ymgynghoriad yn egluro ein penderfyniadau allweddol wrth bennu gofynion dylunio'r gyfres newydd o gymwysterau TGAU Gwneud-i-Gymru. Bydd y cymwysterau newydd hyn yn helpu dysgwyr i gael y gorau o'u profiad o'r Cwricwlwm i Gymru. Fe wnaethom hefyd weithio gyda rhanddeiliaid i helpu i nodi'r adnoddau dysgu ac addysgu proffesiynol y byddai eu hangen i gyflawni'r cymwysterau TGAU Gwneud-i-Gymru newydd yn unol â'r Cwricwlwm i Gymru. Ym mis Mawrth 2024, fe wnaethom gyhoeddi meini prawf cymeradwyo ar gyfer TGAU Gwyddoniaeth Integredig Gwneud-i-Gymru newydd, gan weithio gydag amrywiaeth o randdeiliaid i gyd-greu'r gofynion dylunio.
✓	Fe wnaethom ymgymryd â rhaglen o gydweithio helaeth, ymgysylltu ac ymgynghori ar y Cynnig Llawn o Gymwysterau 14-16, gwerthuso canfyddiadau ein hymgyngoriad, ac, ym mis Ionawr 2024, cyhoeddi ein dogfen Y Cynnig Llawn o Gymwysterau 14-16 - Adroddiad Penderfyniadau . Roedd yr adroddiad hwn yn cynnig esboniad manwl o'r penderfyniadau rydyn ni wedi'u gwneud am y cymwysterau a fydd yn cael eu datblygu i sefyll ochr yn ochr â'r cymwysterau TGAU Gwneud-i-Gymru newydd a chadarnhaodd y byddai'r cymwysterau cyn-alwedigaethol o fewn y cynnig ar lefel 1/lefel 2 yn dwyn y teitl Tystysgrif Alwedigaethol Addysg Uwchradd (TAAU).
✓	Fe wnaethom gefnogi cyflwyno'r gyfres o Gymwysterau Adeiladu a Pheirianeg Gwasanaethau Adeiladu drwy weithredu argymhellion a nodwyd gan yr adolygiad Cyflym a gynhaliwyd yn 2022. Buom hefyd yn gweithio gyda rhanddeiliaid i hyrwyddo dealltwriaeth a meithrin hyder yn y cymwysterau Adeiladu a Pheirianeg Gwasanaethau Adeiladu newydd.
✓	Ym mis Gorffennaf 2023, fe wnaethom gyhoeddi canfyddiadau ein hadolygiad o'r sector Busnes, Gweinyddu, Adwerthu, y Gyfraith a Chyfrifyddiaeth, a'r camau y byddem yn eu cymryd i fynd i'r afael â'r materion a godwyd gan yr adolygiad. Dechreuon ni hefyd

	weithredu'r camau gweithredu o <u>Adolygiad Sector Cam 2 Amaethyddiaeth, Garddwriaeth a Gofal Anifeiliaid</u> a dechreuodd ein Hadolygiad Sector Cam 2 mewn Celf, Creadigol a'r Cyfryngau.
✓	Ym mis Rhagfyr 2023, fe wnaethom gyhoeddi <u>meini prawf cymeradwyo</u> ar gyfer cymwysterau ôl-16 mewn Teithio a Thwristiaeth yn dilyn <u>adolygiad helaeth o'r sector</u> . Ym mis Ionawr 2024 fe wnaethom gyhoeddi y byddai'r cyfnod datblygu a ddefnyddir gan gyrff dyfarnu i wneud newidiadau i'r gyfres bresennol o gymwysterau yn cael ei ymestyn am flwyddyn fel eu bod yn cael mwy o gyfle i ymgysylltu â rhanddeiliaid yng Nghymru a datblygu cyfres o gymwysterau a fyddai'n parhau i roi dewis i ganolfannau. Rhagwelir y bydd y gyfres newydd o gymwysterau Teithio a Thwristiaeth yn barod ar gyfer colegau addysg bellach ac ysgolion yn 2026, i'w haddysgu am y tro cyntaf ym mis Medi 2027.
✓	Buom yn gweithio gyda rhanddeiliaid ac arbenigwyr y diwydiant i ddatblygu dull strategol o foderneiddio asesu. Roedd hyn yn cynnwys ystyried y cyfleoedd a'r heriau sy'n gysylltiedig â defnyddio technoleg ddigidol mewn cymwysterau newydd a gweithio gyda rhanddeiliaid i hyrwyddo'r gwaith o ddarparu asesiadau digidol dwyieithog. Fe wnaethom hefyd gyhoeddi <u>datganiad safbwynt</u> ar ddeallusrwydd artiffisial a gweithio gyda rhanddeiliaid i nodi a lliniaru'r risgiau sy'n gysylltiedig â defnyddio deallusrwydd artiffisial mewn asesu addysgol. Wrth i'n gwaith diwygio barhau, byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda chyrrff dyfarnu wrth iddynt geisio gwneud y defnydd gorau o dechnolegau newydd a chydweithio â Llywodraeth Cymru a rheoleiddwyr cymwysterau eraill ledled y DU i ddatblygu ein dealltwriaeth o'r cyfleoedd y gall deallusrwydd artiffisial eu cynnig.
✓	Fe wnaethom barhau i reoli'r Grant Cymraeg i Oedolion a'r Grant Cymorth Iaith Gymraeg, a chynhaliwyd gweminar gyda chyrrff dyfarnu a oedd â diddordeb er mwyn hyrwyddo ac egluro'r grantiau sydd ar gael ar gyfer cyfieithu cymwysterau i'r Gymraeg. Fe wnaethom adolygu grant cymwysterau cyffredinol CBAC a phenderfynu ar ein dull o ddyfarnu grantiau yn y dyfodol a fydd yn arwain at ddiddymu'r grant penodol hwn yn raddol dros y 2 flynedd nesaf. Yn 2024/25 byddwn yn dechrau datblygu strategaeth Gymraeg newydd i ddisodli ein strategaeth Dewis i Bawb bresennol a byddwn yn alinio ein dull o ddyfarnu grantiau â'r strategaeth Gymraeg newydd. Byddwn hefyd yn datblygu dull o bennu sut i ddyrannu grantiau i gyrff dyfarnu i ddatblygu Cymwysterau Cenedlaethol 14-16 cyfrwng Gymraeg.
✓	Fe wnaethom dalu £225k drwy gyllid grant cystadleuol i gefnogi cyrrff dyfarnu i sicrhau bod mwy o gymwysterau ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg a darparu £410k o gyllid grant i CBAC i gyfrannu at y gost o baratoi cymwysterau dwyieithog.
✓	Aeth gwaith yr adolygiad o gymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru yn dda yn ystod 2023/24. Fe wnaethom ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol a chawsom adborth ar addasrwydd at ddiben cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru. Fe wnaethom ddechrau ystyried pa newidiadau neu ddiwygiadau a allai fod eu hangen i sicrhau bod y cymwysterau'n parhau i gyflawni ein prif nodau. Fe wnaethom hefyd

	ymgysylltu â chyrrff dyfarnu dros newidiadau dymunol i'r cymwysterau Llythrennedd Digidol a diweddar <u>Egwyddorion Dylunio Sgiliau Hanfodol Cymru</u> i adlewyrchu'r newidiadau hyn.
2	Rheoleiddio
✓	Rydyn ni wedi parhau i reoleiddio cyrrff dyfarnu trwy gydol y flwyddyn. Fe wnaethom gwblhau ein hymarfer datganiad cydymffurfiaeth blynyddol, lle gofynnir i gyrrff dyfarnu adrodd ar eu cydymffurfiaeth â'n hamodau cydnabod, gan weithio mewn partneriaeth ag Ofqual a CCEA. Fe wnaethom gwblhau gwaith monitro dilynol materion cydymffurfio 2022, monitro adroddiadau digwyddiadau a rheoli cwynion. Fe wnaethom barhau i gymryd camau priodol lle nodwyd achosion o ddiffyg cydymffurfio, gan gynnwys camau rheoleiddio ffurfiol lle bo angen, gan reoli ceisiadau gan gyrrff sy'n dymuno cael eu cydnabod gennym ac achosion pan fo cyrrff dyfarnu yn ildio cydnabyddiaeth.
✓	Parhaodd ein gwaith i gefnogi diwygiadau cymwysterau Cenedlaethol 14-16 gyda pholisïau a dulliau rheoleiddio yn ystod 2022/23. Fe wnaethom gwblhau asesiadau effaith a dadansoddiadau cost a budd, adolygu a datblygu datrysiadau polisi rheoleiddio i fod yn sail i'r cynnig cymhwyster cymwysterau Cenedlaethol 14-16 a datblygu canllawiau i staff ar y broses llunio polisi.
✓	Ym mis Mai 2023, fe wnaethom gyhoeddi <u>astudiaeth gymharu ar gyfer Mathemateg Safon Uwch</u> . Nod yr astudiaeth oedd archwilio a oedd unrhyw dystiolaeth i gefnogi'r canfyddiad bod papurau cwestiynau UG a Safon Uwch CBAC yn llawer mwy heriol na'r rhai a gynhyrchwyd gan gyrrff dyfarnu eraill. Yn gyffredinol, barn yr arbenigwyr pwnc a oedd yn rhan o'r astudiaeth oedd bod papurau cwestiynau Mathemateg UG a Safon Uwch a ddadansodwyd yn ddigon tebyg o ran lefel anhawster.
✓	Ym mis Mehefin 2023, fe wnaethom gwblhau a chyhoeddi meini prawf cymeradwyo a gofynion rheoleiddiol ategol i sicrhau'r cymwysterau TGAU Gwneud-i-Gymru newydd a chymwysterau cysylltiedig ac, ym mis Ionawr 2024, fe wnaethom gyhoeddi ein <u>datganiad o fwriad polisi</u> ar y gyfres o Gymwysterau Cenedlaethol 14-16 newydd sy'n nodi ein safbwynt ar ddynodi unrhyw gymwysterau ychwanegol.
✓	Yn ystod 2023/24, fe wnaethom barhau ar y daith yn ôl i drefniadau TGAU, UG a Safon Uwch cyn y pandemig. Yn haf 2023 cafodd dysgwyr a oedd yn sefyll arholiadau ffurfiol rywfaint o gymorth ar ffurf gwybodaeth ymlaen llaw ac fe wnaethom fabwysiadu dull dyfarnu a oedd yn cydnabod y tarfu a brofwyd gan ddysgwyr mewn blynyddoedd blaenorol, gan arwain at ganlyniadau a oedd tua hanner ffordd rhwng 2019 a 2022. Cafodd cyfres arholiadau'r haf ei chyflwyno'n llwyddiannus a chafodd y canlyniadau dderbyniad da ar y cyfan.

✓	Ym mis Medi 2023, fe wnaethom gadarnhau ein trefniadau ar gyfer arholiadau ac asesiadau ar gyfer blwyddyn academiaidd 2023/24 - sef y byddai trefniadau dyfarnu cymwysterau TGAU, UG, Safon Uwch a Thystysgrif Her Sgiliau yng Nghymru yn unol â threfniadau cyn y pandemig.
✓	Yn 2023/24 fe wnaethom ystyried yr ymatebion i'n hymgyngoriad ar Amodau a Gofynion arfaethedig a chanllawiau yn ymwneud â hyrwyddo a hwyluso cymwysterau cyfrwng Cymraeg ac, ym mis Awst, fe wnaethom gyhoeddi <u>adroddiad</u> yn esbonio'r penderfyniadau yr oeddem wedi'u gwneud ar reolau a chanllawiau newydd sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff dyfarnu hyrwyddo argaeledd eu cymwysterau cyfrwng Cymraeg.
✓	Ym mis Tachwedd 2023, fe wnaethom oruchwylio cyfres arholiadau Tachwedd gyda dysgwyr yn sefyll arholiadau TGAU Saesneg Iaith, TGAU Mathemateg, TGAU Mathemateg – Rhifedd, a TGAU Cymraeg Iaith. Hon oedd y gyfres arholiadau gyntaf yn y flwyddyn academiaidd 2023/24, lle rydyn ni wedi dychwelyd at drefniadau asesu cyn y pandemig. Fe wnaethom fonitro'n ofalus sut y cyflwynodd CBAC y gyfres, a'r dull a ddefnyddiwyd i ddyfarnu graddau, ac roeddem yn hyderus bod egwyddorion cytunedig a phrosesau addas yn cael eu dilyn a bod y dyfarniadau mor deg â phosibl i ddysgwyr. Roedd cyfres arholiadau Ionawr 2024 yn cynnwys arholiadau uned ar gyfer TGAU Llenyddiaeth Saesneg a TGAU Llenyddiaeth Gymraeg, rhai elfennau o gymwysterau lechyd a Gofal Cymdeithasol Lefel 2 a 3 a chymwysterau Gofal Plant Lefel 2 a 3 a'r Dystysgrif Her Sgiliau.
✓	Ym mis Chwefror 2024, lansiodd ein hymgyngoriad ar ein dull o ddynodi cymwysterau i fodoli ochr yn ochr â'n Cymwysterau Cenedlaethol newydd ar gyfer dysgwyr 14–16 oed. Mae'r ymgynghoriad yn croesawu safbwyntiau ar ein meini prawf eithrio arfaethedig, yn ogystal â'r ffactorau a'r dystiolaeth y dylem eu hystyried wrth benderfynu gwneud eithriadau i'n hegwyddorion arweiniol.
✓	Parhaodd ein gwaith i ddyfarnu cymwysterau yn erbyn rheolau a gofynion tystiolaeth yn ystod y flwyddyn, gan gyrraedd ein targedau o ran amseroedd ymateb, yn ogystal â gwaith i brosesu gwelliannau i gymwysterau.
✓	Buom yn cynnal adolygiadau polisi rheoleiddio a drefnwyd ymlaen llaw ac yn adolygu effeithiolrwydd ein dull rheoleiddio yng nghydestun y bwlch cynyddol rhwng diwygiadau a pholisïau cymwysterau Cymru a Lloegr.
✓	Fe wnaethom ddiwygio'r Rhestr Cymwysterau Blaenoriaethol a dechrau gweithio ar adolygu ein Fframwaith a'n Dull Rheoleiddio.
③	Cyrhaeddiad a Dylanwad

✓	Dros y flwyddyn rydyn ni wedi parhau i weithio i fagu hyder a dealltwriaeth y cyhoedd o ran Cymwysterau Cymru a'r system gymwysterau, gan chwilio am ffyrdd newydd o ymgysylltu a chyfathrebu â rhanddeiliaid gan ddefnyddio ystod o sianeli.
✓	Fe wnaethom barhau i ddarparu amrywiaeth o weithgareddau ymgysylltu anffurfiol a ffurfiol gyda'n grwpiau rhanddeiliaid sefydledig. Fe wnaethom gynnal nifer o grwpiau ffocws a defnyddio arolygon i ddatblygu ein rhyngweithio â dysgwyr ledled Cymru, roedd hyn yn cynnwys cynnal sesiynau ymgysylltu â dysgwyr, ymweld ag ysgolion a cholegau, a chynnal ein Grŵp Cynghori i Ddysgwyr. Yn ystod y cyfnod, fe wnaethom fynychu dros 100 o gyfarfodydd â rhanddeiliaid a 90 o gyfarfodydd gyda chanolfannau.
✓	Fe wnaethom barhau i ddatblygu ein cysylltiadau â sefydliadau addysg bellach ac uwch. Fe wnaethom ymgysylltu ag aelodau o rwydweithiau a fforymau Colegau Cymru i drafod a derbyn adborth ar agweddau ar gymwysterau ac asesiadau a chwrdd yn rheolaidd â Colegau Cymru a Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru, i drafod meysydd o ddi-ddordeb i bawb, ynghylch materion addysg bellach a dysgu seiliedig ar waith. Fe wnaethom hefyd gwrdd ag uwch swyddogion ym mhrifysgolion Cymru i drafod agweddau allweddol ar ein gwaith o ddiwygio cymwysterau 14-16 a'n hamcanion strategol, yn enwedig ein gwaith ar foderneiddio asesu. Roedd yr ymgysylltiad hwn yn ategu ein gwaith parhaus gyda'r Grŵp Rhanddeiliaid Addysg Uwch sydd â chynrychiolaeth o 26 o sefydliadau addysg uwch ledled y DU.
✓	Ers lansio ein Partneriaeth Strategol tair blynedd gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol rydyn ni wedi bod yn gweithio ar ein cynllun gweithredu ar y cyd. Trwy gydol 2023/24 fe wnaethom barhau i weithio gyda'n gilydd i hyrwyddo argaeledd cymwysterau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog a hwyluso mynediad atynt.
✓	Fe wnaethom ymgysylltu'n eang â rhanddeiliaid sy'n cynrychioli unigolion o bob un o'r grwpiau nodweddion gwarchoddedig i lywio'r gwaith o ddatblygu ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-28 a Datganiad ac Amcanion Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Roedd rhai o'r rhanddeiliaid y buom yn ymgysylltu â hwy yn cynnwys Sefydliad Bevan, Dysgu Proffesiynol ar Amrywiaeth a Gwrth-hiliaeth (DARPL), Anabledd Cymru, Anabledd Dysgu Cymru, Comisiynydd Pobl Hŷn, Stonewall Cymru a Chymdeithas Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol Cymru (CCYSAGau).
✓	I gefnogi cyfres arholiadau haf 2023, fe wnaethom gyhoeddi tudalen arbennig ar gyfer canlyniadau haf 2023 ar ein gwefan, cynnal sesiwn frifffio i sefydliadau allweddol yn y cyfryngau cyn y canlyniadau i gefnogi eu hadroddiadau ar ddiwrnod y canlyniadau a datblygu cynnwys fideo newydd ar sut y dyfarnwyd cymwysterau yng Nghymru, y broses apelio a'r opsiynau o ran dilyniant i ddysgwyr. Fe wnaethom hefyd baratoi cyfres o gyhoeddiadau diwrnod y canlyniadau ar gyfer canlyniadau cyffredinol a galwedigaethol. Roedd hyn er mwyn helpu i sicrhau bod y cyhoedd a rhanddeiliaid yn cael eu hysbysu'n briodol am y trefniadau ar gyfer arholiadau ac asesiadau a

	chanlyniadau'r polisi graddio. Ar y ddau ddiwrnod canlyniadau, fe wnaethom gyhoeddi cyfres o gyhoeddiadau a ffeithluniau ar ein gwefan, rhannu cynnwys pwrpasol ar draws ein sianeli cyfryngau cymdeithasol a darparu bwletin trwy e-bost i ganolfannau a rhanddeiliaid allweddol eraill.
✓	Trwy gydol y flwyddyn fe wnaethom lansio sawl ymgynghoriad, gan gynnwys ymgynghoriad ar ein dull arfaethedig o ddynodi cymwysterau 14-16 ac ymgynghoriad ar ein cynigion ar gyfer cymwysterau Lletygarwch ac Arlwyio newydd a ddatblygwyd mewn ymateb i'n hadolygiad o'r sector. Fe wnaethom hefyd gwblhau ein hymgyngoriad ar y Cynnig Llawn a oedd yn nodi ein cynigion ar gyfer y Gyfres Sgiliau, cymwysterau cyn-alwedigaethol (sef TAAU ers hynny) a chymwysterau sylfaen. Cefnogwyd pob ymgynghoriad gan gynllun cyfathrebu ac ymgysylltu a gynlluniwyd i annog ymwybyddiaeth a chyfranogiad yn yr ymgynghoriad a chyfleu'r penderfyniadau a wnaethom mewn ymateb i'r adborth.
✓	Yn ystod 2023/24 cynhaliwyd 10 ymgynghoriad ac arolwg a ddenodd 774 o ymatebion. Cawsom hefyd 41,583 ymweliad â'n llwyfannau Dweud Eich Dweud a chofrestrodd 661 o ddefnyddwyr newydd.
4	Adnoddau Corfforaethol
✓	Yn ystod 2022/23, bu'n swyddogaethau corfforaethol yn parhau i gefnogi'r sefydliad, a hynny er mwyn sicrhau ei fod yn effeithlon, yn effeithiol ac yn cydymffurfio, a'n bod yn cyflawni ein gwaith rheoleiddio a diwygio. Roedd 2023/24 yn flwyddyn heriol i'r sector cyhoeddus. Mewn ymateb, fe wnaethom gynnal adolygiad cynhwysfawr o wariant a gynlluniwyd, ac wrth gynllunio ein gweithrediadau ar gyfer 2024/25, roeddem yn annog y sefydliad i ystyried dulliau newydd.
✓	Rydyn ni wedi parhau i feithrin ein diwylliant cynhwysol er mwyn cefnogi ein Hamcanion Cydraddoldeb Strategol. Yn 2023/24 derbyniodd ein staff ac aelodau'r Bwrdd hyfforddiant cynhwysiant a oedd wedi'i lywio gan ganlyniadau ein Hadolygiad Cydraddoldeb a Chynhwysiant a gynhaliwyd yn 2022/23.
✓	Mae ein Bwrdd wedi parhau i gefnogi'r Prosiect 'Llwybr i'r Bwrdd', a gynhelir gan y sector tai ac sydd wedi'i gynllunio i helpu unigolion o gefndiroedd ethnig lleiafrifol i ddatblygu'r sgiliau angenrheidiol i ddod yn aelodau effeithiol o Fyrddau. Bu'r Bwrdd yn parhau i fentora tri aelod o'r ail garfan, ac maent wedi cytuno i barhau i fentora aelodau o'r drydedd garfan yn ystod 2024/35, gyda'r nod o helpu byrddau yng Nghymru i adlewyrchu amrywiaeth y boblogaeth yn well.

✓	<p>Rydyn ni wedi parhau i weithio ar y cyd â'r Sector Cyhoeddus yng Nghymru er mwyn gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd ac wedi cefnogi rhwydweithiau ym maes Cyllid, Adnoddau Dynol a TG. Roedd ein Cyfarwyddwr Gweithredol ar gyfer Adnoddau Corfforaethol yn aelod o Fwrdd y Rhaglen a'r ffrwd waith Adnoddau Dynol ar gyfer rhaglen weithredu'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil ac roedd ein Pennaeth TG yn cefnogi'r systemau a'r prosesau llif gwaith. Rydyn ni'n cefnogi'r rhwydweithiau o gyrff noddedig ar gyfer penaethiaid adnoddau, TG, cyllid ac AD. Mae ein Pennaeth AD yn mynychu sesiynau gyda chyrff eraill yn y sector cyhoeddus er mwyn ystyried sut y gallwn gydweithio ar amcanion cydraddoldeb i gael yr effaith fwyaf posibl, ac mae gennym gynrychiolaeth ar Grŵp Llywio Gwrth-Hiliaeth Addysg Bellach Ôl-16.</p>
✓	<p>Mae gwaith i ddatblygu ein gweithlu a sicrhau gweithio hybrid effeithiol wedi datblygu'n dda yn ystod y flwyddyn. Fe wnaethom ymgymryd â'r camau a nodwyd i fynd i'r afael â chanfyddiadau Arolwg Pobl 2022/23 a chynhaliwyd Arolwg Pobl 2023/24 yn llwyddiannus, gan gyflawni sgôr ymgysylltu o 76% a 93% o staff yn ymateb. Mae hyn yn cymharu'n ffafriol â chyrff eraill y llywodraeth. Cafodd yr adborth a gasglwyd yn ystod Arolwg Pobl 2023/24 ei ystyried gan y Bwrdd ym mis Mawrth a bydd camau a nodwyd i fynd i'r afael â'r canfyddiadau yn cael eu datblygu yn ystod 2024/25. Fe wnaethom hefyd ymgysylltu â gweithwyr a'r undebau wrth adolygu'r Polisi Gweithio Hybrid a Gweithio Gartref gan ystyried yr adborth hwn wrth gwblhau'r polisi diwygiedig. Fe wnaethom gyflwyno mentrau i gynnal ymgysylltiad staff, gan drefnu dau ddigwyddiad staff yn ystod y flwyddyn a oedd yn gyfle i'r sefydliad cyfan ddod at ei gilydd a thrafod blaenoriaethau sefydliadol allweddol.</p>
✓	<p>Fe wnaethom gyflawni ein Cynllun Lleihau Carbon. Trwy osod synwryddion mewn ystafelloedd cyfarfod a pharhau â'n polisiau gweithio a theithio hybrid, arhosodd ein hallyriadau ymhell islaw'r lefelau cyn y pandemig. Fe wnaethom fonitro ôl troed ein harbenigwyr pwnc ac roeddem yn gallu adrodd hyn yn fwy cywir. Mae'r newid hwn, ynghyd â newidiadau yn y cyfrifiadau a'r defnydd o ffigwr allyriadau gwirioneddol gan Microsoft, wedi ein galluogi i adrodd gostyngiad o 23% yn ôl troed y gadwyn gyflenwi. Rydyn ni wedi dyfarnu contract trydan adnewyddadwy 100% i fod ar waith o fis Gorffennaf 2024 ymlaen.</p> <p>Mae ein gweithgareddau cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol ar gyfer 2023/24 wedi cefnogi'r agenda lleihau carbon, gyda gweithwyr yn helpu cymunedau lleol i glirio sbwriel a rhedyn a phlannu coed er mwyn gwella bioamrywiaeth a mynediad at fannau gwyrdd.</p>
✓	<p>Ym mis Mehefin 2023 fe wnaethom drawsnewid yn llwyddiannus i'r system gyllid newydd. Ar ôl i'r system newydd fynd yn fyw, fe wnaethom gynnal adolygiad gwersi a ddysgwyd, ac ym mis Mawrth bu ein Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn ystyried canfyddiadau'r ymarfer hwnnw. Yn ystod 2024/25 byddwn yn ystyried mabwysiadu'r modiwlau cyllid ychwanegol.</p>

5	Ymchwil, Dealltwriaeth ac Effaith
✓	Fe wnaethom gyhoeddi ein Hadroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb ar gyfer 2022/23 a oedd yn trafod ein cyflawniad yn erbyn ein Hamcanion Cydraddoldeb Strategol a'n Hadroddiad Cydymffurfio â Chynllun y Gymraeg 2022/23 . Fe wnaethom hefyd gyhoeddi ein Cyfrifon Blynyddol 2022/23 diamod a goruchwylio'r gwaith o gyflwyno'r Cynllun Archwilio Mewnol 2023/24 yn llwyddiannus, gyda'r holl adroddiadau'n dangos sicrwydd sylweddol neu resymol.
✓	Yn ogystal â chyflawni yn erbyn ein Hamcanion Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol cyfredol, daeth y gwaith o adolygu ac adnewyddu ein hamcanion ar gyfer 2024 ymlaen i ben. Yn ystod y flwyddyn buom yn casglu ac yn dadansoddi gwybodaeth i lywio datblygiad ein Datganiad a'n Hamcanion Llesiant ac yn ymgysylltu'n helaeth â rhanddeiliaid, staff a'n hundebau ar ein cynigion drafft. Wrth bennu ein hamcanion llesiant, roeddem yn ceisio gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, gan ystyried y pum ffordd o weithio. Ym mis Mawrth 2024, cymeradwyodd ein Bwrdd ein Datganiad a'n Hamcanion, a chyhoeddir y dogfennau hyn yn gynnar yn 2024/25. Byddwn yn gweithio i wreiddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy a'r pum ffordd o weithio ymhellach i'n prosesau cynllunio busnes a'n dulliau gweithredu drwy gydol y flwyddyn.
✓	Fe wnaethom gyflawni yn erbyn ein Cynllun Gweithredu Gwrth-Hiliol 2022-24 trwy ein dulliau recriwtio, cynnwys cymwysterau, a'r gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid. Fe wnaethom weithio'n agos gyda DARPL i gefnogi CBAC wrth ystyried y mater o gynrychiolaeth mewn cymwysterau a'r rôl a'r dylanwad y gall cymwysterau ei chael wrth gyfrannu at Gymru wrth-hiliol. Fe wnaethom hefyd barhau i ymgysylltu â rhannau eraill o'r system addysg i nodi cyfleoedd ar gyfer gweithredu integredig a chyhoeddi data ystadegol i helpu'r system addysg ehangach i nodi a mynd i'r afael â materion. Ym mis Mawrth 2024, cyhoeddwyd ein Cynllun Gweithredu Gwrth-Hiliol 2024-28 a gafodd ei ddiweddarau yn dilyn adborth a gasglwyd drwy ein hymgysylltiad cydraddoldeb strategol â rhanddeiliaid.
✓	Parhaodd y gwaith o fwrw ymlaen â'n hymrwymadau o dan Gynllun Cydraddoldeb Strategol 2022-24. Fe wnaethom gyflwyno camau i fynd i'r afael â chanfyddiadau ein Hadolygiad Cynhwysiant 2022, gan ddarparu hyfforddiant cynhwysiant i'n Bwrdd a'n staff. Fe wnaethom barhau â'n rhaglen o weithgareddau Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol a chyflwynodd ein grŵp QWEST (Tîm Cydraddoldeb a Chyfrifoldeb Cymdeithasol Cymwysterau Cymru) ymgyrchoedd i wreiddio iechyd a lles ar draws y sefydliad. Fe wnaethom hefyd gryfhau ein cysylltiadau ag arbenigwyr ym maes cydraddoldeb ac asesu ac ymarferwyr sy'n gyfrifol am anghenion dysgu ychwanegol ac amrywiaeth. Bydd Adroddiad Cynnydd Blynyddol y Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2023/24 yn cael ei gyhoeddi yn 2024/25.

✓	Yn ystod y flwyddyn bu ein Hyrwyddwyr Cydraddoldeb yn gweithio ar draws y sefydliad i ddatblygu ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-28 a'n hamcanion, ac fe wnaethom ymgysylltu â grwpiau cynrychioliadol, staff a'n hundeb ar ein cynigion drafft. Cafodd ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-28 ei gymeradwyo gan ein Bwrdd ym mis Mawrth 2024, a bydd yn cael ei gyhoeddi yn gynnar yn ystod 2024/25.
✓	Fe wnaethom barhau i gynnal a chomisiynu ymchwil i gefnogi a llywio gweithgareddau adolygu a diwygio, casglu data, a chynhyrchu ystadegau swyddogol. Ym mis Mehefin 2023 cyhoeddwyd canfyddiadau ymchwil a gomisiynwyd gennym i Hyder rhanddeiliaid mewn cymwysterau nad ydynt yn raddau yng Nghymru a'r system gymwysterau. Ym mis Hydref fe wnaethom gyhoeddi Dadansoddiad Cydraddoldeb o Gymwysterau Cyffredinol yn Haf 2023 a gyflwynodd ystadegau ar wahaniaethau yng nghanlyniadau cymwysterau yn ôl nodweddion dysgwyr. Ym mis Rhagfyr fe wnaethom gyhoeddi adroddiad ar ymchwil a gomisiynwyd gennym i fyfyrion ar sut mae awdurdodaethau rhyngwladol yn ymgorffori cynwysoldeb o fewn eu cymwysterau ar gyfer dysgwyr ysgolion uwchradd. Ym mis Ionawr 2024, fe wnaethom gyhoeddi ymchwil gan Ganolfan Asesu Addysgol Prifysgol Rhydychen (OUCEA) o'r enw Standards in GCSEs in Wales: Approaches to Defining Standards (Saesneg yn unig) ac ym mis Mawrth, fe wnaethom gyhoeddi adroddiad ar astudiaeth a gynhaliwyd fel rhan o'r ymchwil a gomisiynwyd a oedd yn archwilio barn rhanddeiliaid a rhieni ar gydraddoldeb, tegwch, a chynhwysiant mewn cymwysterau nad ydynt yn raddau a'r system yng Nghymru.

Philip Blaker	Philip Blaker Swyddog Cyfrifyddu 19 Medi 2024
---------------	--

2.2. Prif risgiau

Newidiadau yn ein proffil risg yn ystod 2023/24

Yn ystod 2023/24 fe wnaethom gyflawni sawl carreg filltir allweddol a oedd yn ein galluogi i gau'r risgiau cysylltiedig. Fe wnaethom gyhoeddi ein meini prawf cymeradwyo ar gyfer y cymwysterau TGAU newydd yn llwyddiannus; cyhoeddwyd Adolygiad Llywodraeth Cymru o Gymwysterau Galwedigaethol; ac aeth ein system gyllid newydd yn fyw.

Mae sawl maes risg wedi gwella yn ystod y flwyddyn. Mae'r rhain yn cynnwys risgiau sy'n gysylltiedig â:

- gallu CBAC i ddatblygu cymwysterau TGAU newydd gan gadw at linellau amser heriol
- manteisio'n llawn ar gyfleoedd technoleg ddigidol
- awydd cyrff dyfarnu i gynnig cymwysterau i bobl ifanc 14-16 oed heblaw am gymwysterau TGAU, lle mae datblygiad eisoes ar y gweill gan CBAC.
- ein cynllunio a'n blaenoriaethu.

Mae rhai risgiau wedi cynyddu, ac mae risgiau newydd wedi ymddangos wrth i ni symud yn agosach at gyflwyno cymwysterau cenedlaethol 14-16 newydd, mewn hinsawdd lle mae llai o gyllid i ni ein hunain ac i ysgolion a cholegau. Disgrifir y prif risgiau a reolir gennym isod. Maen nhw'n parhau i fodoli, ac rydyn ni'n parhau i'w monitro'n ofalus.

Diwygio cymwysterau i bobl ifanc 14-16 oed

Rydyn ni'n parhau i gyflawni ein prosiect i ddiwygio cymwysterau i gefnogi'r Cwricwlwm newydd i Gymru. Ar ôl cyhoeddi ein meini prawf cymeradwyo TGAU, mae'r pwysau'n newid at CBAC i ddarparu cyflwyniadau amserol sy'n bodloni ein gofynion, ac at ein proses ar gyfer adolygu a chymeradwyo. Rydyn ni hefyd yn cwblhau ein meini prawf cymeradwyo ar gyfer y cymwysterau 14-16 sy'n weddill, gan gynnwys y cymwysterau TAAU newydd, cymwysterau sylfaen a'r gyfres sgiliau. Rydyn ni'n awyddus i osgoi risgiau cyflawni posibl drwy barhau i ystyried pa mor ymarferol yw'r diwygiadau'n gyffredinol a gweithio gyda chyrff dyfarnu i sicrhau eu hymrwymiad i ddatblygu a chyflwyno cymwysterau newydd.

Er ein bod yn rheoli risgiau amrywiol o fewn y prosiect hwn, mae'r risgiau â'r sgôr uchaf yn ymwneud â pharodrwydd ysgolion. Rydyn ni'n rheoli hyn drwy fynd ati i gyfathrebu, darparu cefnogaeth i reoli newid a thrwy fonitro'r dysgu proffesiynol a'r adnoddau a ddarperir gan CBAC a Llywodraeth Cymru.

Mae risg bellach yn ymwneud â'r ffaith nad yw Llywodraeth Cymru eto wedi penderfynu ar ei mesurau atebolrwydd ysgolion. Mae'r ansicrwydd hwn yn effeithio ar sut y bydd ysgolion yn mynd ati i gynllunio'r cwricwlwm a chofrestru ar gyfer y cymwysterau newydd a gallai arwain at rywfaint o bontio anhrefnus a allai danseilio'r manteision. Rydyn ni'n monitro'r risg hon yn agos.

Cyfyngiadau ariannol

Yn ystod y flwyddyn, cynyddodd ein risgiau sy'n gysylltiedig ag arian annigonol yn sylweddol, wrth i ni ddod yn ymwybodol o ddyfarniad cyflog arfaethedig Llywodraeth Cymru (y mae ein polisi yn cyd-fynd ag ef) a'i hanawsterau wrth gyflawni ei chyllideb ei hun. Roedd hyn ar adeg pan oeddem wedi ymrwymo'n fawr i'n diwygiadau i gefnogi'r cwricwlwm newydd. Fe wnaethom gymryd camau i adolygu gweithgareddau a gwariant ac roedden ni'n gallu ailddyrrannu gwariant nad oedd wedi'i gynllunio ar gyfer cyflogau i liniaru'r risgiau. Rydyn ni'n parhau i drafod ein hanghenion adnoddau gyda Llywodraeth Cymru a byddwn yn gweithio i ddatblygu ein model gweithredu tymor hwy.

Mae cyfyngiadau ariannol hefyd yn effeithio ar y risg bod ein gwaith o ddiwygio cymwysterau yn golygu y bydd angen mwy o adnoddau i fonitro'r broses o weithredu a dyfarnu'r cymwysterau diwygiedig hynny. Rydyn ni'n lliniaru hyn drwy edrych ar agweddau ar ddylunio y gellir eu safoni ac ystyried ein dulliau monitro. Rydyn ni hefyd yn adolygu ein cynlluniau diwygio tymor hwy yng nghyd-destun cyfyngiadau adnoddau.

Rheoli Newid

Mae'r system addysg yng Nghymru yn wynebu newid sylweddol ar adeg pan fo ysgolion a cholegau yn wynebu pwysau ariannol mawr. Rydyn ni'n cyflwyno newidiadau i gymwysterau yn y cyd-destun hwn. Gyda phob diwygiad i gymwysterau, mae risg na fydd canolfannau wedi'u paratoi'n ddigonol ar gyfer newid, ac y gallai hyn effeithio ar ddarparu cymwysterau newydd yn llwyddiannus, gan gyfyngu ar y manteision a chan effeithio ar hyder y cyhoedd. Mae colegau a darparwyr dysgu seiliedig ar waith yn rheoli newidiadau i gymwysterau galwedigaethol ôl-16. Mae'r risgiau yn y maes hwn wedi lleihau drwy gydol y flwyddyn gan ein bod wedi gweithio'n agos i gefnogi'r gweithredu. Rydyn ni hefyd wedi parhau i ddefnyddio ein grwpiau sector sefydledig er mwyn hwyluso trafodaeth reolaidd rhwng cyrff dyfarnu a chanolfannau.

Fodd bynnag, wrth i gyfnod cyflwyno'r cymwysterau cenedlaethol 14-16 newydd agosáu, mae'n golygu bod y risg nad yw ysgolion yn ddigon parod wedi cynyddu. Rydyn ni'n lliniaru hyn drwy ymgysylltu'n barhaus ag ysgolion ac yn monitro'r cymorth a ddarperir i athrawon gan CBAC ar gyfer y cymwysterau newydd, gan gydnabod mai rôl Llywodraeth Cymru yw darparu cymorth ac adnoddau ehangach ar gyfer newidiadau mewn addysgu a dysgu i gefnogi'r Cwricwlwm i Gymru.

Risgiau'r system addysg

Rydyn ni'n edrych ar draws y system gymwysterau ac yn cadw llygad barcud ar yr hyn sy'n digwydd o'n cwmpas. Ar wahân i'r cymwysterau hynny sydd wedi'u datblygu'n benodol ar gyfer Cymru, mae'r rhan fwyaf o gymwysterau galwedigaethol eraill yn cael eu cynnig ledled y DU. Mae polisiâu addysg a sgiliau yn Lloegr yn parhau i esblygu i gyfeiriadau gwahanol i'r rhai yng Nghymru. O ganlyniad, mae perygl y bydd rhai cymwysterau yn peidio â bod ar gael yng Nghymru. Mae risg hefyd bod angen i gyrff dyfarnu ganolbwyntio adnoddau ar ymateb i newidiadau yn Lloegr.

Er bod gostyngiadau yn y cynnig o gymwysterau o'r fath yn gallu lleihau'r dewis i bob dysgwr, gallan nhw gael effaith anghymesur ar ddysgwyr cyfrwng Cymraeg gan ei bod yn bosibl mai'r cymhwyster penodol hwnnw yw'r unig un sydd ar gael iddynt.

Er mwyn lliniaru'r risgiau hyn, rydyn ni'n cyfarfod yn rheolaidd â'r cyrff dyfarnu hynny sy'n cynnig cymwysterau i nifer fawr o ddysgwyr yng Nghymru. Rydyn ni'n archwilio cyfleoedd i sicrhau bod cymwysterau ar gael yng Nghymru, ac yn eu cefnogi i gynnig rhagor o gymwysterau trwy gyfrwng y Gymraeg. Yn unol â'n strategaeth cyfrwng Cymraeg, 'Dewis i Bawb', rydyn ni hefyd yn ceisio nodi pa gymwysterau y gellid eu defnyddio i lenwi unrhyw fylchau. Rydyn ni hefyd wedi canolbwyntio ail gam ein gwaith adolygu sector ar argaeledd generig cymwysterau ôl-16 ac, yn benodol, y rhai sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg. O ganlyniad i'r gweithgareddau hyn mae'r lefel risg gyffredinol wedi gostwng am y tro, er bod etholiad y DU yn 2025 yn creu ansicrwydd ac yn golygu y gallai'r proffil risg newid.

Safonau

Rydyn ni wedi nodi yn ein polisi graddio y dylai canlyniadau'r dyfarniadau TGAU, UG a Safon Uwch yn haf 2023 fod yn fras hanner ffordd rhwng y canlyniadau yn 2019 a 2022, ac yn 2024, rydyn ni'n disgwyl dychwelyd i drefniadau cyn y pandemig. Yn gynharach yn y flwyddyn academaidd, roedd risg na fyddai rhanddeiliaid yn deall effaith y penderfyniad hwn ac y gallai effeithio ar hyder y cyhoedd. Roeddem yn gallu cau'r risg benodol hon ar ôl i'r gyfres arholiadau ddod i ben heb unrhyw faterion sylweddol. Bydd monitro safonau'n parhau ar ein cofrestr risg wrth i ni gwblhau ein taith yn ôl i drefniadau cyn y pandemig yn 23/24 ac wrth i ni baratoi ar gyfer y cyfnod pontio i'r cymwysterau 14-16 newydd. Rydyn ni wedi ceisio lliniaru'r risgiau hyn drwy gyfathrebu clir gydag ysgolion, rhieni a dysgwyr. Rydyn ni'n cynnal deialog reolaidd â rheoleiddwyr mewn awdurdodaethau eraill a chyda chyrff dyfarnu. Rydyn ni'n ymwybodol bod ein gwaith yn digwydd mewn cyd-destun lle mae'r pandemig wedi cael effaith ar gyrhaeddiad addysgol ac, i rai, ar bresenoldeb.

Corfforaethol

Wrth i ni ddechrau cyfnod o ddyddiadau cau pwysig ar gyfer ein gwaith diwygio, mae'r risg o orddibynnu ar unigolion yn parhau i fod yn uchel, yn ogystal â'r risg o lwyth gwaith gormodol i rai staff. Rydyn ni'n lliniaru hyn drwy gynllunio ein gwaith yn ofalus, cynnwys ein hundebau llafur, a chynnwys elfen o gynllunio wrth gefn a throsglwyddo gwybodaeth.

Ar ôl cyflwyno ein system gyllid newydd, rydyn ni'n monitro'r risg y gallai rheolaethau aneffeithiol olygu bod unrhyw gamau uwchraddio yn y dyfodol yn achosi aflonyddwch. Mae gennym gyfres o gamau gweithredu ar y gweill i sicrhau bod ein darparwr wedi dogfennu ein ffurfweddiad yn gywir ac yn briodol, bod rheolaethau a mynediad yn cael eu deall yn llawn a bod amgylchedd y prawf wedi'i ffurfweddu'n briodol.

2.3 Adolygiad ariannol

Caiff Cymwysterau Cymru ddyraniad cyllid blynyddol gan Lywodraeth Cymru i dalu am ei wariant. Yn unol â Fframwaith Ariannol y Sector Cyhoeddus, rydyn ni'n derbyn cymysgedd o refeniw, cyfalaf a chyllid 'nad yw'n arian parod' (mae cyllid nad yw'n arian parod yn darparu ar gyfer y costau dibrisiant / amhariad asedau y mae'n ofynnol i bob endid sy'n dilyn egwyddorion a safonau cyfrifyddu seiliedig ar adnoddau eu cydnabod). Rydyn ni hefyd yn cynhyrchu ychydig bach o incwm bob blwyddyn, drwy ddarparu gwasanaethau cymorth TG i ddau gorff llai a noddur gan Lywodraeth Cymru, rydyn ni'n cael caniatâd i'w ail-fuddsoddi yn ein gweithgareddau. Ar ddechrau'r flwyddyn ariannol roedd y cyllid canlynol ar gael i ni:

Cyllid 2023-24			
Math o gyllid	Refeniw £'000	Cyfalaf £'000	Cyfanswm £'000
Cyllid Craidd ¹	9,807	250	10,057
Cyllid Cymraeg i Oedolion	200		200
Cyllid nad yw'n arian parod	250		250
Cyfanswm Cyllid ar gyfer Adnoddau	10,257	250	10,507
Cyfanswm y cyllid ac eithrio dyraniad arian parod	10,007	250	10,257
Gan ychwanegu'r Incwm a Gynhyrchir	41		41
Cyfanswm y Cyllid Sydd ar Gael (Cyllideb Cymwysterau Cymru)	10,048	250	10,298

Yn seiliedig ar y lefel hon o gyllid sydd ar gael ac yn unol â'n Cynllun Cyllid Tymor Canolig a'n Cynllun Gweithredu, fe wnaethom osod cyllideb gwariant o £10.298m er mwyn cyflawni'r gweithgareddau roedden ni'n bwriadu ymgymryd â nhw, wedi'i rhannu'n ymarferol yn feysydd bras fel a ganlyn:

- **Costau staff**
- **Grantiau i gyrff eraill**, i gefnogi'r system gymwysterau ac anghenion dysgwyr, drwy sicrhau bod asesiadau cyfrwng Cymraeg ar gael ac ariannu gweithgareddau penodol sy'n galluogi diwygio cymwysterau
- **Cyllidebau rhaglen**, i gomisiynu'r cymorth a'r arbenigedd allanol sydd eu hangen i gyflenwi ein rhaglen o adolygu a diwygio cymwysterau, i reoleiddio'r cyrff dyfarnu sy'n darparu cymwysterau yng Nghymru, ac i wneud gwaith ymchwil
- **Costau gweithredu corfforaethol**, fel Adnoddau Dynol, TG, cyfleusterau, llywodraethu, cyngor cyfreithiol ac ati

Ar ddechrau'r flwyddyn, cydnabu Llywodraeth Cymru hefyd y pwysau cost ychwanegol posibl y byddem yn ei wynebu ar gyfer y flwyddyn i ddod, nad oeddent wedi'u cynnwys yn ein cyllideb o £10.298m:

- pe na byddem yn cyflawni ein targed arbedion trosiant staff cynyddol yn llawn,
- pe byddai dyfarniad cyflog sy'n fwy na'r ddarpariaeth a ddarperir, a
- pe bai'r cyllid sy'n ofynnol ar gyfer ein diwygiadau Cymwys ar gyfer y Dyfodol yn fwy na'r lefel a gyfunwyd yn ein cyllid craidd.

Er mwyn cydnabod y pwysau cost posibl hyn, cadarnhaodd ein llythyr grant 2023-24 gan Lywodraeth Cymru eu bod yn 'barod i weithio gyda ni i ddeall, cynllunio a rheoli' effaith y pwysau cost hyn.

Yn dilyn hynny, cawsom sicrwydd ariannol ychwanegol gan Lywodraeth Cymru a oedd yn ein galluogi i or-ymrwymo i'n cyllideb grant Cymorth i'r Gymraeg. O ganlyniad i'n strategaeth

¹ Cafodd cyllid a ddyrannwyd ar wahân yn flaenorol i Cymwysterau Cymru bob blwyddyn i ddiwygio cymwysterau sy'n gysylltiedig â gwaith Llywodraeth Cymru o ddiwygio'r Cwricwlwm ei gynnwys yn y cyllid craidd o 2023-24.

'Dewis i Bawb', rydyn ni'n annog ceisiadau am gyllid grant i sicrhau bod niferoedd cynyddol o gymwysterau yn y Gymraeg ar gael, ac roedd y ceisiadau yn fwy na'r gyllideb o £180k yn 2023-24. Cytunodd Llywodraeth Cymru i ddarparu cyllid ychwanegol o hyd at £70k pe na baem yn gallu amsugno gwariant ychwanegol yn y maes hwn o'n cyllid cyffredinol presennol.

Yn ystod y flwyddyn daeth y pwysau cost cyflog gwirioneddol canlynol i'r amlwg:

- a) O ganlyniad i'n hawydd parhaus a'n hymrwymiad i barhau i gyd-fynd â pholisi cyflog Llywodraeth Cymru:
 - fe wnaethom gytuno i ddilyn arfer Llywodraeth Cymru a darparu'r taliad 'costau byw' untro o £1,500 i'r holl staff cymwys (ar ôl i Lywodraeth Cymru gadarnhau eu bod yn disgwyl i gyrff sydd â chyflog cyfatebol iddyn nhw gyd-fynd â'u dull gweithredu)
 - Fe wnaethom hefyd gyd-fynd â'r dyfarniad cyflog a wnaed gan Lywodraeth Cymru, a oedd yn rhagori ar y ddarpariaeth a ddyrannwyd yn y gyllideb wreiddiol.

- b) Oherwydd nad oedd lefelau trosiant ein staff yn debyg i'r rhai a welwyd yn 2022-23, nid oedd yn mynd i fod yn bosibl cyflawni'r arbedion angenrheidiol yn llawn (er bod ymyrraeth fwy bwriadol gan y Bwrdd Rheoli wrth ystyried recriwtio i swyddi gwag yn ail hanner y flwyddyn wedi lleihau'r diffyg).

Creodd y problemau hyn bwysau cost heb eu hariannu yn ystod y flwyddyn sy'n dod i gyfanswm o tua £480k.

Yn ystod y flwyddyn cawsom wybod hefyd gan Lywodraeth Cymru, o ganlyniad i newidiadau yn yr hinsawdd economaidd ehangach a'u pwysau cost eu hunain, nad oeddent bellach mewn sefyllfa i'n cefnogi i fynd i'r afael â'n pwysau cost nad oeddynt wedi'u hariannu.

O ganlyniad, fe wnaethom gynnal adolygiad canol blwyddyn o weithgareddau wedi'u cynllunio a chyllidebau nad ydynt yn ymwneud â chyflogau i nodi lle y gellid rhyddhau cyllid i dalu am ein pwysau cost. Fe wnaethom gyflawni hynny drwy wneud y canlynol:

- cael gwared ar yr holl ddarpariaethau a chynlluniau wrth gefn
- ailgynllunio gweithgareddau ac amcanion a datblygu opsiynau llai costus ar gyfer eu cyflawni, ac
- asesu lle gellid cyflwyno rhai gweithgareddau fesul cam ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, a thrwy hynny rannu gwariant dros ddwy flynedd ariannol.

Mae'r tabl isod yn cadarnhau ein cyllidebau gwreiddiol a diwygiedig ar gyfer y flwyddyn (sy'n dangos y newid yn y dyraniad o'r gyllideb nad yw'n ymwneud â chyflogau i'r gyllideb cyflogau i ysgwyddo ein pwysau cost), a'n gwariant alldro, o'i gymharu â 2022-23.

Maes	Aldro 2022- 23	Cyllideb 2023-24 (gwreiddiol)	Cyllideb 2023-24 (diwygiedig)	Aldro 2023-24	Amrywiant Aldro	
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Refeniw						
Cyflog	6,508	6,997	7,474	7,483	9	0.1%
Grantiau	561	650	624	670	46	7.4%
Costau Rhaglenni	755	857	572	527	-45	-7.9%
Costau Gweithredu	1,283	1,344	1,178	1,144	-34	-2.9%
Gwariant Refeniw Craidd	9,107	9,848	9,848	9,824	-24	-0.2%
Grant Cymraeg i Oedolion	200	200	200	200	0	0.0%
Is-gyfanswm	9,307	10,048	10,048	10,024	-24	-0.2%
Cyfalaf						
Cyflog	40	45	41	41	0	0.0%
Costau Gweithredu	223	205	209	208	-1	-0.5%
	263	250	250	249	-1	-0.4%
Cyfanswm y Gwariant	9,570	10,298	10,298	10,273	-25	-0.2%
Ariannwyd Gan:						
Grant Craidd LIC - Refeniw	7,740	9,807	9,807	9,781		
Grant Craidd LIC - Cyfalaf	263	250	250	249		
Cyllid Cymraeg i Oedolion	200	200	200	200		
Cyllid Cymwys ar Gyfer y Dyfodol	1,326	0	0	0		
Incwm	41	41	41	43		
Cyfanswm	9,570	10,298	10,298	10,273		

Mae'n cadarnhau ein bod wedi gallu rhyddhau cyllid nad yw'n gyflogau i ysgwyddo ein pwysau cost cyflogau yn ystod y flwyddyn.

Ein gwariant o £10.273m yn 2023-24 yw'r ffigwr gwariant uchaf ers i ni gael ein sefydlu yn 2015 ac mae'n agos iawn at wariant llawn yn erbyn ein cyllideb o £10.298m. Yn ôl y disgwyl, bu'n rhaid ysgwyddo gwariant grant ychwanegol, a oedd ychydig yn is na'r disgwyl oherwydd bod llai o geisiadau wedi cael eu gwneud ym mis Mawrth ond, trwy wrthbwysio mân danwariant yn erbyn ein cyllidebau costau rhaglenni a gweithredu, roeddem yn gallu ysgwyddo'r gorwariant ar grantiau ein hunain, ac nid oedd angen i ni hawlio unrhyw gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru.

Roedd ein gwariant cyfalaf yn unol â'n dyraniad cyllidebol.

Fel yn 2022-23, roedd IFRS 16 (y safon gyfrifyddu ar gyfer prydlesi) yn gofyn am addasu'r gyllideb yn ystod y flwyddyn ar draws y llywodraeth ganolog, gan gynnwys Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru. Cadarnhawyd yr addasiad hwn o'r gyllideb gan Gynnig Cyllideb Atodol Llywodraeth Cymru ym mis Mehefin 2023. Felly, derbyniodd y ddau ohonom gyllidebau refeniw newydd tybiannol ar gyfer y taliadau dibrisiant ac ariannu sy'n gysylltiedig â phrydlesau a gwmpesir gan y safon, a gostyngwyd ein cyllideb refeniw bresennol er mwyn cydnabod nad

oedd y costau prydles blynyddol, er eu bod yn all-lif arian parod sydd angen cymorth grant, yn cael eu cydnabod bellach fel gwariant sy'n seiliedig ar adnoddau.

Mae'r tabl isod yn dangos cymhariaeth sy'n cyfleu sut mae ein cyfrifon rheoli wedi'u haddasu i gynhyrchu ein Gwariant Net Cynhwysfawr (unwaith y cyfrifir am wariant cymhwys cyfalaf, trafodion adnoddau heb arian parod, taliadau dibrisiant/ amorteiddio, a thrafodion IFRS 16.)

Cysoni'r Alldro â'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr (SoCNE)	£'000
Alldro'r Gyllideb	10,273
Heb gynnwys gwariant sy'n cael ei drin fel rhywbeth nad yw'n gyfredol (cyfalaf)	(249)
Ychwanegu dibrisiant/amorteiddiad/amhariad	254
Wedi'i addasu i gydnabod symudiadau nad oeddent yn rhai arian parod (croniad Gwyliau Blynyddol a newidiadau darpariaeth)	(10)
Ychwanegu IFRS 16 Ased Hawl i Ddefnyddio - Tâl dibrisiant	95
Ychwanegu IFRS 16 Ased Hawl i Ddefnyddio - Costau Ariannu	58
Dileu IFRS 16 Llif arian prydlesau	(137)
Defnydd incwm a gynhyrchwyd	(45)
Gwariant Net cynhwysfawr ar gyfer y Flwyddyn	10,239

Fe wnaethom brosesu 1,069 o anfonebau i'w talu yn 2023-24, 258 (19%) yn llai nag yn 2022-23 (1,329). Talwyd 97% o'r anfonebau hyn o fewn 30 diwrnod (99% yn 2022-23), a thalwyd 65% o'n hanfonebau o fewn 10 diwrnod (73% yn 2022-23)². Mae'r hyn sy'n ymddangos i ddechrau yn ostyngiad mewn perfformiad yn cael ei ystumio gan effaith cam gweithredu'r system gyllid newydd. Ers symud trwy'r cam gweithredu mae ein perfformiad wedi gwella. Rhwng mis Medi 2023 a mis Mawrth 2024, fe wnaethom brosesu 85% o'n hanfonebau o fewn 10 diwrnod, sy'n uwch nag unrhyw gyfnod blaenorol arall, a 99% o fewn 30 diwrnod.

Byddwn ni'n parhau i ofyn am eglurhad pan fo taliad yn hwyrach na'n targedau ac yn gwella prosesau lle bo angen.

Ein balans arian parod ar 31 Mawrth 2024 oedd £47k, sydd ymhell o fewn y terfyn cario drosodd o £207k sy'n cael ei ganiatáu gan Lywodraeth Cymru.

Cafodd sylw priodol ei roi i reoleidd-dra a phriodoldeb gwariant y sefydliad, a bernir bod prosesau a rheolaethau mewnol priodol ar waith.

²Yn absenoldeb diffiniad statudol ar gyfer y targed '10 diwrnod', rydyn ni'n mesur yr amser rhwng pan fo Cymwysterau Cymru'n derbyn anfoneb ddilys, a phryd y caiff y taliad ei wneud i gyfrif banc y cyflenwr.

Mae disgwyl i Cymwysterau Cymru barhau i fodoli a chael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru am beth amser eto, sy'n golygu ei bod yn briodol mabwysiadu'r sail 'busnes gweithredol' ar gyfer paratoi'r datganiadau ariannol hyn.

Rydyn ni'n cydnabod y newid yn yr hinsawdd ariannol rydyn ni bellach yn gweithredu ynddi, fel y dangosir gan ddyraniad cyllid digyfnewid ar gyfer 2024-25. Er bod hyn ar yr un lefel â'n dyraniad cyllid ar gyfer 2023-24, mae ein pwysau costau cysylltiedig â chyflogau yn parhau i gynyddu. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i ni osod cyllidebau nad ydynt yn gyflogau ar lefelau tebyg i 2023-24 i raddau helaeth, ac (yn dilyn dadansoddi effaith a thrafod) ostwng yn raddol (ac yn y pen draw, dileu'n llwyr) rhywfaint o'r cyllid grant a ddarperir i CBAC.

Rydyn ni wedi dechrau modelu effaith cyllideb ddigyfnewid barhaus, neu hyd yn oed ddyraniadau cyllid llai o faint yn y dyfodol ar ein model gweithredu, o ystyried ein bod yn rhagweld y bydd pwysau costau chwyddiant cyflogau yn parhau. Rydyn ni'n datblygu senarios sy'n asesu ein gallu i barhau i gyflawni ein hagenda rheoleiddio a diwygio o fewn yr adnoddau sydd ar gael i ni, i'n galluogi i flaengynllunio'n effeithiol.

2.4 Cynaliadwyedd

Mae Cymwysterau Cymru yn llenwi ardal o 11,329 troedfedd sgwâr yn Adeilad Q2, mewn un swyddfa a rennir, i'r gorllewin o Gasnewydd.

Rydyn ni wedi ymrwymo i leihau ein heffaith negyddol ar yr amgylchedd byd-eang. Drwy weithredu ein Cynllun Gweithredu Lleihau Carbon, rydyn ni'n cefnogi polisi Llywodraeth Cymru i gyflawni 'carbon sero net' yn y sector cyhoeddus cyffredinol erbyn 2030.

Rydyn ni'n darparu adroddiad allyriadau carbon blynyddol i Lywodraeth Cymru. Mae ffigurau blaenorol wedi'u darparu ar gyfer 2019-20 a 2021-22 ymlaen. Mae model Llywodraeth Cymru ar gyfer ein mathau o allyriadau yn gosod yr allyriadau mewn 3 maes:

- Adeiladau (trydan, Nwy F, gwastraff a dŵr)
- Teithio busnes, cymudo a gweithio gartref (gyda chyfrifiad wedi'i ddarparu ar gyfer gweithio gartref)
- Cadwyn Gyflenwi (wedi'u cyfrifo yn ôl gwerth y defnydd o nwyddau a gwasanaethau a brynir wedi'u lluosu gan ffactor allyriadau a dynnwyd o'r cod diwydiant SIC penodol neu gan ddefnyddio data gwirioneddol lle bo hynny'n hysbys).

Mae ein canlyniadau cryno i'w gweld isod:

Blwyddyn	Cyfanswm allyriadau kg CO2e	Adeiladau (trydan, Nwy F, dŵr a gwastraff)	Teithio Busnes, cymudo a gweithio gartref	Allyriadau Cadwyn Gyflenwi
2019-20	727,469kg	21,232kg	318,330kg	387,906kg
2021-22	322,918kg	21,227kg	72,279kg	301,691kg
2022-23	471,667kg	24,125kg	130,185kg	317,357kg
2023-24	365,016kg	24,299 kg	128,977kg	211,740kg

(*) Mae ein ffigurau 2022-23 ar gyfer Nwy F wedi'u cywiro o'r rhai a adroddwyd yn ein cyfrifon 2022-23 (lle gwnaethom adrodd bod y defnydd o Nwy F ar 39kg ac allyriadau Nwy F ar 46,098kgCO_{2e}). Ni ddylem ond fod wedi adrodd yr allyriadau sy'n ymwneud â'r Nwy F ychwanegol a ddefnyddir ar gyfer ail-lenwi'r system oherwydd gollyngiadau, nid y cyfanswm a ail-gomisiynwyd yn y system ar ôl ychwanegu ato. Felly, y data Nwy F cywir ar gyfer 2022-23 yw 4kg gan arwain at allyriadau carbon o 4728kgco_{2e}. Nid oedd yn ofynnol i ni ychwanegu at y system yn 2023-24.

(**) Mae ein ffigurau gwastraff 2022-23 wedi'u cywiro o'r rhai a adroddwyd yn ein cyfrifon 2022-23. Roedden ni wedi adrodd 1205kg a 159.65kg o allyriadau co_{2e} (gan ddefnyddio unedau bag yn anghywir yn lle pwysau). Y ffigurau cywir oedd allyriadau 4911kg a 917kgco_{2e}.


Allyriadau adeiladau (trydan, Nwy F, gwastraff, dŵr)

Rydyn ni'n prydlesu ein hadeilad felly mae ein gallu i wneud newidiadau seilwaith yn gyfyngedig. Mae newidiadau rydyn ni wedi'u gwneud yn fewnol wedi lleihau'r defnydd o drydan. Er gwaethaf ymarferion untro neu ddigwyddiadau a effeithiodd ar wastraff a'n defnydd o ddŵr, mae ein hallyriadau gweithredol wedi aros yn gyson. Rydyn ni wedi olrhain allyriadau carbon penodol yn rhai o'n meysydd gwariant ac mae adrodd ar y ffigurau hyn yn hytrach na chyfrifiad gwariant wedi lleihau ein ffigurau cyffredinol.

Trydan

Dros y blynyddoedd diwethaf rydyn ni wedi gwneud gwelliannau sydd wedi lleihau'r defnydd, gan gynnwys goleuadau LED a synwryddion symud. Mae ein seilwaith TG yn bodoli ar gwmwl yn bennaf, sy'n golygu nad oes arnom angen gweinyddion mawr ar y safle. Mae ein defnydd cyffredinol ymhell islaw canllawiau meincnodi arfer da Llywodraeth Cymru.

Ym mis Mawrth 2023 fe wnaethom osod synwryddion symud mewn ystafelloedd cyfarfod i alluogi ystafelloedd i gyrraedd y tymheredd gorau posibl yn gynnar yn y bore ac yna dim ond gwresogi/oeri pan fydd yr ystafell yn cael ei defnyddio. Llwyddodd hyn i leihau'r defnydd o drydan o fis Mawrth hyd at fis Hydref 2023. Yn anffodus, rhwng mis Tachwedd 2023 ac Ionawr 2024, roedd nam ar rai o'r rheolaethau gwresogi ar yr un pryd â chyfnod o dywydd oer ac arweiniodd hyn at gynnydd yn y defnydd ar gyfer y cyfnod hwn. Rydyn ni bellach wedi nodi'r achos ac wedi datrys y mater hwn ac rydyn ni'n disgwyl gweld gwelliant.



Mae gennym ni Ddatganiad Polisi Amgylcheddol ar waith, gyda chefnogaeth y Prif Weithredwr ac uwch reolwyr. Rydyn ni wedi ymrwmo i sefydlu System Rheoli Amgylcheddol (EMS) a'n nod yw gweithio tuag at gyflawni achrediad Amgylcheddol y Ddraig Werdd yn y dyfodol.

Nwy F

Mae ein systemau HVAC yn dal cyfanswm o 77.35kg o Nwy F ar draws 3 system ar 38.1kg, 36.5kg a 2.75kg. Gwneir gwaith cynnal a chadw ataliol cynlluniedig ar y systemau bob chwe mis, os caiff gollyngiad ei nodi, bydd yr holl oerydd yn cael ei ddraenio o'r system a'i ail-lenwi cyn ailgomisiynu'r system. Mae'r oerydd sydd wedi'i ddraenio yn cael ei aildddefnyddio yn y broses hon. Yn 2023-24 nid oedd angen i ni ychwanegu at unrhyw oerydd.

Dŵr

Gwelsom gynnydd mawr yn ein defnydd o ddŵr dros y flwyddyn. Falf yn gollwng oedd yn gyfrifol am hyn, gan arwain at lif cyson o ddŵr yn y system. Unwaith y cafodd y broblem ei chanfod, aethpwyd ati ar unwaith i drwsio'r system. Rydyn ni wedi rhoi mesurau ar waith i gynnal archwiliadau misol i atal y sefyllfa rhag digwydd eto ac rydyn ni'n rhagweld ffigur mwy cyson ar gyfer y defnydd o ddŵr yn y dyfodol. Er gwaethaf hyn, mae ein defnydd ymhell islaw meincnod Llywodraeth Cymru.

Gwastraff

Eleni mae ein ffigyrau gwastraff tirlenwi wedi dyblu. Roedd hyn oherwydd ymarfer untro i gael gwared ar lenyddiaeth hyrwyddo wedi dyddio ac eitemau eraill. Roedd defnyddio sgip yn golygu bod yn rhaid dosbarthu'r eitemau fel gwastraff cyffredinol, er iddynt gael eu didoli a'u gwahanu yn ddeunyddiau y gellir eu hailgylchu ac na ellir eu hailgylchu oddi ar y safle. Roedd ffrydiau gwastraff eraill yn parhau'n sefydlog, ac mae ein gwastraff cyffredinol ymhell islaw canllawiau meincnod Llywodraeth Cymru.

Cafodd y gwastraff dyddiol a grëwyd gennym yn ystod 2023-24 ei wahanu'n dair ffrwd. Bydd deddfwriaeth gwastraff masnachol newydd yn cael ei chyflwyno yng Nghymru o fis Ebrill 2024.

Wrth symud ymlaen, byddwn yn gwahanu ein gwastraff ailgylchu cymysg i ffrydiau pellach. Rydyn ni wedi gwella biniau gwastraff ac arwyddion yn y swyddfa ac yn rhagweld gostyngiad mewn gwastraff i safleoedd tirlenwi.

Teithio Busnes, Cymudo a Gweithio Gartref

Er mwyn lleihau ein hól troed, mae ein polisi teithio yn mynnu bod yr angen am bob taith fusnes yn cael ei ystyried yn ofalus. Lle mae angen teithio, rydyn ni wedi hyrwyddo trefniadau teithio cyfrifol a chynaliadwy. Ein ffigurau ar gyfer eleni yw 65,288 milltir ar 17,732 kg CO₂e. Mae hyn yn gynydd ar y flwyddyn flaenorol ond ymhell islaw'r lefelau cyn y pandemig.

Ers mis Mai 2022 rydyn ni wedi gweithredu polisi gweithio hybrid gyda disgwyl i'r holl staff fynychu'r swyddfa am 2 ddiwrnod yr wythnos a phob cyfarfod Bwrdd yn cael ei gynnal wyneb yn wyneb. Mae ein gweithwyr i gyd yn cael llechi datgysylltiol 'dau mewn un', er mwyn iddyn nhw gael mynediad at y gwasanaethau cwmwl o unrhyw le lle ceir cysylltiad diwifr. Mae'r dull hwn yn caniatáu pontio esmwyth rhwng gweithio gartref a gweithio yn y swyddfa. Ein ffigurau amcangyfrifedig ar gyfer eleni yw 218,248 milltir ar 72,449kg co₂e, gostyngiad sylweddol o gymharu â'n ffigur cyn y pandemig. Rydyn ni'n rhagweld y byddwn yn sefydlogi o gwmpas ein lefelau cymudo presennol.

Allyriadau cadwyn gyflenwi

Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud newidiadau i ffactorau allyrru'r gadwyn gyflenwi ar gyfer pob categori gwariant; mae rhai wedi cynyddu, ac eraill wedi gostwng. Mae allyriadau ein cadwyn gyflenwi wedi gostwng eleni o 317,573kg ar gyfer 22-23 i 211,740kg oherwydd:

- mae ein gwariant ar ddodrefn wedi gostwng yn sylweddol yn dilyn gwaith adnewyddu'r swyddfa'r llynedd ac mae'r allyriadau cysylltiedig wedi lleihau 65kg
- mae trefniadau adrodd gwell wedi ein galluogi i gael gwared ar gyflogau staff dros dro o wasanaethau cyflogaeth gyda dim ond ffioedd asiantaeth yn cael eu cynnwys gan arwain at ostyngiad o 24kg
- er bod ein gwariant ar gynnyrch cyfrifiadurol wedi cynyddu eleni o £43,000, mae'r ffactor allyrru wedi gostwng 0.086 ac felly mae allyriadau 10,000kg yn is y byddent yn defnyddio ffactor allyrru 22-23
- rydyn ni wedi cael y data allyriadau gwirioneddol gan Microsoft ar gyfer ein cyfres Office 365
- rydyn ni wedi cofnodi data teithio ar gyfer ein harbenigwyr pwnc ac wedi cyfrifo allyriadau gwirioneddol yn dibynnu ar y math o deithio, lle'r oedd ein harbenigwyr yn gweithio gartref, fe wnaethom ddefnyddio'r cyfrifiad gweithio gartref.

Mae ein heffeithiau carbon cadwyn gyflenwi fwyaf yn ymwneud â chaledwedd TG, meddalwedd ac ymgynghori, a gwasanaethau proffesiynol a thechnegol.

Mae ein canlyniadau manwl yn cael eu dangos drosodd:

Cwmpas		Gwybodaeth anariannol		Gwybodaeth ariannol	Allyriadau nwyon tŷ gwydr		
Cwmpas 1 - Allyriadau uniongyrchol:			amh	amh		amh	
Cwmpas 2 (Ynni anuniongyrchol):	Trydan	81,245	kwh	65,008	22,331	kg CO2e	
	Nwy F	0	kg	0	0	kg CO2e	
Cwmpas 3:	Dŵr	295	m3	570	52	kg CO2e	
	Carthffosiaeth	280	uned	880	56	kg CO2e	
	Cyfanswm Dŵr/Carthffosiaeth (*)	575	uned	1,450	108	kg CO2e	
	Gwastraff						
	Cyffredinol	3,636	kg	462	1,806	kg CO2e	
	Ailgylchu Cymysg	2,106	kg	443	45	kg CO2e	
	Bwyd	997	kg	620	9	kg CO2e	
	Cyfanswm Gwastraff	6,739	kg	1,525	1,860	kg CO2e	
	Teithio ar Fusnes						
	Car Staff	21,764	milltir	9,878	7,613	kg CO2e	
	Car Aelod o'r Bwrdd	7,753	milltir	3,549	2,712	kg CO2e	
	Cyfanswm Car (**)	29,517	milltir	13,427	10,325	kg CO2e	
	Tacsi staff	629	milltir	537	188	kg CO2e	
	Tacsi Aelod o'r Bwrdd	43	milltir	119	13	kg CO2e	
	Cyfanswm Tacsi (**)	672	milltir	656	201	kg CO2e	
	Trên Staff	16,331	milltir	6,478	1,167	kg CO2e	
	Trên Aelod o'r Bwrdd	628	milltir	337	45	kg CO2e	
	Cyfanswm Trên	16,959	milltir	6,815	1,212	kg CO2e	
	Awyr staff	15,988	milltir	1,653	5,283	kg CO2e	
	Awyr Aelodau'r Bwrdd	2,152	milltir	592	711	kg CO2e	
	Cyfanswm Awyr	18,140	milltir	2,245	5,994	kg CO2e	
	Cyfanswm Teithio ar Fusnes	65,288		23,143	17,732	kg CO2e	
	Staff Cymudo(***)						
	Car (**)	202,780	milltir	am	70,938	kg CO2e	
	Trên	12,423	milltir	am	888	kg CO2e	
	Bws	3,045	milltir	am	623	kg CO2e	
Cyfanswm Cymudo Staff	218,248	milltir	609,186	72,449	kg CO2e		
Cyfanswm			700,312	114,480	kg CO2e		

Nodiadau i egluro'r tabl

Cwmpas 1: Mae allyriadau uniongyrchol yn deillio'n uniongyrchol o ffynonellau sy'n eiddo i Cymwysterau Cymru neu a reolir gan Cymwysterau Cymru, er enghraifft, o danwyddau a ddefnyddir yn ein boeleri, neu'r cerbydau y mae adrannau a rheolwyr ystadau yn berchen arny'n nhw.

Cwmpas 2: Allyriadau a ryddheir i'r atmosffer sy'n gysylltiedig â defnyddio trydan, gwres, stêm a systemau oeri a brynwyd.

Cwmpas 3: Mae'r allyriadau hyn yn deillio o weithgareddau sefydliad, ond maent yn digwydd o ffynonellau nad ydynt yn eiddo i'r sefydliad nac yn cael eu rheoli gan y sefydliad. Mae hyn yn cynnwys allyriadau sy'n gysylltiedig â gwastraff, dŵr, teithio ar fusnes, cymudo a chaffael.

(*) Amcangyfrifwyd y ffigurau ar gyfer defnyddio a chostau dŵr ar gyfer Chwarter 4 yn seiliedig ar gyfradd rhedeg, gan fod y cyfleustod hwn yn cael ei filio bob chwe mis.

(**) Cyfrifwyd y ffigurau ar gyfer CO2 ceir gan ddefnyddio Ffactorau Trosi nwyon tŷ gwyr Llywodraeth y DU ar gyfer Adrodd am Gwmnïau – yn seiliedig ar fath o gar 'canolig uchaf'.

(***) Mae ffigurau cymudo staff a gyfrifwyd gan ddefnyddio codau post cartrefi staff yn croesgyfeirio â'r system archebu desgiau i gadarnhau presenoldeb. Mae'r allyriadau'n seiliedig ar fath o gar canolig uchaf.

Adroddiad Atebolrwydd

3 Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol

3.1 Adroddiad y Cyfarwyddwyr

Mae Bwrdd Cymwysterau Cymru yn cynnwys y Cadeirydd, y Prif Weithredwr a rhwng wyth a deg aelod. Ei rôl yw:

- rhoi arweiniad effeithiol i Cymwysterau Cymru – gan ddiffinio a datblygu cyfeiriad strategol, a gosod amcanion
- rhoi arweiniad effeithiol ar gyfer gweithredu'r sefydliad – gan ddwyn y Prif Weithredwr i gyfrif am sicrhau bod gweithgareddau Cymwysterau Cymru yn cael eu cynnal yn effeithlon ac yn effeithiol
- monitro perfformiad er mwyn sicrhau bod Cymwysterau Cymru yn cyflawni ei nodau, ei amcanion a'i dargedau perfformiad yn llawn
- hyrwyddo safonau uchel o gyllid cyhoeddus, gan gynnal egwyddorion rheoleidd-dra, priodoldeb a gwerth am arian

Yn ystod 2023-24, roedd y Bwrdd yn cynnwys yr aelodau canlynol:



David B Jones
OBE DL
(Cadeirydd)



Philip Blaker
Prif Weithredwr



Douglas Blackstock



Julie Brannan



Hannah Rowan



Anne-Marie Duffy OBE



Michael Griffiths OBE



Graham Hudson



David W Jones



Yr Athro John Latham
CBE



Sharron Lusher
MBE DL



Jayne Woods

Gadawodd Sharron Lusher ar 15/07/2022 er mwyn arwain yr Adolygiad Cymwysterau Galwedigaethol a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru ac a ddaeth i ben ym mis Medi 2023. Ailymunodd Sharron â'r Bwrdd ar 1 Ionawr 2024.

Ymunodd Ravi Pawar â'r Bwrdd fel ymgynghorydd arbennig yn ystod 2022/23. Er nad yw'n cael ei ystyried yn aelod o'r Bwrdd, mae'n cynorthwyo'r Bwrdd drwy rannu ei brofiad perthnasol o'r sector addysg yng Nghymru.


Ym mis Mai 2023, daeth tymor olaf David Jones ar y Bwrdd i ben ac ym mis Ebrill 2024, ymddiswyddodd Anne-Marie Duffy o'i swydd ar y Bwrdd.

Cadeirydd Cymwysterau Cymru

Mae Cadeirydd Cymwysterau Cymru, David Jones, yn ateb i Senedd Cymru am ein gweithgarwch a'n hymddygiad, ac am arfer ein swyddogaethau statudol fel y'u nodir yn Neddf Cymwysterau Cymru.

Pwyllgorau'r Bwrdd

Mae'r Bwrdd wedi dynodi pedwar pwyllgor sy'n gyfrifol am gefnogi'r Bwrdd i gyflawni ei ddyletswyddau. Dyma'r pwyllgorau:



Mae modd gweld rôl pob pwyllgor, ynghyd â phresenoldeb, yn adran y Datganiad Llywodraethu.

Mae Bwrdd Cymwysterau Cymru a'i bwyllgorau a'r Bwrdd Rheoli yn cael ei gefnogi gan y Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol.

Buddiannau aelodau'r Bwrdd

Mae pob aelod o staff ac aelod Bwrdd wedi llenwi ffurflen gwrthdaro/datgan buddiannau. Mae Cymwysterau Cymru yn cyhoeddi cofrestr weithredol o fuddiannau'r Bwrdd, y mae modd ei gweld [ar ein gwefan](#).

Mae'r holl drafodion partion cysylltiedig wedi'u nodi ac mae modd eu gweld yn Nodyn 15 y ddogfen hon, ar dudalen 91.

Y Prif Swyddog Gweithredol a'r Swyddog Cyfrifyddu

Y Prif Weithredwr, Philip Blaker, yw Swyddog Cyfrifyddu Cymwysterau Cymru ac mae ganddo gyfrifoldeb personol am

- stiwardiaeth briodol yr arian cyhoeddus
- gweithrediadau a rheolaeth Cymwysterau Cymru o ddydd i ddydd
- sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion *Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru*.

Mae gan y Prif Swyddog Gweithredol sawl atebolrwydd uniongyrchol i'r Bwrdd, yn ogystal â gweithredu fel Prif Swyddog ar gyfer achosion ombwdsmon. Mae modd gweld mwy o fanylion am yr agweddau hyn ar y rôl yn [Nogfen Fframwaith Cymwysterau Cymru](#), sydd i'w weld ar ein [gwefan](#).

Mae tîm Gweithredol Cymwysterau Cymru yn cynnwys:



Philip Blaker,
Prif Weithredwr



Alison Standfast,
Cyfarwyddwr
Gweithredol,
Adnoddau
Corfforaethol



Jo Richards,
Cyfarwyddwr
Gweithredol,
Rheoleiddio



Cassy Taylor,
Cyfarwyddwr,
Polisi a Diwygio
Cymwysterau

Yn 2023, adolygodd a gwerthusodd Cymwysterau Cymru rôl newydd i oruchwylio'r gyfarwyddiaeth Polisi a Diwygio Cymwysterau (QPR). Dechreuodd Cassy Taylor ar y swydd ar 1 Ionawr 2024, gan ymuno â'r Tîm Gweithredol.

Mae'r Bwrdd Rheoli, sy'n cynnwys y Cyfarwyddwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu, y Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol a'r Pennaeth Cyllid, yn cefnogi'r Prif Weithredwr a'r tîm Gweithredol ehangach wrth arfer eu cyfrifoldebau.

Y Bwrdd Rheoli yw'r prif grŵp gwneud penderfyniadau ar y cyd ar gyfer y sefydliad, ac maent yn rhoi cyfarwyddyd ar weithgarwch gweithredol a materion corfforaethol. Rôl a phwrpas y Bwrdd Rheoli yw:

- bod yn brif grŵp gwneud penderfyniadau ar gyfer materion a ddirprwyir gan y Bwrdd, gan ganolbwyntio ar faterion gweithredol
- sicrhau ein bod ni'n cydymffurfio â deddfwriaeth a pholisi perthnasol y sector cyhoeddus
- sefydlu pob grŵp gweithredol sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau, gan ddirprwyo cyfrifoldebau iddynt fel sy'n briodol
- lle y bo'n briodol, gwneud argymhellion i'r Bwrdd ar faterion a gadwyd yn ôl ar gyfer y Bwrdd
- cynnig strategaeth a pholisiau perthnasol i'r Bwrdd
- cymeradwyo strategaethau a pholisiau lle nad ydynt wedi'u cadw gan y Bwrdd
- rheoli risg gorfforaethol o fewn parodrwydd y Bwrdd i dderbyn risg
- cyflawni'r blaenoriaethau gweithredol
- rheoli adnoddau corfforaethol
- cydlynu gweithgarwch ar draws y sefydliad

3.2 Datganiad o gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

O dan Atodlen 1, Rhan 1, paragraffau 32 a 33 o Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015, mae Gweinidogion Cymru, gyda chydysyniad y Trysorlys, wedi cyfarwyddo Cymwysterau Cymru i baratoi datganiad o gyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol, gan ddefnyddio'r ffurf a'r sail a nodir yn y Cyfarwyddyd Cyfrifon. Caiff y cyfrifon eu paratoi ar sail cronïadau, a rhaid iddyn nhw roi darlun cywir a theg o sefyllfa Cymwysterau Cymru a'i alldro adnoddau net, y defnydd o adnoddau, newidiadau yn ecwiti trethdalwyr a llifoedd arian parod ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i'r Swyddog Cyfrifyddu gydymffurfio â gofynion Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth, ac yn benodol:

- cadw at y cyfarwyddyd cyfrifon a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol, a chymhwyso polisiau cyfrifyddu addas yn gyson
- gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon ar sail resymol
- datgan a ddilynwyd safonau cyfrifyddu cymwys fel sy'n cael eu nodi yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth, a datgelu ac esbonio unrhyw wryiadau perthnasol yn y datganiadau ariannol
- paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol, oni bai ei bod yn amhriodol tybio y bydd Cymwysterau Cymru yn parhau i weithredu

Mae Prif Swyddog Cyfrifyddu Gweinidogion Cymru wedi fy nynodi i, a minnau'n Brif Weithredwr, yn Swyddog Cyfrifyddu Cymwysterau Cymru. Mae cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu yn cynnwys cyfrifoldeb am briodoldeb a rheoleidd-dra'r arian cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn atebol amdano, am gadw cofnodion cywir ac am ddiogelu asedau Cymwysterau Cymru, ac fe'u nodir ym Memorandwm y Swyddog Cyfrifyddu, y Ddogfen Fframwaith a *Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru*.

Wrth gynhyrchu'r cyfrifon hyn, rwyf wedi ystyried sylwadau a sicrwydd gan Fwrdd Rheoli Cymwysterau Cymru, y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, archwilwyr mewnol, ac aelodau o'r tîm staff ehangach.

A minnau'n Swyddog Cyfrifyddu Cymwysterau Cymru, rwy'n cadarnhau:

- bod yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon yn eu cyfanwydd ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024 yn deg, yn gytbwys ac yn rhesymol
- cymeraf gyfrifoldeb personol am yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon a'r dyfarniadau sy'n ofynnol ar gyfer penderfynu eu bod yn deg, yn gytbwys ac yn rhesymol
- hyd y gwn i, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw ein harchwilwyr yn ymwybodol ohoni
- rwyf wedi cymryd pob cam rhesymol i sicrhau fy mod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol, ac i sicrhau bod ein harchwilwyr yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Philip Blaker	Philip Blaker Swyddog Cyfrifyddu 19 Medi 2024
---------------	--

3.3 Datganiad Llywodraethu

Cyflwyniad a chwmpas y cyfrifoldeb

Mae'r Datganiad Llywodraethu hwn yn nodi disgrifiad o strwythur llywodraethu corfforaethol Cymwysterau Cymru, ynghyd â throsolwg o'r trefniadau rheoli risg a disgrifiad o'r prif risgiau sy'n wynebu'r sefydliad.

A minnau'n Swyddog Cyfrifyddu, rwy'n bersonol gyfrifol am y Datganiad Llywodraethu sy'n amlinellu sut rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldeb i reoli adnoddau Cymwysterau Cymru yn ystod y cyfnod.

Nodir fy nynodiad yn Swyddog Cyfrifyddu yn y llythyr dynodi a anfonwyd ar ran y Prif Swyddog Cyfrifyddu gan Lywodraeth Cymru. Nodir fy nghyfrifoldebau llawn yn Swyddog Cyfrifyddu yn Nogfen Fframwaith Cymwysterau Cymru.

Llywodraethu corfforaethol

Llywodraethu corfforaethol yw'r system lle caiff gwaith y sefydliad ei gyfarwyddo a'i reoli. Mae llywodraethu'n ymwneud â 'sut' y gwneir busnes, a'r ffordd y gwneir penderfyniadau, gyda'r ddau cyn bwysiced â'i gilydd. Mae'r Prif Weithredwr yn gyfrifol am sicrhau bod system gadarn o reolaeth fewnol yn cael ei chynnal i gefnogi'r gwaith o gyflawni polisiau, nodau ac amcanion ac am adolygu effeithiolrwydd y system yn rheolaidd.

Mae Bwrdd Cymwysterau Cymru yn rhoi arweiniad a chyfeiriad i'r sefydliad. Mae ganddo rôl allweddol o ran sicrhau bod gan y sefydliad strwythur llywodraethu cadarn a phriodol ar waith

sy'n caniatáu i'r Bwrdd graffu ar berfformiad y tîm Gweithredol, ac felly'r modd y mae'r sefydliad yn cyflawni ei brif nodau a'i gynllun busnes.

Mae'r Bwrdd yn cynnwys Cadeirydd, y Prif Weithredwr, a rhwng wyth a deng aelod arall, y penodir pob un ohonynt (ac eithrio'r Prif Weithredwr) gan Weinidogion Cymru.

Fframwaith llywodraethu

Rydyn ni'n defnyddio *Corporate Governance in Central Government Departments* (2017) fel ein prif bwynt cyfeirio ar gyfer arfer da ym maes llywodraethu. A minnau'n Swyddog Cyfrifyddu, rwyf wedi adolygu'r cod ac wedi rhoi trosolwg, o fewn y datganiad llywodraethu, o sut rwy'n credu ein bod yn cydymffurfio â'r cod hwn.

O fis Mehefin 2024 ymlaen, bydd Cymwysterau Cymru yn ddarostyngedig i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Rydyn ni wedi mabwysiadu ei darpariaethau yn wirfoddol ac wedi cymhwyso'r pum ffordd o weithio – integreiddio, cynnwys, cydweithio, atal a meddwl yn yr hirdymor. Mae gwneud hyn yn cefnogi'r weledigaeth hirdymor a nodir yn y cod y cyfeiriwyd ato uchod.

Trosolwg o fframwaith llywodraethu Cymwysterau Cymru

Mae'r Bwrdd a'i bedwar pwyllgor wedi gweithredu ers sefydlu Cymwysterau Cymru.

Mae gan y pwyllgorau rolau allweddol mewn perthynas â'r system lywodraethu a sicrwydd, craffu, trafodaethau datblygu, asesu risgiau cyfredol a monitro perfformiad. Caiff pob pwyllgor ei gadeirio gan aelod o'r Bwrdd, gydag aelodau perthnasol o'r tîm Gweithredol yn mynychu, a chant eu gwasanaethu gan y Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol. Mae pob pwyllgor yn adrodd yn uniongyrchol i'r Bwrdd, gyda phob cofnod ar gael i holl aelodau'r Bwrdd. Isod ceir trosolwg o weithgarwch y Bwrdd a'i bwyllgorau yn ystod y flwyddyn.

Bwrdd Cymwysterau Cymru

Bu chwe chyfarfod rheolaidd o'r Bwrdd yn ystod y cyfnod (Mai, Gorffennaf, Medi, Tachwedd, Ionawr a Mawrth). Caiff cofnodion cyfarfodydd y Bwrdd eu cyhoeddi ar wefan Cymwysterau Cymru wedi iddynt gael eu cymeradwyo. Cynhaliwyd nifer o sesiynau briffio a dwy sesiwn datblygu'r Bwrdd ar gyfer aelodau'r Bwrdd yn ystod y flwyddyn, yn ogystal â chyfarfodydd ffurfiol y Bwrdd.

Roedd y penderfyniadau allweddol a wnaeth y Bwrdd yn ystod y cyfnod yn cynnwys y canlynol:

- cymeradwyo'r Amcanion Llesiant a'r Datganiad Llesiant
- cymeradwyo newidiadau i ddogfen blaenoriaethau strategol y sefydliad
- cymeradwyo Blaenoriaethau Gweithredol y sefydliad ar gyfer 2024/25
- cymeradwyo Cynllun Busnes 2024-25, dyrannu cyllideb y Cynllun Gweithredol a lefelau adnoddau staffio
- cymeradwyo cyhoeddi Cynllun Gwrth-Hiliaeth 2024-28 y sefydliad
- cymeradwyo cyhoeddi Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-28 y sefydliad

- cymeradwyo cyhoeddi Adroddiad Diweddarau Cydraddoldeb Blynyddol 2022/23, Adroddiad Cydymffurfio â Chynllun y Gymraeg a Diweddariad Cynllun Gweithredu Gwrth-Hiliaeth y sefydliad. Cymeradwyo'r cyfrifon blynyddol ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023
- cymeradwyo'r adroddiad blynyddol ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Medi 2022 a 31 Awst 2023
- cymeradwyo penderfyniadau'r sefydliad mewn perthynas â'r Cynnig Llawn o Gymwysterau 14-16
- cymeradwyo cychwyn gweithgaredd tendro i ddyfarnu contractau ar gyfer gwasanaethau arbenigwyr pwnc i gefnogi'r broses gymeradwyo ar gyfer cymwysterau TGAU newydd
- cymeradwyo trefniadau graddio cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch a'r Dystysgrif Her Sgiliau yn Haf 2024
- cymeradwyo diwygiadau i'r Polisi Cwynion Corfforaethol a'r Polisi Rhoddion, Lletygarwch a Nawdd
- cytuno ar gyfranogiad parhaus y Bwrdd yn y prosiect Llwybr i'r Bwrdd.

Yn rhai o'i gyfarfodydd (lle bo'n briodol), bu'r bwrdd hefyd yn derbyn neu'n ystyried:

- diweddariadau gan y Prif Weithredwr a'r Cadeirydd
- yr wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd y prosiect *Cymwys ar gyfer y Dyfodol*
- diweddariadau ar drefniadau dyfarnu cymwysterau yn 2023 a 2024, adroddiadau rheoli risg a chofrestris risg
- monitro'r gwaith o gyflawni cynlluniau gweithredol a gweithgarwch ariannol
- diweddariadau gan bob un o'i bwyllgorau
- adroddiad ar ganlyniadau'r arolwg staff blynyddol a gwerthoedd ac ymddygiadau diwygiedig y sefydliad
- opsiynau ar gyfer mynd i'r afael ag argymhellion Adolygiad Llywodraeth Cymru o Gymwysterau Galwedigaethol
- canfyddiadau Adolygiad Cynhwysiant y sefydliad
- ymateb y sefydliad i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y Bil Addysg Gymraeg
- cynnydd yn erbyn Cynllun Gweithredu Adolygiad Effeithiolrwydd y Bwrdd

Caiff unrhyw drafodaethau a phenderfyniadau a wneir y tu allan i bwyllgor eu cofnodi ym mhapurau'r Bwrdd a'r cofnodion perthnasol.

Cynhaliodd y Bwrdd ddiwrnod datblygu ym mis Gorffennaf 2023 a oedd yn cynnwys siaradwyr allanol o Colegau Cymru, CAMLAS a Sefydliad Addysg Coleg Prifysgol Llundain. Roedd y sesiwn yn gyfle i'r Bwrdd fyfyrion ar y blaenoriaethau ar gyfer addysg bellach, asesu addysgol, trywydd safonau Cymru a chanfyddiadau Aelodau Senedd Cymru o Gymwysterau Cymru a'i waith. Bu'r Bwrdd hefyd yn ystyried y gwaith o ddatblygu Amcanion Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol y sefydliad a'r Datganiad Llesiant drafft.

Cynhaliodd y Bwrdd ddiwrnod datblygu hefyd ym mis Tachwedd 2023 a oedd yn galluogi'r Bwrdd i adolygu blaenoriaethau strategol y sefydliad a chyfrannu at ddatblygu dangosyddion strategol llesiant.

Cafodd aelodau o dîm nodd Llywodraeth Cymru gyfle i arsylwi cyfarfodydd y Bwrdd.

Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn cefnogi'r Bwrdd a'r Swyddog Cyfrifyddu drwy adolygu ehangder a dibynadwyedd sicrwydd ynghylch llywodraethu, rheoli risg, yr amgylchedd rheoli, uniondeb datganiadau ariannol a'r cyfrifon blynyddol. Mater i'r bwrdd yw diffinio a chyfleu parodrwydd y sefydliad i dderbyn risg.

Y Bwrdd sy'n atebol am reoli risg a rheolaeth fewnol. Fodd bynnag, mae'r cyfrifoldeb dros oruchwylio'r meysydd hyn wedi'i ddirprwyo i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. Mae modd gweld cylch gorchwyl y Pwyllgor Archwilio a Risg ar ein [gwefan](#).

Cyfarfu'r Pwyllgor Archwilio a Risg bedair gwaith yn y cyfnod (Mai, Medi, Tachwedd a Mawrth), a derbyniodd y Bwrdd adroddiadau rheolaidd a oedd yn tynnu sylw at y materion pwysig a ddeilliodd o drafodaethau'r pwyllgor a'r penderfyniadau a wnaed. Roedd archwilwyr mewnol ac allanol hefyd yn mynychu cyfarfodydd y pwyllgor hwn.

Yn ystod y cyfnod hwn, mae'r pwyllgor wedi:

- adolygu'r cyfrifon blynyddol drafft ar gyfer 2022-23 a rhoi adroddiad sicrwydd i'r Bwrdd a'r Swyddog Cyfrifyddu
- monitro gweithrediad y system ariannol newydd ac ystyried canfyddiadau'r adolygiad gwersi a ddysgwyd
- adolygu cynnydd yn erbyn gweithredoedd y sefydliad i leihau allyriadau carbon
- adolygu'r holl adroddiadau archwilio mewnol a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod a chymeradwyo Rhaglen Archwilio Fewnol 2024/25
- goruchwylio'r gwaith o fonitro'r holl argymhellion archwilio mewnol
- derbyn diweddariadau technegol gan swyddogion, archwilwyr mewnol ac allanol
- ystyried llythyrau 'Annwyl Swyddog Cyfrifyddu' Llywodraeth Cymru
- adolygu adroddiadau mewn perthynas â thwyll, llwgrwobrwyo, rhoddion a rheoli lletygarwch
- derbyn adroddiadau rheoli risg ac adolygu agweddau perthnasol ar y gofrestr risg gorfforaethol
- cynnal archwiliad dwfn o risgiau cyfredol, adolygu'r Datganiad Parodrwydd i Dderbyn Risg, ac ystyried Cynllun Dirprwyo'r sefydliad
- derbyn diweddariadau diogelwch gwybodaeth drwy gydol y flwyddyn
- derbyn adroddiadau diweddaru ariannol drwy gydol y flwyddyn a chraffu ar y prosesau a ddefnyddiwyd ar gyfer rheoli a rhagweld cyllidebau
- derbyn adroddiadau ar unrhyw wyriadau oddi wrth y gweithdrefnau caffael
- ystyried effaith cyflwyno Deddf Rheoli Cymorthdaliadau 2022 ar y sefydliad
- ystyried ei amserlen o gyfarfodydd yn y dyfodol

Ni chodwyd unrhyw bryderon i'r Bwrdd.

Pwyllgor Adnoddau

Mae'r pwyllgor hwn yn darparu amgylchedd ar gyfer trafodaeth fanwl ar faterion ariannol a chynllunio busnes, a nifer o feysydd adnoddau dynol. Dirprwywyd yr awdurdod i'r pwyllgor

hefyd gymeradwyo polisiâu Adnoddau Dynol ar ran y Bwrdd. Mae crynodeb o'i gyloch gorchwyl ar gael ar ein [gwefan](#).

Y Bwrdd sy'n atebol am strategaeth a pholisiâu ariannol y sefydliad; y Prif Weithredwr a'r tîm Gweithredol sy'n gyfrifol am reoli cyllid o fewn y paramedrau hyn.

Cyfarfu'r Pwyllgor Adnoddau deirgwaith yn ystod y cyfnod (Gorffennaf, Hydref a Mawrth) a chafodd adroddiadau o'r cyfarfodydd hyn eu darparu i'r Bwrdd.

Yn ystod y cyfnod hwn, mae'r Pwyllgor Adnoddau wedi:

- derbyn adroddiadau cynnydd ar gynllun gweithredol a sefyllfa ariannol 2023-24, gan ystyried materion sy'n ymwneud â defnydd strategol o adnoddau.
- adolygu drafft o'r Cynllun Busnes, Cynllun Gweithredol a chyllideb 2024-25;
- adolygu'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig
- cael diweddariadau Adnoddau Dynol yn cwmpasu adnoddau, dysgu a datblygu, ystadegau absenoldeb, a lles
- derbyn y wybodaeth ddiweddaraf am weithredu'r system gyllid newydd
- derbyn diweddariadau ar gynnydd yn erbyn ein Hamcanion Cydraddoldeb Strategol a datblygu Cynllun Gweithredu Gwrth-Hiliaeth y sefydliad

Pwyllgor Rheoleiddio Polisi a Goruchwyllo Safonau

Diben y pwyllgor hwn yw ystyried a darparu argymhellion i'r Bwrdd ar faterion sy'n codi o ddull rheoleiddio Cymwysterau Cymru. Dirprwywyd y pwyllgor gan y Bwrdd i gymeradwyo polisiâu rheoleiddio, fframweithiau rheoleiddio a newidiadau i'r Amodau Cydnabod Safonol a'r Meini Prawf Cydnabod, a phenderfyniadau i roi cosbau ariannol. Mae cylch gorchwyl y Pwyllgor ar gael ar ein [gwefan](#).

Cyfarfu'r pwyllgor bedair gwaith yn ystod y cyfnod (Ebrill, Mehefin, Tachwedd, Chwefror) a darparwyd adroddiadau o'r cyfarfodydd hyn i'r Bwrdd.

Yn ystod y cyfnod hwn, gwnaeth y Pwyllgor Polisi a Safonau Rheoleiddio:

- ystyried y trefniadau ar gyfer monitro cymwysterau cyffredinol a galwedigaethol yn haf 2023
- cymeradwyo cyhoeddi'r Amodau, Gofynion a chanllawiau mewn perthynas â hyrwyddo a hwyluso Cymwysterau cyfrwng Cymraeg
- cymeradwyo cyhoeddi Amodau a Gofynion TGAU Gwneud-i-Gymru diwygiedig
- ystyried dull y sefydliad o reoli digwyddiadau
- monitro hynt Adolygiad Cyflym o Iechyd a Gofal Cymdeithasol
- derbyn crynodeb o ganfyddiadau Adroddiad Ymchwil Prifysgol Rhydychen ar safonau TGAU yng Nghymru
- derbyn diweddariadau am y dull arfaethedig o gymeradwyo cymwysterau TGAU Gwneud-i-Gymru a dynodi cymwysterau ar gyfer pobl ifanc 14-16 oed.
- ystyried newidiadau arfaethedig i Fframwaith Rheoleiddio Cymwysterau Cymru
- ystyried y dull arfaethedig o ddarparu mesurau lliniaru i ddysgwyr sy'n cwblhau cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch a'r Dystysgrif Her Sgiliau yn ystod gaeaf 2023/24 a haf 2023

- adolygu ei Gylch Gorchwyl ac argymell y dylid newid enw'r Pwyllgor o'r Pwyllgor Goruchwylio Rheoleiddio Polisi a Safonau i'r Pwyllgor Rheoleiddio Polisi a Goruchwylio Safonau, a hynny er mwyn adlewyrchu rôl a chylch gwaith y Pwyllgor yn well
- derbyn adroddiadau rheoli risg rheoleiddiol rheolaidd
- derbyn diweddariadau rheolaidd ar faterion monitro a chydymffurfio mewn perthynas â chorff dyfarnu sy'n profi anhawster ariannol difrifol, gan sicrhau bod dysgwyr yn cael eu cefnogi wrth iddynt symud i gymwysterau cyfatebol
- derbyn diweddariadau ar gyfresi arholiadau Tachwedd 2023, Ionawr 2024 a haf 2024
- derbyn y wybodaeth ddiweddaraf am yr astudiaeth o gymaroldeb safonau galw mewn papurau arholiad Mathemateg Safon Uwch. derbyn diweddariad ar lwybr safonau cymwysterau yng Nghymru
- derbyn crynodeb o ganfyddiadau ymarfer Datganiad Cydymffurfiaeth 2022

Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol

Diben y pwyllgor hwn yw ystyried a darparu argymhellion ar dâl cydnabyddiaeth staff ac aelodau'r bwrdd. Dirprwywyd y pwyllgor gan y Bwrdd i gymeradwyo'r Polisi Tâl. Rhaid i Weinidogion Cymru gytuno ar unrhyw newidiadau sylweddol i delerau ac amodau. Mae crynodeb o gylch gorchwyl y pwyllgor ar gael ar ein [gwefan](#).

Cyfarfu'r pwyllgor deirgwaith yn ystod y cyfnod (Mehefin, Medi, Mawrth), gan ystyried y dyfarniad cyflog gweithredol a Chynllun Olyniaeth y Prif Weithredwr.

Adolygiad perfformiad ac effeithiolrwydd y Bwrdd

Cynhaliwyd adolygiad o effeithiolrwydd y Bwrdd yn Hydref 2022 gan Bartneriaeth Halpin, a chafodd cynllun gweithredu i fynd i'r afael ag argymhellion yr adolygiadau ei ystyried a'i gymeradwyo gan y Bwrdd ym mis Ionawr 2023. Yn ystod 2023/24 mae'r gwaith o fwrw ymlaen â'r camau y cytunwyd arnynt wedi parhau, gyda'r Bwrdd yn derbyn diweddariadau rheolaidd. Derbyniwyd dau ar hugain o argymhellion a chwblhawyd ugain gan gynnwys datblygu cynllun olyniaeth i'r Bwrdd, gweithredu sesiwn frifio rheolaidd i aelodau'r Bwrdd sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am ein gwaith a'r dirwedd addysg yng Nghymru, a chynnal adolygiad o'r lefel trothwy lle adroddir risgiau i'r Bwrdd. Bydd y ddau argymhelliad sy'n weddill yn cael eu cwblhau yn 2024/25.

Yn ystod 2023/24 fe wnaeth y Cadeirydd gyfarfod â phob aelod o'r Bwrdd ar wahân yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn i gynnal adolygiadau perfformiad a gwrando ar adborth. Casglodd y Cadeirydd yr adborth hwn ynghyd mewn adroddiad gydag awgrymiadau o welliannau i fformat Sesiynau Datblygu'r Bwrdd, er mwyn sicrhau eu bod yn ddiddorol ac yn rhoi cyfle i gael trafodaethau manwl, a'r angen i ystyried cynllunio olyniaeth ar gyfer rolau uwch.

Mewn ymateb i'r pwyntiau hyn, fe wnaethom ddiwygio fformat Sesiynau Datblygu'r Bwrdd i gynnwys cymysgedd o weithgareddau a gynlluniwyd i annog ymgysylltu a chynnig mwy o gyfleoedd ar gyfer trafodaeth fanwl. Bu'r Bwrdd hefyd yn ystyried cynllunio olyniaeth ar lefel uwch yn ystod sesiwn gaeedig ac fe adolygodd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol Gynllun Olyniaeth y Prif Weithredwr yn ei gyfarfod ym mis Mawrth.

Adolygiad y Cadeirydd - Yn ystod y flwyddyn, bu'r Cadeirydd, y Prif Weithredwr ac aelodau eraill o'r Tîm Gweithredol yn cwrdd yn rheolaidd â Gweinidog y Gymraeg ac Addysg, gan ei ddiweddarau ar agweddau allweddol ar waith Cymwysterau Cymru. Cafodd y Cadeirydd hefyd sawl cyfarfod gydag amrywiol randdeiliaid allweddol er mwyn datblygu cysylltiadau cryfach ac i ennyn gwell dealltwriaeth o waith Cymwysterau Cymru. Arweiniwyd yr adolygiad o berfformiad y Cadeirydd ar gyfer 2023 gan ddau aelod o'r Bwrdd, gan dynnu ar adborth gan holl aelodau'r Bwrdd a'r Pwyllgor Gwaith, a chynhaliodd y Gweinidog ei adolygiad blynyddol o berfformiad y Cadeirydd.

Presenoldeb yng nghyfarfodydd y Bwrdd a'r Pwyllgorau (rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024)

Aelod o'r Bwrdd	Bwrdd	Pwyllgor Archwilio	Pwyllgor Rheoleiddio	Pwyllgor Adnoddau	Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol
David B Jones OBE (Cadeirydd)	6/6	amh	3/4	3/3	3/3
Philip Blaker (Prif Weithredwr)	6/6	amh	4/4	3/3	amh
Douglas Blackstock	5/6	3/4	4/4	amh	amh
Julie Brannan	6/6	4/4	4/4	amh	amh
Hannah Rowan	5/6	amh	amh	3/3	amh
Anne-Marie Duffy OBE ³	4/6	amh	4/4	amh	3/3
Michael Griffiths OBE	6/6	amh	amh	3/3	3/3
Graham Hudson	5/6	amh	4/4	2/3	amh
David W Jones ⁴	1/1	amh	amh	amh	amh
Yr Athro John Latham CBE	5/6	4/4	amh	amh	amh
Sharron Lusher MBE ⁵	2/2	1/1	amh	amh	amh
Jayne Woods	5/6	3/4	amh	amh	3/3

Yn ystod 2023/24, bu Ravi Pawar yn gynghorydd arbennig i'r Bwrdd a mynychodd bump allan o chwe chyfarfod Bwrdd posibl yn ystod y cyfnod. Ym mis Mawrth 2023, estynnodd y Cadeirydd benodiad Ravi am ddeuddeg mis arall.

³ Ymddiswyddodd Anne-Marie Duffy o'r Bwrdd ar 16 Ebrill 2024.

⁴ Daeth ail dymor David W Jones fel aelod cyffredin i ben ar 14 Mai 2023.

⁵ Ail-ymunodd Sharron Lusher â'r Bwrdd ym mis Ionawr 2024 ar ôl gadael ym mis Gorffennaf 2022 i fod yn Gadeirydd panel Adolygu Cymwysterau Galwedigaethol Llywodraeth Cymru.

Yn ystod 2023/24 parhaodd y sefydliad i ddarparu papurau electronig a chynnal ei gyfarfodydd pwyllgor yn rhithiol er mwyn parhau i fanteisio ar fuddion gweithio ystwyth. Cynhaliwyd cyfarfodydd y Bwrdd wyneb yn wyneb.

Y system rheolaeth fewnol

Cynlluniwyd ein system rheolaeth fewnol i gadw risg o fewn lefel resymol yn hytrach nac i ddileu pob risg; o ganlyniad, dim ond sicrwydd rhesymol o effeithiolrwydd y gall ei gynnig, ni all roi sicrwydd absoliwt. Mae'r system rheolaeth fewnol yn seiliedig ar broses barhaus a gynlluniwyd i nodi ac i flaenoriaethu'r risgiau sy'n peryglu cyflawniad polisïau, nodau ac amcanion, i werthuso'r tebygolrwydd y bydd y risgiau yn cael eu gwireddu, ac i'w rheoli'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. Bu'r system rheolaeth fewnol ar waith ar gyfer y cyfnod a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r cyfrifon blynyddol. Fel Swyddog Cyfrifyddu, rwy'n gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol. Wrth wneud hynny, caf fy hysbysu gan waith yr archwilwyr mewnol, Archwilio Cymru, a Chyfarwyddwyr y sefydliad, sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheolaeth fewnol.

Archwiliad Mewnol

Rydyn ni'n trefnu ein gwasanaethau archwilio mewnol drwy gontract allanol ac wedi penodi TIAA, drwy dendr cystadleuol, yn archwilwyr mewnol i ni.

Yn ystod 2023-24, mae naw archwiliad mewnol wedi'u cwblhau ynghyd ag Adolygiad Dilynod blynyddol sy'n sefydlu'r camau rheoli a gymerwyd mewn perthynas â'r argymhellion sy'n deillio o'r adolygiadau archwilio mewnol.

Roedd yr Archwiliadau ar gyfer 2023-24 fel a ganlyn:

Enw'r archwiliad	Sgôr sicrwydd	Nifer yr argymhellion
TGCh Civica – Adolygiad cyn gweithredu (Cynghori)	amh	2
Rheoli Risg Dulliau TGCh Cyrff Rheoledig (Cynghori)	amh	0
Dynodi Cymwysterau	Sylweddol	4
Rheoli Risg – Rheolaethau Lliniaru	Sylweddol	1
Rheoli Prosiectau – Cymwys ar gyfer y Dyfodol	Sylweddol	2
Llywodraethu – Dilyniant Argymhelliad Effeithiolrwydd y Bwrdd	Sylweddol	0
TGCh – Rheoli Cynnwys y Wefan	Sylweddol	4
Rheolaethau Ariannol Allweddol – Cyflogres, Treuliau a Phensiynau	Rhesymol	3
Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu	Rhesymol	9

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg wedi goruchwyllo'r Cynllun Archwilio Mewnol a'r adroddiadau archwilio a bydd yn parhau i fonitro'r broses o weithredu argymhellion a godwyd yn ystod y flwyddyn. Mae'r tabl isod yn rhoi crynodeb o'r argymhellion a godwyd:

Argymhellion a godwyd	Blaenoriaeth			
	Brys	Pwysig	Rheolaidd	Cyfanswm
Argymhellion a godwyd yn 2017-18	0	3	13	16
Argymhellion a godwyd yn 2018-19	0	4	18	22
Argymhellion a godwyd yn 2019-20	5	1	19	25
Argymhellion a godwyd yn 2020-21	0	2	5	7
Argymhellion a godwyd yn 2021-22	0	3	8	11
Argymhellion a godwyd yn 2022-23	0	2	9	11
Argymhellion a godwyd yn 2023-24	1	8	16	25
Cyfanswm	6	23	88	117

Defnyddir system fonitro ac olrhain i adrodd i'r Pwyllgor Archwilio a Risg. Adolygodd TIAA, ein harchwilwyr mewnol, yr argymhellion ar ddiwedd y flwyddyn ariannol hefyd er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth ac i roi sicrwydd i'r Swyddog Cyfrifyddu a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg. Mae'r tabl isod yn rhoi trosolwg ar statws argymhellion ar ddiwedd y flwyddyn gyfrifo:

Blaenoriaeth	Argymhellion			Statws				
	Dygwyd ymlaen o 2022-23	Codwyd yn 2023-24	Cyfanswm	Gweithredwyd yn 2023/24	Hwyr	Heb fod yn ofynnol eto	Heb ei gweithredu	Wedi'i chario ymlaen
Brys	0	1	1	1	0	0	0	0
Pwysig	2	8	10	7	2	1	0	3
Rheolaidd	3	16	19	15	1	3	0	4
Cyfanswm	5	25	30	23	3	4	0	7

Ar 31 Mawrth 2024, roedd saith argymhelliad Archwilio Mewnol yn weddill.

O'r saith argymhelliad archwilio sy'n weddill, nid yw pedwar yn ofynnol eto ac yn ymwneud ag archwiliadau a gynhaliwyd yn ystod Ch4. Mae tri o'r argymhellion hyn yn ymwneud ag Adroddiad Archwilio Mewnol Adolygiad Sicrwydd TGCh - Rheoli Cynnwys y Wefan, a dderbyniodd sgôr sicrwydd sylweddol, ac sy'n flaenoriaethau rheolaidd. Mae'r argymhelliad terfynol yn ymwneud ag Adroddiad Archwilio Mewnol Adolygiad Sicrwydd Cyfathrebu, a

gafodd sgôr sicrwydd rhesymol, ac sy'n flaenoriaeth bwysig. Rhagwelir y bydd yr argymhellion yn cael eu cwblhau yn unol ag amserlenni y cytunwyd arnynt.

Mae tri o'r argymhellion sy'n weddill yn hwyr.

Mae un o'r argymhellion hwyr yn ymwneud ag Adolygiad Sicrwydd Cyn Gweithredu'r system gyllid newydd a gyhoeddwyd ym mis Awst 2023 ac a ystyriwyd gan ein Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg ym mis Medi 2023. Mae'r argymhelliad, a aseswyd fel blaenoriaeth bwysig, yn ymwneud â threfniadau ar gyfer defnyddio a monitro breintiau mynediad gweinyddwr systemau. Er bod breintiau mynediad gweinyddwr wedi'u cytuno ar gyfer staff mewnol, mae gan y cyflenwr fwy i'w wneud i ddangos ei drefniadau ar gyfer rheoli a monitro eu mynediad at broffiliau uwch-ddefnyddwyr i'n bodloni ni.

Mae argymhelliad hwyr arall yn ymwneud ag Adroddiad Archwilio Mewnol Adolygiad Sicrwydd Rheolaethau Ariannol Allweddol – Cyflogres, Treuliau a Phensiynau a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2023 ac a ystyriwyd gan ein Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg ym mis Tachwedd 2023. Mae'r argymhelliad hwn, a asesir fel blaenoriaeth bwysig, yn ymwneud â chymeradwyaeth ffurfiol y Polisi Tâl. Roedd hyn i fod i gael ei gwblhau erbyn 31 Mawrth 2024. Mae wedi'i ddiwygio ac yn symud ymlaen trwy'r broses gymeradwyo fewnol, gan ddisgwyl cymeradwyaeth derfynol ym mis Mai 2024. Rhoddodd yr archwiliad sgôr sicrwydd rhesymol.

Mae'r argymhelliad hwyr terfynol yn ymwneud ag Adroddiad Archwilio Mewnol Adolygiad Sicrwydd Rheoli Prosiect - Cymwys ar gyfer y Dyfodol (QFF) a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2024 ac a ystyriwyd gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg ym mis Mawrth 2024. Nododd yr argymhelliad fod trefniadau prosiect QFF wedi'u nodi yn Achos Busnes Llawn QFF ac awgrymodd y dylid ei ddiweddarau i ymgorffori cyllid prosiect erbyn 31 Ionawr 2024. Mae'r data cyllid prosiect bellach wedi'i goladu a bydd yr achos busnes yn cael ei ddiweddarau i'w adolygu a'i gymeradwyo erbyn diwedd Mehefin 2024. Rhoddwyd sgôr sicrwydd sylweddol gan yr archwiliad, ac mae'r argymhelliad sy'n weddill yn flaenoriaeth reolaidd.

Caiff holl argymhellion yr archwiliad mewnol eu tracio a'u hadrodd ym mhob un o gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg.

Diben barn y Pennaeth Archwilio Mewnol yw cyfrannu at y sicrwydd sydd ar gael i'r Swyddog Cyfrifyddu a'r Bwrdd, sy'n sail i asesiad y Bwrdd ei hun o effeithiolrwydd y system ar reolaeth fewnol. Darperir yr adroddiad isod gan ein Pennaeth Archwilio Mewnol o TIAA.

Barn y Pennaeth Archwilio Mewnol

Mae TIAA yn fodlon, ar gyfer y meysydd a adolygwyd yn ystod y flwyddyn, fod gan Cymwysterau Cymru brosesau rheoli risg, rheoli a llywodraethu rhesymol ac effeithiol ar waith. Mae'r farn hon wedi'i seilio'n gyfan gwbl ar y materion a ddaeth i sylw TIAA yn ystod yr adolygiadau archwilio mewnol a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn ac nid yw'n farn am bob elfen o'r prosesau rheoli risg, rheoli a llywodraethu na'r hyfywedd ariannol parhaus na'ch gallu i gyflawni rhwymedigaethau ariannol y mae'n rhaid i Cymwysterau Cymru eu cael o'i wahanol ffynonellau sicrwydd.

Crynodeb Archwilio

Gwendidau rheoli: Nid oedd unrhyw feysydd a adolygwyd gan yr archwiliad mewnol lle yr aseswyd bod effeithiolrwydd rhai o'r trefniadau rheolaeth fewnol yn rhoi 'Ychydig iawn o sicrwydd' neu 'Dim Sicrwydd'.

Argymhellion a Wnaed: Rydyn ni wedi dadansoddi ein canfyddiadau/argymhellion yn ôl maes risg, ac mae'r rhain wedi'u crynhoi isod.

Maes Risg	Brys	Pwysig	Rheolaidd
Cyfarwyddwyd			
Fframwaith Llywodraethu	0(0)	2(0)	7(7)
Lliniaru Risg	0(0)	0(0)	2(0)
Cydymffurfio	0(0)	3(0)	5(2)
Cyflenwi			
Monitro Perfformiad	0(0)	1(1)	0(0)
Cynaliadwyedd	1(0)	1(0)	0(0)
Gwydnwch	0(0)	1(1)	2(0)

Cyfleoedd Effeithiolrwydd Gweithredol: Un o rolau archwilio mewnol yw ychwanegu gwerth, ac yn ystod y flwyddyn ariannol, fe wnaethom roi cyngor ar gyfleoedd i wella effeithiolrwydd gweithredol y meysydd a adolygwyd ac mae nifer y cyfleoedd hyn wedi'u crynhoi isod.

Gweithredol	7(9)
--------------------	------

Dilydol: Mae argymhellion y flwyddyn flaenorol wedi bod yn destun gwaith dilydol fel rhan o'n cynllun archwilio. Roedd holl argymhellion 2022/23 yn destun gwaith dilydol gan Archwilio Mewnol a chafodd yr holl argymhellion y cytunwyd arnynt eu gweithredu.

Annibyniaeth a Gwrthrychedd Archwilio Mewnol

Ni chyfyngwyd o gwbl ar y gwasanaeth archwilio mewnol mewn modd a oedd yn amharu ar annibyniaeth neu wrthrychedd y gwasanaeth a ddarperir.

TIAA – 14 Mai 2024

Fframwaith rheoli risg

Y Bwrdd sy'n bennaf atebol am reoli risg y sefydliad, ac mae risg ymhlith yr eitemau sefydlog ar yr agenda ym mhob Bwrdd. Mae hyn yn cynnwys yr holl risgiau ar y gofrestr risg strategol sydd â sgôr risg gweddilliol o 12 neu uwch. Cefnogir y Bwrdd gan y Pwyllgor Archwilio a Risg (ARAC), sy'n gyfrifol am ddarparu cyngor a sicrwydd ar ddull y sefydliad o reoli risg a bodloni ei hun ar y ffordd y rheolir risg o fewn y sefydliad. Mae rheoli risg hefyd ymhlith eitemau sefydlog agenda ARAC yn rhan o'i fusnes craidd.

Cynhaliodd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg adolygiad o ddatganiad archwaeth risg y sefydliad yn ei Weithdy Risg Blynyddol a gynhaliwyd ym mis Mawrth 2024 a bydd y Bwrdd yn ei dderbyn i'w adolygu a'i gymeradwyo yn ei gyfarfod ym mis Mai 2024. Mae parodrwydd y bwrdd i dderbyn risg yn adlewyrchiad o wahanol agweddau ar y sefydliad, a chaiff ei ddatgan er mwyn darparu fframwaith i arwain y Bwrdd Gweithredol a gweithwyr o ran sut y dylent ddatblygu opsiynau, ystyried lliniaru risg neu wneud penderfyniadau dirprwyedig. Nid yw'n golygu unrhyw gyfaddawdu o ran gwneud penderfyniadau yn gywir, trwy'r llywodraethiant priodol a chan roi ystyriaeth lawn i'r opsiynau a'r asesiadau effaith neu'r risgiau dan sylw, ac nid yw ychwaith yn awgrymu unrhyw ragdybiaeth ynghylch y penderfyniadau a wneir. O ystyried natur ein gwaith, yn gyffredinol, mae parodrwydd y Bwrdd i dderbyn risg yn isel, ond mae'n derbyn bod angen goddef a rheoli rhywfaint o risg mewn meysydd penodol. Roedd y rhain yn cynnwys:

- parodrwydd i dderbyn risg yn y defnydd o dechnoleg ddigidol i wella neu ddatblygu prosesau asesu neu ddyfarnu fel rhan o waith diwygio cymwysterau
- awydd cymedrol i fentro o ran adnoddau, perthasoedd / canfyddiad y cyhoedd a gweithrediad y farchnad gymwysterau yn ei chyfanrwydd,

Mae'r tîm Gweithredol, drwy'r Bwrdd Rheoli a'i strwythurau llywodraethu sylfaenol, yn gyfrifol am gynnal y cofrestrau risg a'r cofrestrau risg tîm/prosiect ategol. Cyflwynwyd adroddiadau risg a chofrestrau i gyfarfodydd y byrddau hyn ar gyfer trafodaeth, adolygu a/neu wybodaeth.

Mae pwyllgorau'r Bwrdd wrthi'n trafod risg ac yn adolygu cofrestri risg perthnasol fel a ganlyn:

- Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn adolygu'r risgiau corfforaethol a'r risgiau cyfathrebu
- Mae'r Pwyllgor Rheoleiddio Polisi a Goruchwyllo Safonau yn adolygu'r risgiau rheoleiddio a diwygio

Rôl y pwyllgorau yw darparu cefnogaeth a her i'r tîm Gweithredol. Mae gan bwyllgorau rôl hefyd i roi sicrwydd i'r Bwrdd fod risg yn cael ei hystyried yn weithredol mewn trafodaethau pwyllgor a'i rheoli'n briodol.

Y Gofrestr Risg

Yn ystod 2023-24 diweddarwyd y Gofrestr Risg Strategol yn barhaus er mwyn nodi risgiau newydd wrth iddynt gael eu hadnabod. Ar y cyfan, gostyngodd y proffil risg yn ystod 2023/24, a gellir gweld adolygiad llawn o'n prif risgiau strategol ar dudalen 18.

Caiff yr holl risgiau eu hystyried yn rheolaidd a'u hadolygu yn unol â pharodwydd presennol y Bwrdd i dderbyn risg. Caiff yr holl risgiau sydd â sgôr gweddilliol o 12 neu uwch eu hadrodd i'r Bwrdd fel mater o drefn. Ar 31 Mawrth 2024 roedd 49 o risgiau strategol wedi'u nodi ar y gofrestr: 18 o risgiau diwygio; 10 o risgiau rheoleiddio; 18 o risgiau corfforaethol; a 3 o risgiau cyfathrebu. O'r 49 risg strategol a nodir yn y gofrestr, roedd gan 12 sgôr risg gweddilliol o 12 ac uwch.

Caffael a gwro oddi wrth weithdrefnau caffael

Mae ein Polisi Caffael cyhoeddedig yn alinio â Datganiad Polisi Caffael Cymru, ac felly rydyn ni'n hysbysebu cyfleoedd dros £30k (gan gynnwys TAW) yn agored ar GwerthwchiGymru ac yn ystyried sut y gallwn sicrhau bod ein cyfleoedd ar gael i Fusnesau Bach a Chanolig (BBaCh) dendro'n llwyddiannus.

Caiff ein Polisi Caffael ei gyflawni drwy ein Strategaeth Gaffael a'i gefnogi gan weithdrefnau tendro a dyfynbriso, a chaiff pob aelod newydd o staff hyfforddiant yn hyn fel rhan o'u cyfnod ymsefydlu.

Mae ein gweithdrefnau'n ei gwneud yn ofynnol (oni bai ein bod yn defnyddio contractau presennol neu gytundebau fframwaith cydweithredol fel y rhai a osodir gan Dîm Cyflawni Masnachol Llywodraeth Cymru) i ni:

- gael tri dyfynbris ar gyfer nwyddau a gwasanaethau rhwng £6,000 a £29,999
- cyhoeddi gwahoddiad i dendro am nwyddau a gwasanaethau dros £30,000 ac islaw trothwy'r GPA ar GwerthwchiGymru
- cyhoeddi hysbysiad ar 'Canfod Tendr' ar gyfer tendrau dros drothwy'r GPA

Mae proses ymadael ar waith i ganiatáu rheoli unrhyw wyriad o'r gweithdrefnau caffael hyn yn effeithiol. Gan amlaf, dim ond ar ôl ceisio tendrau/dyfynbrisiau cystadleuol y prynir nwyddau a gwasanaethau, yn dilyn cyngor gan y Tîm Caffael. Mewn rhai amgylchiadau, efallai na fydd hyn yn bosibl. Pan fo hyn yn digwydd, rhaid cael cymeradwyaeth y Prif Weithredwr.

Er mwyn darparu cyfiawnhad priodol, caiff y templed 'Cais am gymeradwyaeth i wro oddi wrth weithdrefnau caffael' ei gwblhau. Caiff y cais ei gofnodi ar y gofrestr dyfynbris/tendr.

Bydd y Pennaeth Caffael yn adolygu'r cais, ac os gellir ei gyfiawnhau bydd yn ei anfon at y Prif Weithredwr i'w gymeradwyo. Ar gyfer pob contract, gan gynnwys y rhai sy'n deillio o ymadawiad, pan fo'r gwerth yn uwch na'r trothwy ar gyfer Cytundeb Caffael Llywodraeth Sefydliad Masnach y Byd, rhaid cael cymeradwyaeth ymlaen llaw gan y Bwrdd cyn dechrau gweithgarwch caffael.

Adroddir ar unrhyw wyriadau i'r Bwrdd Rheoli mewnol a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg. Yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024, cymeradwywyd un ymadawiad, gyda gwerth o £6,000. Roedd hyn yn ymwneud â mynediad at feddalwedd benodol (felly un ffynhonnell gyflenwi) i ddeall opsiynau ar gyfer asesu digidol.

Llywodraethu gwybodaeth

Mae gennym Bolisi Diogelwch Gwybodaeth sy'n nodi rolau a chyfrifoldebau'r holl gyflogeion mewn perthynas â Thechnoleg Gwybodaeth a diogelwch gwybodaeth. Cefnogir y polisi gan nifer o ddogfennau cyfarwyddyd, gan gynnwys Canllawiau Dosbarthu Gwybodaeth a Thrin Gwybodaeth.

Y Cyfarwyddwr Gweithredol Adnoddau Corfforaethol yw'r Uwch Swyddog Risg Gwybodaeth (SIRO), ac mae'n atebol i'r Swyddog Cyfrifyddu a'r Bwrdd am lywodraethu gwybodaeth a data. Mae'r Pennaeth TG yn gyfrifol am ddatblygu, cynnal a gweithredu polisiau TG perthnasol, tra bod y Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol yn gyfrifol am bolisiau rheoli data a cheisiadau Rhyddid Gwybodaeth. Y Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth yw'r Swyddog Diogelu Data ac mae'n gyfrifol am gydymffurfio â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol.

Rydyn ni wedi ymrwmo i fod yn agored ac yn dryloyw yn y ffordd rydyn ni'n gwneud busnes. Mae ein Cynllun Cyhoeddiadau yn ein hymrwmo i sicrhau bod gwybodaeth berthnasol benodol ar gael fel mater o drefn i'r cyhoedd ac mae ar gael ar ein [gwefan](#).

Rydyn ni wedi sefydlu datganiad Parodrwydd i Dderbyn Risg Gwybodaeth, gan gategoreiddio data i'r meysydd canlynol, gan roi sgôr risg, nodi ein parodrwydd i dderbyn risg, a gosod camau rheoli cysylltiedig:


- gwybodaeth i'r cyhoedd
- corfforaethol mewnol
- gwybodaeth bersonol sensitif am staff a thrydydd partïon
- QiW (ein cronfa ddata reoleiddio)
- cyfryngau cymdeithasol

Mae'r Pennaeth TG yn gyfrifol am adolygu ein datganiad parodrwydd i dderbyn risg yn rheolaidd a chynnig diweddariadau i'r Bwrdd Rheoli.

Seiberddiogelwch

Yn y flwyddyn ariannol hon, ni chafwyd unrhyw achosion o dorri data na cholli data. Fe wnaethom adnewyddu ein hachrediad Cyber Essentials Plus ym mis Gorffennaf 2023 ac ym mis Medi 2023 fe wnaethom hefyd gyflawni tystysgrif Cyber Essentials Lefel 1 ASME.

Mae'r siart isod yn crynhoi'r ymosodiadau aflwyddiannus a gafwyd dros y flwyddyn.




Ymdrechion i beryglu cyfrifon defnyddwyr trwy geisio mewngofnodi heb awdurdod (dyfalu cyfrineiriau) yw'r math mwyaf cyffredin o ymosodiad erbyn hyn. Fodd bynnag, mae'r risg yffredinol o beryglu cyfrifon yn parhau'n isel oherwydd yr amddiffyniad ychwanegol a ddarperir gan ddilysu aml-ffactor. Negeseuon e-bost gwe-rwydo sy'n parhau i achosi'r risg seiber fwyaf arwyddocaol. Ein hidlwyr e-bost â'u diogelwch bygythiad uwch yw'r amddiffyniad cyntaf yn erbyn gwe-rwydo. Rydyn ni'n cydnabod y rôl bwysig y mae ein staff yn ei chwarae o ran lliniaru'r risg o we-rwydo ymhellach.

Mae'r gweithgareddau eraill a wnaethom yn ystod y flwyddyn i wrthsefyll y bygythiad seiber yn cynnwys:

- monitro newidiadau i'r dirwedd fygythiadau
- cynnal efelychiadau gwe-rwydo misol ar ein staff er mwyn profi eu hymatebion a'u rhybuddio am beryglon gwe-rwydo
- mynnu bod yr holl staff yn cwblhau hyfforddiant ar-lein rhyngweithiol parhaus ar ymwybyddiaeth diogelwch gwybodaeth

Dangosir canlyniadau ymosodiadau gwe-rwydo ffug yn y siart isod. Darperir hyfforddiant pellach i staff sy'n cael eu dal yn rheolaidd mewn ymarferion gwe-rwydo.

Tuedd ymateb i ymosodiadau gwe-rwydo ffug



Rydyn ni'n deall y gall bygythiadau seiber hefyd effeithio arnom trwy ymosodiadau ar y gadwyn gyflenwi a allai effeithio ar ein partneriaid a'n cyflenwyr technoleg dibynadwy. Rydyn ni'n lliniaru'r risgiau hyn trwy ofynion cytundebol am achrediadau sicrwydd seiber trydydd parti a chynllunio parhad busnes.

Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth

Cawsom ddeg o geisiadau am wybodaeth yn ystod y flwyddyn, ac ymatebwyd i bob un ohonynt yn unol â'r amserlenni priodol.

Cwynion

Cawsom ddwy gŵyn gorfforaethol yn ystod 2023/24. Datryswyd un yn anffurfiol yn ystod cam un o'n proses trin cwynion corfforaethol a chafodd y llall ei chadarnhau'n rhannol. Yn ystod 2022/23, cawsom ddwy gŵyn gorfforaethol. Datryswyd un yn anffurfiol yn ystod cam un o'n proses trin cwynion corfforaethol a chafodd y llall ei thynnu'n ôl.

Yn ystod 2023/24, cawsom 15 o gwynion am gyrff dyfarnu. O'r rhain, derbyniwyd un i'w hymchwilio a chafodd ei chadarnhau'n rhannol. Ni chawsom unrhyw geisiadau o dan y Gwasanaeth Adolygu Gweithdrefnau Arholi yn ystod 2023/24. Yn ystod 2022/23, cawsom dair ar ddeg o gwynion am gyrff dyfarnu. Derbyniwyd dwy ohonynt i'w hymchwilio ac ni chadarnhawyd y naill na'r llall. Ni chawsom unrhyw geisiadau o dan y Gwasanaeth Adolygu Gweithdrefnau Arholi yn ystod 2022/23 ychwaith.

Chwythu'r chwiban

Mae gan Cymwysterau Cymru Bolisi Chwythu'r Chwiban, sy'n rhoi manylion i'n staff am ddiben a phroses y polisi ar gyfer codi unrhyw bryderon. Ni chawsom unrhyw ddatgeliadau chwythu'r chwiban corfforaethol yn y flwyddyn ariannol hon.

Mae gennym hefyd Weithdrefn Chwythu'r Chwiban Reoleiddiol. Ni chawsom unrhyw ddatgeliadau chwythu'r chwiban rheoleiddiol yn y flwyddyn ariannol hon.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Yn 2023/24 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei bwriad i gyflwyno rheoliadau i ymestyn dyletswydd llesiant (Rhan 2) Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i gynnwys wyth corff cyhoeddus ychwanegol, gan gynnwys Cymwysterau Cymru, o fis Mehefin 2024 gyda'r dyletswyddau yn dod i rym ym mis Ebrill 2025.

Er na fyddwn yn ddarostyngedig i'r Ddeddf tan fis Ebrill 2025, rydyn ni eisoes wedi ymrwymo i ddatblygu mewn modd cynaliadwy. Rydyn ni o'r farn bod ein gwaith yn cefnogi diben y Ddeddf a bod ei gofynion yn cyd-fynd â'r ffordd rydyn ni'n gweithio. Yn 2018 fe wnaethom fabwysiadu darpariaethau'r Ddeddf o'n gwirfodd, er mwyn iddynt fod yn sail i'r ffordd rydyn ni'n cyflawni ein swyddogaethau a'n hamcanion llesiant cyhoeddedig sydd i'w gweld ar ein [gwefan](#).

Mae ein gwaith yn cefnogi ffyniant economaidd hirdymor yn benodol drwy sicrhau bod cymwysterau'n addas at ddiben, a thrwy ystyried pa mor dda y maent yn diwallu anghenion cyflogwyr a sefydliadau addysg bellach ac uwch. Mae hyn yn cefnogi dilyniant academiaidd a chyflogadwyedd, ac, felly, ffyniant a thwf economaidd. Mae addysg dda yn gwneud gwahaniaeth i gyfleoedd bywyd hirdymor, ac mae'n bwysig gallu dangos cyflawniad drwy gymwysterau cadarn ac ystyrion.

Yn 2023/24 buom yn gweithio i ddrafftio Datganiad Llesiant a nodi amcanion i gefnogi'r saith nod llesiant, gan ymgorffori'r rhain yn ein cynlluniau busnes. Yn ystod y flwyddyn, buom yn ymgysylltu â rhanddeiliaid, staff a'n Bwrdd i ddatblygu syniadau a dysgu gan eraill i lywio'r gwaith o ddatblygu ein Datganiad a'n hamcanion llesiant. Fe wnaethom hefyd ymgysylltu â'n hundeb cydnabyddedig, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) a cheisio cymhwyso'r pum ffordd o weithio i'n dull gweithredu.

Cymeradwyodd y Bwrdd ein Datganiad a'n hamcanion llesiant terfynol ym mis Mawrth 2024.

Safonau'r Gymraeg

Rydyn ni'n cyfathrebu â'n rhanddeiliaid yn ddwyieithog, fel y bo'n briodol. Er nad ydyn ni ddarostyngedig i Safonau'r Gymraeg eto, rydyn ni wedi dewis cyhoeddi ac adrodd ar ein Cynllun Iaith Gymraeg corfforaethol o'n gwirfodd, a gellir ei weld ar ein [gwefan](#). Yn ystod 2023/24 rydyn ni wedi canolbwyntio ar barhau i ymgorffori'r Cynllun trwy'r sefydliad cyfan.

Hyrwyddo a chefnogi cymwysterau cyfrwng Gymraeg a dwyieithog

Mae ein '[Dewis i Bawb](#)' yn nodi ein hymroddiad amlwg i'r Gymraeg a'n nod i gynyddu argaeledd cymwysterau cyfrwng Gymraeg. Yn ystod 2023/24, fe wnaethom ddarparu dros £835k o gyllid grant er mwyn hyrwyddo a chefnogi cymwysterau dwyieithog a rhai cyfrwng Gymraeg.

Er mwyn cefnogi ein hymrwymiaidau 'Dewis i Bawb', rydyn ni wedi bod yn gweithio gyda chyrrff dyfarnu a rhanddeiliaid, fel y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, Llywodraeth Cymru a darparwyr dysgu, er mwyn nodi pa gymwysterau a ddylai gael blaenoriaeth o ran sicrhau argaeledd yn y Gymraeg. Defnyddiwyd gwybodaeth a gasglwyd fel rhan o'n gwaith i nodi meysydd blaenoriaeth ar gyfer ein grant Cymorth i'r Gymraeg.

Rydyn ni wedi dyfarnu dros £225k drwy gyllid grant cystadleuol i gefnogi cyrrff dyfarnu i sicrhau bod mwy o gymwysterau ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg, £200k i Cymraeg i Oedolion, a £410k o gyllid grant i CBAC er mwyn cyfrannu at y gost o baratoi cymwysterau dwyieithog.

Yn ystod 2023/24 cyhoeddwyd canfyddiadau ein hadolygiad sector Busnes, Gweinyddol a Manwerthu (gan gynnwys y gyfraith a chyfrifyddiaeth) a oedd yn gwneud argymhellion yn ymwneud â chynyddu nifer y cymwysterau cyfrwng Cymraeg yn y sector. Fe wnaethom hefyd gyhoeddi canfyddiadau ein hadolygiad o'r sector Teithio, Twristiaeth, Lletygarwch ac Arlwyo a oedd yn cynnig datblygu cymwysterau newydd dwyieithog Gwneud-i-Gymru yn y sector.

Fe wnaethom barhau i drefnu bod ein 13 Grŵp Cymhwyster Sector sy'n cynnwys cynrychiolwyr o blith darparwyr, cyrrff dyfarnu a grwpiau sector yn cyfarfod. Mae'r galw am a'r cyflenwad o gymwysterau cyfrwng Cymraeg yn parhau i fod yn fater i'w drafod yn y fforymau hyn.

Ym mis Awst 2023, fe wnaethom gyhoeddi'r Adroddiad Penderfyniadau ar gynigion i'w gwneud yn ofynnol i bob corff dyfarnu hyrwyddo argaeledd cymwysterau cyfrwng Cymraeg a hwyluso mynediad iddyn nhw. Yn dilyn hynny, daeth Amod D9 i rym ar 1 Medi 2023. Roedd hyn yn cynnwys gofynion ac arweiniad ynghylch amodau. Bydd disgwyl i gyrrff dyfarnu gydymffurfio ag Amod D9 o 1 Medi 2024.

Y tu hwnt i weithio gyda chyrrff dyfarnu, rydyn ni'n parhau i gefnogi ein partneriaeth strategol gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol sydd wedi'i seilio ar gynllun gweithredu tair blynedd. Datblygwyd y cynllun gweithredu hwn, sydd wedi'i strwythuro ar draws pedair thema wahanol, er mwyn ein helpu i gyflawni ein nod cyffredin - alinio datblygiad cyrsiau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog a datblygiad cymwysterau dwyieithog addas ar gyfer dysgwyr sy'n astudio'r cyrsiau hynny. Rydyn ni hefyd yn parhau i gyfarfod yn rheolaidd â swyddfa Comisiynydd y Gymraeg er mwyn trafod materion sy'n ymwneud â'r Gymraeg ac sydd o ddiddordeb i'r ddwy ochr.

Y Ddeddf Cydraddoldeb

Rydyn ni'n cydymffurfio â'r dyletswyddau cyffredinol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, ac rydyn ni wedi cymryd gofal i ystyried materion cydraddoldeb yn ein holl weithgareddau. Mae enghreifftiau o'n dull yn cynnwys ein harferion recriwtio, ein safonau dylunio gwefannau a dyluniad ein swyddfa. Rydyn ni'n partneru'n rheolaidd â sefydliadau eraill i gefnogi a gwreiddio ein polisiau a'n harferion cydraddoldeb, ac eleni rydyn ni wedi parhau i gynnal ein rhaglen hyfforddi cynhwysiant i staff. Rydyn ni hefyd wedi ymrwymo i raglen o gyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol sydd wedi'i chynnwys fel gweithgaredd gweithredol yn ein cynllun gweithredol blynyddol.

Caiff ystyriaethau cydraddoldeb eu hymgorffori yn y gwaith o gynllunio ein polisiau a darparu ein gwasanaethau, ac maen nhw'n cael eu hadolygu'n barhaus.

Yn ystod 2022/23, aethom ati i wella ein dealltwriaeth o farn y rhai â phrofiad ac arbenigedd mewn cydraddoldeb ac amrywiaeth wrth ddatblygu ein Hamcanion Cydraddoldeb Strategol a'n Hamcanion Llesiant. Fe wnaethom gysylltu â phedwar deg dau o sefydliadau a chynnal cyfarfodydd gyda thri ar hugain o randdeiliaid a gynrychiolai unigolion o bob un o'r grwpiau nodweddion gwarchoddedig. Gwahodwyd rhanddeiliaid i drafod y tair her uchaf sy'n wynebu'r bobl y maent yn eu cynrychioli ar hyn o bryd a'r gweithgareddau allweddol yr oeddent yn teimlo y gallai Cymwysterau Cymru eu cyflawni i fynd i'r afael â'r heriau hynny yn ei Gynllun Cydraddoldeb Strategol. Gofynnwyd i randdeiliaid hefyd wneud sylwadau ar ein hamcanion cydraddoldeb drafft a rhoi adborth arnynt.

Rydyn ni wedi ymrwmo i gynnig cymwysterau cynhwysol sy'n diwallu anghenion dysgwyr ac roedd yn bwysig ein bod yn ystyried yr ystod o gymwysterau a ddylai fod ar gael ochr yn ochr â chymwysterau TGAU i lunio'r cynnig cymwysterau Cenedlaethol 14-16 llawn. Fe wnaethom gynnal ymgynghoriad cyhoeddus rhwng mis Mawrth a mis Mehefin 2024, gan ofyn am adborth ar y cynnig arfaethedig ar gyfer cymwysterau. Cafwyd ymateb da a'n galluogodd i lunio argymhellion y cytunwyd arnynt ym mis Tachwedd 2024.

Fe wnaethom gyhoeddi ein penderyniadau ym mis Ionawr 2024, a gadarnhaodd ein hymrwymiad i ail-lunio'r Cynnig Llawn o gymwysterau 14-16 mewn ffordd sy'n creu cynnig hygyrch, sy'n cydnabod bod dysgwyr yn datblygu ar wahanol raddfeydd ac sy'n darparu cymwysterau sy'n addas ar gyfer eu lefel gallu ar yr adeg honno yn nhaith eu dysgwyr. Rydyn ni'n disgwyl y bydd y cynnig llawn o Gymwysterau Cenedlaethol 14-16 yn galluogi dysgwyr i elwa ar gymwysterau sydd wedi'u dylunio i ddiwallu eu hanghenion penodol a bydd yn darparu llwybr amgen i astudio pellach a chyflogaeth i lawer o ddysgwyr a allai fod â nodweddion gwarchoddedig penodol.

Fel rheoleiddiwr, rydyn ni hefyd yn cefnogi cyrff dyfarnu i gyflawni eu dyletswyddau cydraddoldeb drwy gyhoeddi ein canllawiau Mynediad Teg drwy Ddylunio. Mae'r ddogfen hon yn darparu canllawiau ar sut y gall cynllunio cymwysterau ac asesu da roi'r cyfleoedd tecaf posibl i bob dysgwr ddangos yr hyn maen nhw'n ei wybod, yn ei ddeall ac yn gallu ei wneud. Bwriad y ddogfen yw cefnogi ac ategu'r arferion gorau o ddyfarnu sefydliadau wrth gynllunio cymwysterau ac asesu, a darparu canllawiau ar gydymffurfio â gofynion rheoliadol. Mae ein Hamodau Cydnabod yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff dyfarnu fod â threfniadau clir ar waith ar gyfer gwneud addasiadau rhesymol mewn perthynas â'i gymwysterau, ac rydyn ni'n monitro cydymffurfiaeth cyrff dyfarnu. Rydyn ni hefyd yn cynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol. Mae ein tîm Cysylltiadau Allanol hefyd yn rhoi arweiniad i swyddogion arholi i'w cefnogi i weithredu trefniadau mynediad.

Fe wnaethom gyhoeddi ein Cynllun Gwrth-Hiliaeth 2024-28 lle rydyn ni'n ymrwmo i helpu i greu Cymru gynhwysol a gwrth-hiliol. Rydyn ni wedi nodi amcanion, cefnogi newid yng Nghymru drwy ein gwaith ar gymwysterau ac ymgysylltu, data a chydweithio a chefnogi ein diwylliant cynhwysol trwy hyfforddiant ac amrywiaeth y gweithlu a'r Bwrdd.

Yn ystod 2023/24, fe wnaethom gyhoeddi ein hadroddiad cydraddoldeb blynyddol ar gyfer y cyfnod 2022/23, sy'n tynnu sylw at gynnydd yn erbyn pob un o'r amcanion cydraddoldeb ac yn adrodd ar gynnydd yn erbyn ein Cynllun Gwrth-hiliaeth. Bydd ein hadroddiad cydraddoldeb blynyddol 2023/24 yn cael ei gyhoeddi ar ein gwefan ym mis Awst 2024. Fe wnaethom hefyd gwblhau ein Cynllun ac Amcanion Cydraddoldeb Strategol 2024-28.

Cymeradwywyd ein Cynllun a'n Hamcanion Cydraddoldeb Strategol newydd gan y Bwrdd ym mis Mawrth a gellir dod o hyd iddynt [yma](#).

Rydyn ni wedi ymrwymo i wella ein dull cyffredinol ar gyfer cynnal asesiadau effaith integredig ac i sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio'n effeithiol er mwyn llywio ein penderfyniadau polisi. Fel rhan o'r ymrwymiad hwn, ac er mwyn paratoi ar gyfer gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, rydyn ni wedi gweithio i ddatblygu pecyn cymorth mewnlol ar gyfer llunio polisi yn ystod 2023/24. Yn ystod 2024/25, byddwn yn gweithio i gwblhau'r pecyn cymorth a'i roi ar waith, a byddwn yn adolygu'r ffordd rydyn ni'n cynnal asesiadau effaith ac yn ystyried sut y gall y ddyletswydd lles ddarparu fframwaith integreiddio allweddol ar gyfer pob asesiad o effaith. Bydd y pecyn cymorth yn cael ei gwblhau a'i roi ar waith yn ystod 2024/25.

Casgliad

A minnau'n Swyddog Cyfrifyddu Cymwysterau Cymru, rwy'n cadarnhau bod y datganiadau a wneir yn yr adroddiad hwn yn gywir ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024. Ni fu unrhyw faterion rheolaeth fewnlol na llywodraethu sylweddol, a chadarnhaf fod systemau cadarn o reolaeth fewnlol ar waith i gefnogi'r gwaith o gyflawni nodau ac amcanion polisi'r sefydliad.

Philip Blaker	Philip Blaker Swyddog Cyfrifyddu 19 Medi 2024
---------------	--

Adroddiad Tâl Cydnabyddiaeth a Staff

Polisi tâl cydnabyddiaeth

Cyflogir cyflogeion Cymwysterau Cymru ar delerau ac amodau y cytunwyd arnynt gan y Bwrdd. Mae cydnabyddiaeth ariannol yn cydreddeg â bandiau a graddfeydd cyflog Llywodraeth Cymru. Mae dilyniant drwy'r graddfeydd cyflog ar sail cynyddran flynyddol, yn amodol ar berfformiad boddhaol. Caiff newidiadau i strwythur cyflogau pob cyflogai (gan gynnwys y Bwrdd Gweithredol) eu hadolygu'n flynyddol gan y Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth, a rhaid i unrhyw newidiadau i'n dull o dalu gael eu cymeradwyo gan y Gweinidog Addysg.

Mae'r pecyn tâl cydnabyddiaeth yn cynnwys aelodaeth o Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Ar ôl eu penodi, cynigir dewis o ddau fath o bensiwn i gyflogeion: 'Alpha' (cynllun cyfartaledd gyrfa) a 'Partnership', sy'n drefniant cyfraniadau diffiniedig. Mae manylion Cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil i'w gweld yn <http://www.civilservicepensionscheme.org.uk>.

Telir ffioedd a chostau teithio'r Bwrdd yn unol â chyfraddau Llywodraeth Cymru ar gyfer penodiadau cyhoeddus.

Tâl cydnabyddiaeth (gan gynnwys cyflog) a hawliau pensiwn – uwch swyddogion ac aelodau'r Bwrdd

Mae'r tablau canlynol yn rhoi manylion buddiannau tâl a phensiynau, ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024, uwch swyddogion ac Aelodau'r Bwrdd sydd ag awdurdod neu gyfrifoldeb dros gyfarwyddo neu reoli ein prif weithgareddau.

Cyfanswm cydnabyddiaeth fel ffigur unigol						
	2023-24			2022-23		
Aelodau Anweithredol o'r Bwrdd	Ffioedd (band)	Buddion Pensiwn	Cyfanswm	Ffioedd (band)	Buddion Pensiwn	Cyfanswm
	£'000	£	£'000	£'000	£	£'000
Cadeirydd David B Jones OBE DL	20-25	-	20-25	20-25	-	20-25
David W Jones ⁶ (Gadawodd CC 14/05/23)	0-5	-	0-5	0-5	-	0-5
Jayne Woods	5-10	-	5-10	5-10	-	5-10
Anne-Marie Duffy OBE ⁷	5-10	-	5-10	5-10	-	5-10
Douglas Blackstock	5-10	-	5-10	5-10	-	5-10
Graham Hudson	5-10	-	5-10	0-5	-	0-5
Hannah Rowan	0-5	-	0-5	0-5	-	0-5
Michael Griffiths OBE	5-10	-	5-10	5-10	-	5-10
Sharron Lusher MBE DL	0-5	-	0-5	0-5	-	0-5
Julie Brannan	5-10	-	5-10	5-10	-	5-10
Yr Athro John Latham CBE	5-10	-	5-10	5-10	-	5-10

Mae'r tabl hwn yn destun archwiliad

Mae ffioedd yn cynnwys ad-dalu treuliau teithio i Cymwysterau Cymru ac oddi wrtho gan fod y rhain, yn unol â gofynion Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi, yn cael eu trin fel buddion trethadwy.

⁶ Gadawodd David W Jones ar 14/05/2023

⁷ Gadawodd Anne-Marie Duffy OBE ar 16/04/2024

Cyfanswm cydnabyddiaeth fel ffigur unigol						
Swyddogion Gweithredol	2023-24			2022-23		
	Cyflog (band) £'000	Buddion Pensiwn (i'r £1,000 agosaf)	Cyfanswm £'000	Cyflog (band) £'000	Buddion Pensiwn (i'r £1,000 agosaf)	Cyfanswm £'000
Prif Weithredwr Philip Blaker	140- 145	76,000	220-225	135-140	48,000	180-185
Cyfarwyddwr Gweithredol - Rheoleiddio Jo Richards	90-95	36,000	125-130	85-90	74,000	160-165
Cyfarwyddwr Gweithredol - Adnoddau Corfforaethol Alison Standfast	90-95	59,000	150-155	85-90	-10,000	75-80
Cyfarwyddwr Gweithredol - Polisi a Diwygio Cymwysterau Cassy Taylor*	80-85	58,000	140-145	75-80	-5,000	70-75
Cyfarwyddwr - Polisi a Diwygio Cymwysterau Emyr George ⁸ (Gadawodd CC 07/01/24)	60-65	35,000	95-100	75-80	31,000	105-110
Cyfarwyddwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu Ashok Ahir	80-85	32,000	110-115	75-80	31,000	105-110

Mae'r tabl hwn yn destun archwiliad.

Mae cyflog yn cynnwys cyflog gros ac unrhyw lwfansau eraill sy'n destun trethiant y DU. Mae'r adroddiad yn seiliedig ar daliadau cronedig a wnaed ac felly fe'u cofnodir yn y cyfrifon hyn.

Ni wnaed unrhyw fuddion mewn nwyddau na thaliadau bonws yn 2023-24.

Cyfrifir y ffigurau 'buddion pensiwn' uchod at ddibenion datgelu, gan ein gweinyddwyr pensiynau. Cyfrifir y ffigurau hyn fel y 'cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn' (gweler tabl Buddion Pensiwn 'Uwch Weithwyr' isod) wedi'i luosi ag 20, ynghyd â'r cynnydd gwirioneddol mewn unrhyw gyfandaliad, llai cyfraniadau a wnaed gan y cyflogai yn ystod y cyfnod.

Mae'r ffigurau negyddol ar gyfer budd-daliadau pensiwn yn ymwneud â'r swyddogion hynny sydd â rhywfaint o aelodaeth yn un o Brif Gynlluniau Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (yn seiliedig ar gyflog terfynol), lle nad yw'r codiad cyflog blynyddol wedi bod yn ddigon i wrthbwyso chwyddiant. Yn yr achosion hyn, mae ein gweinyddwyr pensiynau wedi cyfrifo gostyngiad yn hytrach na chynnydd o ran budd-daliadau pensiwn.

⁸ Gadawodd Emyr George CC ar 07/01/2024. Nid yw ei swydd yn cael ei llenwi ar hyn o bryd. Yn hytrach, mae Cassy Taylor wedi cael ei haildynodi'n Gyfarwyddwr Gweithredol, Polisi a Diwygio Cymwysterau, ac mae wedi cymryd cyfrifoldeb am y meysydd a reolwyd yn flaenorol gan Emyr George.

Buddiannau Pensiwn Uwch Gyflogeion					
Swyddogion	Pensiwn Cronedig ar oedran pensiwn fel ar 31 Mawrth 2024 £'000	Cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn ar oedran pensiwn £'000	CETV ar 31 Mawrth 2024 £'000	CETV ar 31 Mawrth 2023 £'000	Cynnydd gwirioneddol mewn CETV £'000
Prif Weithredwr Philip Blaker	20-25	2.5-5	482	377	61
Cyfarwyddwr Gweithredol - Rheoleiddio Jo Richards	20-25	0-2.5	304	246	23
Cyfarwyddwr Gweithredol - Adnoddau Corfforaethol Alison Standfast	35-40	2.5-5	780	666	49
Cyfarwyddwr Gweithredol - Polisi a Diwygio Cymwysterau Cassy Taylor	40-45	2.5-5	944	817	51
Cyfarwyddwr - Polisi a Diwygio Cymwysterau Emyr George ⁹	20-25	0-2.5	308	257	18
Cyfarwyddwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu Ashok Ahir	10-15	0-2.5	159	118	22

Mae'r tabl hwn yn destun archwiliad.

Darperir buddion pensiwn drwy drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Cyn 1 Ebrill 2015, yr unig gynllun oedd Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS), sydd wedi'i rannu'n wahanol adrannau - mae classic, premium, a classic plus yn darparu buddion ar sail cyflog terfynol, tra bod nuvos yn darparu buddion ar sail cyfartaledd gyrfa. O 1 Ebrill 2015, cyflwynwyd cynllun pensiwn newydd ar gyfer gweision sifil – Cynllun Pensiwn Gweision Sifil ac Eraill neu alpha, sy'n darparu buddion ar sail cyfartaledd gyrfa. Ymunodd pob gwas sifil a oedd newydd ei benodi, a mwyafrif y rhai a oedd eisoes mewn swydd, â'r cynllun newydd.

Mae'r PCSPS ac alpha yn gynlluniau statudol heb eu hariannu. Mae gweithwyr a chyflogwyr yn gwneud cyfraniadau (mae cyfraniadau gweithwyr yn amrywio rhwng 4.6% ac 8.05%, yn

⁹ Gadawodd Cymwysterau Cymru ar 07/01/24

dibynnu ar gyflog). Telir balans cost buddion a delir gan arian a bleidleisir gan y Senedd bob blwyddyn. Mae pensiynau sy'n cael eu talu yn cynyddu'n flynyddol yn unol â deddfwriaeth Cynyddu Pensiynau. Yn lle'r trefniadau buddion diffiniedig, gall gweithwyr ddewis pensiwn cyfraniadau diffiniedig gyda chyfraniad cyflogwr, y cyfrif pensiwn partneriaeth.

Yn alpha, mae pensiwn yn cronni ar gyfradd o 2.32% o enillion pensiynadwy bob blwyddyn, a chaiff y cyfanswm a gronnir ei addasu'n flynyddol yn unol â chyfradd a bennir gan Drysorlys Ei Fawrhydi. Gall aelodau ddewis ildio (cymudo) pensiwn am gyfandaliad hyd at y terfynau a bennir gan Ddeddf Cyllid 2004. Mae buddion PCSPS pob aelod a newidiodd i alpha yn cael eu 'bancio', gyda'r rhai â buddion cynharach yn un o adrannau cyflog terfynol y PCSPS yn cael y buddion hynny yn seiliedig ar eu cyflog terfynol pan fyddant yn gadael alpha.

Y pensiwn cronedig a welir yn yr adroddiad hwn yw'r pensiwn y mae gan yr aelod hawl i'w gael pan fydd yn cyrraedd oedran pensiwn arferol, neu'n syth ar ôl peidio â bod yn aelod gweithredol o'r cynllun os yw eisoes oedran pensiwn neu'n hŷn na hynny. Oedran pensiwn arferol yw 60 ar gyfer aelodau o gynlluniau classic, premium a classic plus, 65 ar gyfer aelodau cynllun nuvos, a 65 neu Oedran Pensiwn y Wladwriaeth, pa bynnag un sydd uchaf, ar gyfer aelodau alpha. Mae'r ffigyrau pensiwn yn yr adroddiad hwn yn dangos pensiwn a enillwyd yn PCSPS neu alffa - fel sy'n briodol. Pan fo gan aelod fuddiannau yn PCSPS ac alpha, mae'r ffigurau'n dangos gwerth cyfunol ei fuddion yn y ddau gynllun ond yn nodi y gall rhannau cyfansoddol y pensiwn hwnnw fod yn daladwy o oedrannau gwahanol.

Pan gyflwynodd y Llywodraeth gynlluniau pensiwn gwasanaeth cyhoeddus newydd yn 2015, roedd trefniadau trosiannol a oedd yn trin aelodau presennol y cynllun yn wahanol ar sail eu hoedran. Arhosodd aelodau hŷn y PCSPS yn y cynllun hwnnw, yn hytrach na symud i alpha. Yn 2018, canfu'r Llys Apêl fod y trefniadau trosiannol yn y cynlluniau pensiwn gwasanaeth cyhoeddus yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon yn erbyn aelodau iau.

O ganlyniad, mae camau'n cael eu cymryd i unioni diwygiadau 2015, gan wneud darpariaethau'r cynllun pensiwn yn deg i bob aelod. Mae'r datrysiad pensiynau gwasanaethau cyhoeddus yn cynnwys dwy ran. Caeodd rhan gyntaf y PCSPS ar 31 Mawrth 2022, gyda phob aelod gweithredol yn dod yn aelod o alpha o 1 Ebrill 2022. Mae'r ail ran yn dileu'r gwahaniaethu ar sail oed ar gyfer y cyfnod unioni, rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022, drwy symud aelodaeth aelodau cymwys yn ystod y cyfnod hwn yn ôl i'r PCSPS ar 1 Hydref 2023. 'Dirwyn y broses yn ôl' neu 'rollback' yw'r enw ar hyn.

Ar gyfer aelodau sydd o fewn cwmpas y rhwymedi pensiwn gwasanaeth cyhoeddus, mae cyfrifiad eu buddion at ddiben cyfrifo eu Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod a'u ffigwr cyfanswm tâl sengl, ar 31 Mawrth 2023 a 31 Mawrth 2024, yn adlewyrchu'r ffaith bod aelodaeth rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022 wedi'i dirwyn yn ôl i'r PCSPS. Er y bydd aelodau maes o law yn cael opsiwn i benderfynu a ddylai'r cyfnod hwnnw gyfrif tuag at fuddion PCSPS neu alpha, mae'r ffigurau'n dangos y sefyllfa dirwyn yn ôl h.y. buddion PCSPS ar gyfer y cyfnod hwnnw.

Mae'r cyfrif pensiwn partneriaeth yn drefniant pensiwn cyfraniad diffiniedig galwedigaethol sy'n rhan o'r Legal & General Mastertrust. Mae'r cyflogwr yn gwneud cyfraniad sylfaenol rhwng 8% ac 14.75% (yn dibynnu ar oedran yr aelod). Nid oes rhaid i'r cyflogai gyfrannu, ond os bydd yn gwneud cyfraniadau, bydd y cyflogwr yn cyfateb y rhain hyd at derfyn o 3% o'r

cyflog pensiynadwy (yn ogystal â chyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Mae cyflogwyr hefyd yn cyfrannu 0.5% o gyflog pensiynadwy i dalu cost yswiriant budd risg a ddarperir yn ganolog (marw yn y swydd ac ymddeoliad oherwydd salwch).

Mae manylion pellach trefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil i'w gweld yn <http://www.civilservicepensionscheme.org.uk>.

Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod

Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod (CETV) yw gwerth cyfalaf buddion y cynllun pensiwn a gronnwyd gan aelod ar adeg benodol, wedi'i asesu gan actwari. Y buddion a brisir yw buddion cronedig yr aelod ac unrhyw bensiwn priod amodol sy'n daladwy o'r cynllun. Taliad yw CETV a wneir gan gynllun neu drefniant pensiwn i sicrhau buddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan fydd yr aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddion a gronnwyd yn ei gynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn ymwneud â'r buddion y mae'r unigolyn wedi'u cronni o ganlyniad i gyfanswm ei aelodaeth o'r cynllun pensiwn, nid dim ond ei wasanaeth mewn swydd uwch y mae'r datgeliad yn berthnasol iddo.

Mae'r ffigurau'n cynnwys gwerth unrhyw fudd pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r aelod wedi'i drosglwyddo i drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fudd pensiwn ychwanegol a gronnwyd gan yr aelod o ganlyniad i brynu buddion pensiwn ychwanegol ar ei draul ei hun. Cyfrifir gwerthoedd CETV yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (Diwygio) 2008 ac nid ydynt yn ystyried unrhyw ostyngiad gwirioneddol neu bosibl mewn buddion sy'n deillio o Dreth Lwfans Oes a allai fod yn ddyledus pan gymerir buddion pensiwn.

Cynnydd gwirioneddol mewn CETV

Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd mewn CETV sy'n cael ei ariannu gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys y cynnydd mewn pensiwn cronedig oherwydd chwyddiant, cyfraniadau a dalwyd gan y cyflogai (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniant pensiwn arall), ac mae'n defnyddio ffactorau prasio'r farchnad gyffredin ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

Datgeliadau cyflog teg

Mae hefyd yn ofynnol i ni ddatgelu'r berthynas rhwng tâl y cyfarwyddwr â'r cyflog uchaf yn y sefydliad a thâl canolrifol gweithlu'r sefydliad. Dangosir hyn isod.

Mae'r gydnabyddiaeth ariannol canolrifol yn parhau i fod o fewn ein gradd gyflog staff Band 4. Roedd y cynnydd o 5% yng nghyfanswm y gydnabyddiaeth ariannol canolrifol yn bennaf oherwydd dyfarniad cyflog 2023-24.

Pwyllgor	Cyflog a Buddion	
	2023-24	2022-23
Cydnabyddiaeth ariannol band yr enillwyr mwyaf (£'000)	140-145	135-140
% o newid ers y flwyddyn ariannol flaenorol ar gyfer y cyfarwyddwr ar y cyflogau uchaf	4%	2%
Cyfanswm Cydnabyddiaeth Ganolrifol (£)	48,269	45,970
% o newid ers y flwyddyn ariannol flaenorol i'r gweithwyr yn gyffredinol	5%	4%
Cyflog 25ain Canradd (£)	41,675	39,690
Cymhareb Gyflog 25ain Canradd	3.42	3.46
Cyflog Canradd Canolrifol (£)	48,269	45,970
Cymhareb Gyflog Canolrifol	2.95	2.99
Cyflog 75ain Canradd (£)	51,839	52,423
Cymhareb Gyflog 75ain Canradd	2.75	2.62
Ystod y gydnabyddiaeth ariannol i staff:		
Cyflogai ar y cyflog uchaf (£'000)	140-145	135-140
Cyflogai ar y cyflog isaf (£'000)	25-30	20-25

Mae'r tabl hwn yn destun archwiliad.

Ar gyfer 2023-24 mae Tâl a Buddion a Chyflog yr un fath i'r holl staff.

Adroddiad staff

Mae ein strwythur yn cynnwys pedair cyfarwyddiaeth, ac mae twf i gyflawni blaenoriaethau gweithredol fel diwygio'r cwricwlwm wedi sefydlogi yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Ar 31 Mawrth 2024, cyfrifwyd bod gennym 107 aelod staff, o'i gymharu â 103 ar gyfer y flwyddyn flaenorol; mae'r ffigur cywerth ag amser llawn (FTE) wedi parhau i gynyddu o 101.01 yn 2023 i 103.99 yn 2024.

Mae nifer y staff a'r aelodau cywerth ag amser llawn yn amrywio yn ystod y flwyddyn, wrth i ni ymateb i drosiant a recriwtio yn briodol. Amlinellir ein nifer cyfartalog o gyflogeion yn ystod y 12 mis diwethaf, ynghyd â chymhariaeth â blynyddoedd blaenorol, yn y tabl isod:

Blwyddyn	Cyfrif Cyfartalog	Cyferth ag Amser Llawn (FTE) cyfartalog
2023-2024	107.7	105.02
2022-2023	97.7	96
2021-2022	95.5	94.3
2020-2021	90.1	89.1
2019-2020	81.6	80.2
2018-2019	77.3	76.61
2017-2018	78.5	76.14
2016-2017	72	-

Mae'r tabl hwn yn destun archwiliad.

Mae 14 o weithwyr newydd wedi ymuno â'n sefydliad yn bennaf ar lefel Band 3 yn dilyn recriwtio sylweddol ar ddechrau Ionawr 2023, ond mae penodiadau wedi amrywio o'n Band 2 hyd at Fand 5.

Mae ein cyfradd trosiant wedi gostwng o 14.7% y llynedd i 9.3% yn y flwyddyn ariannol hon (9.2% FTE). Rydyn ni'n adolygu trosiant yn rheolaidd ac mae'r cyfraddau'n amrywio yn ystod y flwyddyn. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae deg o weithwyr wedi gadael y sefydliad. Yn ogystal, daeth dau gontract asiantaeth i ben, a daeth un secondiad i ben hefyd - nid yw'r rhain wedi'u cynnwys wrth gyfrifo trosiant. Cynhelir cyfweiliadau ymadael â phawb sy'n ymddiswyddo, ac roedd gan weithwyr wahanol resymau dros adael, ac ni chlywyd unrhyw beth i beri pryder. Yn ystod y 12 mis diwethaf, rydyn ni wedi cynnal 15 o ymarferion recriwtio allanol, rhai ohonynt ar gyfer sawl swydd, a chwe chyfle datblygu mewnol, rhai er mwyn cyflenwi dros gyfnodau mamolaeth.

Fel arfer, rydyn ni'n hysbysebu cyfleoedd cyfnod penodol parhaol a hirdymor yn allanol, a gall ymgeiswyr mewnol wneud cais drwy'r llwybr hwnnw. Rydyn ni'n gweithredu dull o sicrhau cyfweiliad i bob ymgeisydd sy'n bodloni'r gofynion ar gyfer ystyriaeth mewn cyfweiliad ac sy'n nodi eu bod yn anabl. Rydyn ni'n cynnal ymarferion mewnol ar gyfer cyfleoedd datblygu tymor byr, sy'n cwmpasu absenoldeb mamolaeth neu waith prosiect penodol. Mae'r penderfyniad i recriwtio yn cael ei wneud gan ein Bwrdd Rheoli. Ar hyn o bryd, rydyn ni'n ystyried a oes gennym ddigon o ymgeiswyr mewnol i warantu ymarfer mewnol cystadleuol; ni fabwysiadwyd y dull hwn gennym o fewn y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Bu ymarferion recriwtio yn ystod y 12 mis diwethaf ar draws y pedair Cyfarwyddiaeth o fewn y sefydliad: Rheoleiddio, Polisi a Diwygio Cymwysterau, Cyfathrebu ac Ymgysylltu ac Adnoddau Corfforaethol.

Mae ein gweithlu yn cynnwys 98% o gyflogeion ar gontractau parhaol (o gymharu â 94% ar 31 Mawrth 2023), 2% ar gontractau cyfnod penodol (6% yn flaenorol).

Yn ystod y flwyddyn, rydyn ni wedi defnyddio staff asiantaeth i lenwi swyddi gwag neu anghenion tymor byr nad oedd secondiad neu benodiad cyfnod penodol yn addas ar eu cyfer. Yn ystod y 12 mis diwethaf, rydyn ni wedi penodi pedwar person ar gytundebau asiantaeth i ymgymryd â rolau diffiniedig. Ar 31 Mawrth, roedd dau gontract asiantaeth ar waith. Nid yw'r contractau dros dro hyn wedi'u cynnwys mewn cyfrifiadau ar gyfer cyfrif pennau neu gyfwerth ag amser llawn.

	Benyw	Gwryw	
Prentisiaeth	0	1	
Cyfnod penodol	1	0	
Parhaol	75	30	
Cyfanswm	76	31	107

Nifer staff ar 31 Mawrth 2024

Rydyn ni'n adolygu pob penodiad gyda'r rhai sydd wedi'u contractio i sicrhau cydymffurfiaeth ag IR35 (deddfwriaeth cyfryngwyr).

Dysgu a datblygu

Rydyn ni wedi ymrwymo i ddatblygu gweithwyr. Nodir anghenion penodol naill ai drwy ein cynlluniau busnes, ein huwch reolwyr neu drwy drafodaethau perfformiad unigol. Gellid bodloni gofynion unigol gyda hyfforddiant ffurfiol, drwy gael at wahanol gyfleoedd neu drwy weithio ar draws timau o fewn ein sefydliad.

Mae rhywfaint o'n hyfforddiant yn diwallu angen corfforaethol neu statudol, ac fe'i cyflwynir ar draws y sefydliad. Eleni, cynhaliwyd hyfforddiant gorfodol ar-lein ar gyfer codi a chario, diogelwch tân, cymorth cyntaf a risg i'r holl staff yn ôl yr angen. Ymgwymerodd cyflogaion â hyfforddiant Ymwybyddiaeth Diogelwch ar-lein hefyd, sy'n rhywbeth y maen nhw'n ei gwblhau bob blwyddyn.

Yn 2020, gweithiodd Cymwysterau Cymru gyda thri corff nodedig arall (Chwaraeon Cymru, Gofal Cymdeithasol Cymru a CCAUC) i gaffael, datblygu a chyflwyno rhaglen Arwain a Rheoli a fyddai'n diwallu anghenion ein sefydliadau a'r rhwydwaith cyrff nodedig ehangach. Mae'r rhaglenni hyn wedi parhau i fod yn llwyddiannus ac yn nhrydedd flwyddyn y contract, dechreuodd wyth o weithwyr y rhaglen Hanfodion Rheoli Llinell a dechreuodd dau garfan Arweinyddiaeth Strategol. Mae 77% o'n rheolwyr wedi cwblhau neu wrthi'n cwblhau'r rhaglen. Mae'r rhaglenni wedi bod yn llwyddiannus o ran meithrin sgiliau, ac o ran meithrin cysylltiadau rhwng cyfoedion ar draws sector y cyrff a noddir gan Lywodraeth Cymru.

Yn ystod y flwyddyn fe wnaethom ddarparu hyfforddiant cydraddoldeb a chynhwysiant i'r holl weithwyr ac aelodau'r Bwrdd. Cynhaliwyd saith sesiwn yn y flwyddyn ariannol hon ac roeddent yn ddigwyddiadau personol, gan gymysgu gweithwyr o wahanol dimau ac ymgorffori aelodau'r Bwrdd. Roedd hyn yn helpu i gryfhau cysylltiadau rhwng unigolion a thyfu dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o'n gwahanol rolau. Roedd y sesiynau'n canolbwyntio ar

ddeall a hyrwyddo ymddygiadau cynhwysol. Roedd tri gweithiwr hefyd yn bresennol mewn sesiynau hyfforddi yn ymwneud â niwroamrywiaeth.

Cwblhaodd dau weithiwr hyfforddiant Swyddog Diogelu Dynodedig, gan gefnogi ein hymgysylltiad parhaus â dysgwyr ifanc.

Mae cyflogeion hefyd wedi derbyn hyfforddiant ac wedi mynychu cynadleddau allanol er mwyn datblygu a gwella eu sgiliau personol a phroffesiynol ac i gynnal eu DPP mewn meysydd fel asesu, rheoli prosiectau, caffael, llywodraethu corfforaethol a rheoli data, Adnoddau Dynol, ystadegau a chyfathrebu. Mae hyfforddiant hefyd wedi'i ddarparu ar lunio cofnodion a nodiadau, ysgrifennu canllawiau a pholisïau a hyfforddiant ysgrifennu effeithiol. Mae saith o weithwyr wedi mynychu hyfforddiant mewn perthynas ag asesu. Mae gweithwyr wedi mynychu cynadleddau mewn perthynas ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), Deallusrwydd Artiffisial, cydraddoldeb hiliol, a'r cyfryngau cymdeithasol. Cyflwynodd chwe gweithiwr eu gwaith yng nghynhadledd Cymdeithas Asesu Addysgol Ewrop (AEA) eleni. Rydyn ni hefyd wedi cefnogi hyfforddiant i ddatblygu a gwella sgiliau Cymraeg.

Mae cyflogeion hefyd yn cynnal sesiynau 'Lite Bite' mewnol er mwyn rhoi gwybod i'r sefydliad ehangach am ddarnau o waith y mae timau neu unigolion yn gweithio arnynt, i egluro polisïau sefydliadol ac i rannu'r hyn a ddysgwyd ganddynt. Mewn ymateb i adborth gan gyflogeion, fe wnaethom gynnal tri diwrnod personol i'r holl weithiwr. Roedd y cyntaf yn canolbwyntio ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, yr ail ar egwyddorion asesu a'r trydydd yn arddangos gwaith y gwahanol dimau a hefyd yn ystyried canlyniadau ein harolwg pobl blynyddol.

Cefnogwyd aelodau undebau llafur hefyd i fynychu cyrsiau i sicrhau bod ganddynt yr wybodaeth a'r gallu i ymgymryd â'u rolau undeb.

Bandiau cyflog a rhywedd

Mae'r tablau canlynol yn amlinellu cyfansoddiad ein gweithwyr ar 31 Mawrth 2024, yn ôl eu band parhaol, rhywedd, oedran a math o gontract (oriau amser llawn yw 37 awr yr wythnos, contractau rhan-amser yw'r rhai y cytunwyd arnynt gyda llai na 37 awr). Ar 31 Mawrth 2024, roedd gennym ddeuddeg o weithwyr ar gontract o lai na 37 awr, sy'n gynydd o bedwar o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Dim ond un gweithiwr rhan-amser gwrywaidd a gyflogir gennym, gydag un ar ddeg o'r gweithwyr rhan-amser yn fenywaidd. Mae gennym hefyd ddau weithiwr sy'n gweithio oriau cywasgedig, mae hyn yn golygu eu bod yn gweithio oriau llawn amser ond dros nifer llai o ddyddiau yn yr wythnos. Mae'r ddau weithiwr yn fenywaidd. Mae'r gyfran uchaf (saith) o'n gweithwyr sy'n gweithio'n hyblyg ym mand cyflog pedwar, yn y canol yn ein sefydliad, mae dau ar lefel pennaeth tîm (band 5) a'r lleill mewn bandiau cyflog is. Mae nifer y gweithwyr sy'n gweithio'n rhan-amser yn amrywio ar unrhyw adeg benodol, gall hyn fod oherwydd bod gweithwyr yn gofyn am ymuno â ni yn rhan-amser yn ystod recriwtio, ond yn bennaf oherwydd cyfrifoldebau gofalu a'r angen newidiol neu'r dewis i weithio'n rhan-amser i gefnogi cyfrifoldebau eraill.


Rydyn ni'n hyrwyddo ein dull gweithio hyblyg gyda'r holl weithwyr sy'n galluogi rhai gweithwyr i sicrhau cydbwysedd da rhwng bywyd a gwaith ar oriau llawn amser. Rydyn ni wedi derbyn rhywfaint o adborth bod gweithio hybrid, a llai o amser cymudo hefyd yn cefnogi hyn. Yn ein harolwg o weithwyr yn 2023, cytunodd 88% o gyflogeion eu bod yn gallu sicrhau cydbwysedd

da rhwng eu gwaith a'u bywyd preifat, dyma ostyngiad o 1% o gymharu â 2022 a chynnydd o 3% o gymharu â 2021. Mae 95% o weithwyr yn cytuno bod eu rheolwr yn ystyriol o'u bywyd y tu allan i'r gwaith, dyma gynnydd o 3% o gymharu â 2022.


Mae mwy o'n gweithwyr yn fenywod o hyd, sy'n gynrychioladol o'r sector addysg ehangach. O ran ystadegau recriwtio, rydyn ni'n tueddu i gael mwy o geisiadau gan ymgeiswyr benywaidd ym mhob band. Rydyn ni'n adolygu'r wybodaeth hon yn rheolaidd ac yn ystyried ein dull hysbysebu i ehangu ein hamrywiaeth yn fwy cyffredinol.

Rhywedd a math o contract¹⁰


Band	Benyw llawn amser	Benyw rhan-amser	Gwryw llawn amser	Gwryw rhan-amser	Cyfanswm
1	4	1	2	0	7
2	4	1	2	0	7
3	20	2	4	0	26
4	24	5	12	1	42
5	9	2	5	0	16
6	2	0	4	0	6
7	2	0	0	0	2
8	0	0	1	0	1
Cyfanswm	65	11	30	1	107



¹⁰ Dengys y tabl fand parhaol (dan contract) cyflogai. Mae cyfrifiadau cyflog ar sail rhywedd yn seiliedig ar gyflog gwirioneddol gweithiwr yn y flwyddyn, h.y. pan all cyflogai fod yn gweithio dros dro mewn band uwch. Mae'r wybodaeth hon ar dudalen 69.



Oedran



Ni fu llawer o newid yn ein proffil oedran, gellid priodoli rhywfaint o hyn i weithwyr yn symud rhwng categorïau a rhywfaint i drosiant a recriwtio.

Ethnigrwydd

Nid ydym wedi cynnwys dadansoddiad o ddata ethnigrwydd staff oherwydd y niferoedd isel dan sylw a'r angen i gydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data a diogelu data personol.

Absenoldeb oherwydd salwch


Mae adroddiad lechyd a lles yn y gwaith CIPD yn nodi bod cyfradd gyfartalog absenoldeb gweithwyr ar ei uchaf mewn degawd sef 7.8 diwrnod y flwyddyn. Mae'r gyfradd hon yn uwch o fewn y sector cyhoeddus gyda chyfartaledd o 10.6 diwrnod o'i gymharu â 5.8 yn y sector preifat. Mae ein ffigurau cyfartalog yn dangos ein bod yn yr un ardal â chyfraddau'r sector preifat. 5.4 diwrnod oedd lefel absenoldeb gyfartalog y flwyddyn, a gyfrifwyd gan ddefnyddio nifer cyfartalog staff y flwyddyn (107.7), mae hyn yn gynydd o 4.8 diwrnod y llynedd. O ddefnyddio FTE cyfartalog eleni, sef 105.02, cawn ffigwr o 5.5, sy'n gynydd o 4.9 y llynedd. Er yn uwch, rydyn ni'n gymharu'n dda yn erbyn sefydliadau tebyg.

Mae ein cyfraddau absenoldeb oherwydd salwch wedi cynyddu dros y 12 mis diwethaf, a chollwyd cyfanswm o 577 diwrnod gwaith, o gymharu â 471 yn y flwyddyn flaenorol, sef cynnydd o 106. Sbardunwyd hyn gan gynnydd yn ein habsenoldebau hirdymor o'i gymharu â'r llynedd, a aeth â ni yn ôl i lefelau blaenorol nodweddiadol. I sefydliad llai o'n maint ni, gall y ffigurau hyn amrywio'n sylweddol. Bu llai o absenoldebau tymor byr o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, gyda 331 diwrnod wedi'u colli o'i gymharu â 347.

Yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf, collwyd y mwyafrif o ddyddiau i iechyd meddwl, cyfanswm o 198 diwrnod ar draws chwe achos, ac mae pob un ohonynt yn cyfrannu at ein ffigurau absenoldeb hirdymor. Gall iechyd meddwl gwmpasu amrywiaeth o sefyllfaoedd, nid ydym wedi nodi unrhyw faterion systemig. Mae absenoldeb oherwydd Covid wedi gostwng o 101.5 diwrnod yn 2022-23 i 44.5 yn 2023-24. Symptomau annwyd a ffliw yw ein habsenoldeb ail uchaf gydag 89 diwrnod ar draws 42 absenoldeb, a'r trydydd uchaf yw cyhyrsgerbydol gyda 74 diwrnod o absenoldeb i chwech o weithwyr. Roedd cynnydd o 55 diwrnod mewn absenoldebau oherwydd iechyd meddwl a chynnydd o 52 diwrnod mewn absenoldebau oherwydd annwyd a ffliw. Os mai iechyd meddwl yw'r rheswm dros absenoldeb, rydyn ni'n gweithio gyda'r gweithiwr a'r rheolwr i ddeall a all iechyd Galwedigaethol ddarparu cymorth neu gefnogaeth, waeth beth fo'r achos. Rydyn ni hefyd yn ceisio deall achos absenoldeb cyhyrsgerbydol, i sicrhau bod unrhyw gamau cefnogol ar waith, hyd yn oed os mai anaf neu ddamwain i ffwrdd o'r gwaith yw'r achos. Mae ein ffigurau tymor byr wedi bod yn cynyddu o flwyddyn i flwyddyn ers y pandemig, er bod gostyngiad bach yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf.

Cyfansymiau absenoldeb oherwydd salwch fesul mis

Mis	2019-2020 (ST)	2019-2020 (LT)	2020-2021 (ST)	2020-2021 (LT)	2021-2022 (ST)	2021-2022 (LT)	2022-2023 (ST)	2022-2023 (LT)	2023-2024 (ST)	2023-2024 (LT)
Ebr	14	0	32.5	0	17.5	43	20.5	0	19.5	0
Mai	8	0	23	0	17	8	12.5	0	74	0
Meh	6	20	11	0	9	22	29	0	11	39
Gorff	6	22	9	0	13	22	41	0	30	42
Awst	11.5	21	2	20	16	22	4	0	10.5	53
Medi	28	37	2	0	14	22	21	22	20	23
Hyd	9	42	8	0	49	28	49	34	30.5	0
Tach	6	40	22	39	52	22	43.5	24	35.5	0
Rhag	18.5	40	2	45	13	31	52	22	39	0
Ion	26	50	41	60	52.5	10	34	22	21.5	18
Chwe	21	35	16	35	10.5	19.5	9	0	24.5	34
Maw	12	15	23	33	20.5	12	31.5	0	15	37
Cyfanswm	166	322	191.5	232	284	261.5	347	124	331	246



Lles gweithwyr

Rydyn ni wedi ymrwmo i annog ffordd iach o fyw a chydbwysedd da rhwng bywyd a gwaith. Rydyn ni'n contractio darparwr iechyd galwedigaethol i'n helpu, ac i:

- gynnig cymorth a chynghor i weithwyr
- cefnogi gallu gweithiwr i weithio
- hwyluso dychwelyd i'r gwaith yn llwyddiannus ar ôl absenoldeb hirdymor

Mae Rhaglen Cymorth i Weithwyr annibynnol ar gael i bob cyflogai, a gall gynnig cynghor a chymorth ar amrywiaeth o faterion. Mae hyn ar gael i ddechrau drwy wasanaeth ffôn neu drwy'r rhyngwyd ar unrhyw adeg o'r dydd neu'r nos, ac mae'n gwbl gyfrinachol. Gall gweithwyr hefyd gael mynediad at gwnsela am ddim drwy'r rhaglen hon yn ogystal â chanllawiau ar ffordd o fyw a ffitrwydd personol. Mae gennym hefyd un ar ddeg o Swyddogion Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl hyfforddedig yn ein sefydliad.

Gan gydnabod yr heriau sy'n wynebu unigolion yn sgil yr hinsawdd ariannol, fe wnaethom ddarparu hyfforddiant ymwybyddiaeth ariannol a chynllunio ar gyfer ymddeol. Gall gweithwyr hefyd dderbyn hyfforddiant sy'n ymwneud â'u pensiynau.

Rydyn ni bob amser wedi ceisio creu amgylchedd gwaith sy'n cefnogi iechyd a lles gweithwyr. Nod ein polisi hybrid yw cydbwysu manteision hyblygrwydd a gweithio o bell a hefyd annog ymgysylltu â gweithwyr a chefnogi cysylltiad ag eraill. Rydyn ni wedi adolygu ein polisi ar ôl blwyddyn ac rydyn ni wedi parhau i ddilyn trefniant o 2 ddiwrnod yn y swyddfa a 3 diwrnod gartref ar gyfer gweithiwr llawn amser. Rydyn ni cadw at bedair o egwyddorion craidd ar gyfer gweithio yn y swyddfa - cydweithio, creadigrwydd, gofal a chymuned. Mae penaethiaid timau yn trafod sut hoffai pobl weithio gyda'u timau, gan gydnabod dewisiadau unigol a'u cydbwysu'r ag anghenion y tîm a'r gwaith sydd angen ei wneud.

Yn seiliedig ar adborth gan ein staff, fe wnaethom gynnal digwyddiadau i'r holl weithwyr. Fe wnaethom hefyd annog pob cyfarwyddiaeth i gysylltu y tu allan i'r amgylchedd gwaith a chymryd rhan mewn gweithgareddau adeiladu tîm ochr yn ochr â chydweithio ar waith.

Mae ein grŵp gweithwyr, QWEST yn trefnu gweithgareddau ac ymgyrchoedd cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol sy'n canolbwyntio ar themâu lles, gan gyhoeddi gwybodaeth ac annog cyfranogiad gweithwyr. Mae gweithgareddau codi arian eleni wedi cefnogi Llamau, yr elusen ddigartrefedd flaenllaw yng Nghymru sy'n cefnogi pobl ifanc a menywod agored i niwed.

Crynodeb o gostau staff 2023-24

2023-24					
	Staff a Gyflogir yn Barhaol £'000	Staff Dros Dro £'000	Staff wedi'u Secondio £'000	Staff Asianta eth £'000	Cyfansw m £'000
Cyflogau	5,188	105	18	-	5,311
Costau Nawdd Cymdeithasol	573	24	2	-	599
Costau Pensiwn Eraill	1,423	14	5	-	1,442
Costau Asiantaeth	-	-	-	133	133
Cyfanswm	7,184	143	25	133	7,485
2022-23					
Cyflogau	4,148	373	2	-	4,523
Costau Nawdd Cymdeithasol	497	42	-	-	539
Costau Pensiwn Eraill	1,160	101	-	-	1,261
Costau Asiantaeth	-	-	-	199	199
Cyfanswm	5,805	516	2	199	6,522

Mae'r adran hon yn destun archwiliad.

Ni wnaed unrhyw ymrwymïadau 'oddi ar y gyflogres' yn 2023-2024.

Nid oedd unrhyw becynnau ymadael yn 2023-24.

Aeth Cymwysterau Cymru i'r costau ymgynghori canlynol yn ystod 2023-24:

Ymgynghori 2023-24		
Ymgynghorydd	Gwaith Ymgynghori a Wnaed	Cyfanswm £
Design Tribe UK Ltd	Darparodd Design Tribe UK Ltd gysyniadau brand/canllawiau brand wedi'u diweddarau.	4,794

Cydraddoldeb

Mae ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn amlinellu'r amcanion rydyn ni wedi'u gosod i ni'n hunain i ategu ein hymrwymiad i gydraddoldeb. Mae'r cynllun yn cwmpasu pob agwedd ar ein gweithrediadau, gan gynnwys staff, cyfleusterau, gwariant, datblygu a rheoleiddio cymwysterau, ymgysylltu â rhanddeiliaid a monitro. Mae ein Hadroddiad Cynnydd Blynyddol yn darparu diweddariad ac mae'n cynnwys data cydraddoldeb mwy manwl a chynnydd yn erbyn ein cynllun Gwrth-Hiliaeth.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rydyn ni wedi darparu hyfforddiant cydraddoldeb a chynhwysiant i bob gweithiwr ac aelod o'r Bwrdd, gan hyrwyddo ymwybyddiaeth o'n dyletswyddau cyfreithiol ac annog ymddygiadau cynhwysol sy'n cydnabod buddion amrywiaeth.

Mae ein recriwtio bellach yn defnyddio proses ymgeisio ar-lein, sy'n golygu bod ceisiadau yn ddienw i raddau, gan helpu i leihau rhagfarn anymwybodol. Rydyn ni'n parhau i warantu y byddwn yn cynnig cyfeliad i ymgeiswyr sy'n bodloni'r meini prawf gofynnol os ydynt yn datgan bod ganddynt anabled. Rydyn ni hefyd wedi treialu rhannu themâu ein cwestiynau cyn y cyfeliad, a all gefnogi'r rhai sy'n niwroamrywiol.

Rydyn ni'n monitro ein perfformiad ar gyflog cyfartal rhwng y rhywiau.

Y cyflog canolrifol ar 31 Mawrth 2024 (gan eithrio cyflog y Prif Swyddog Gweithredol) yw £48,269, o gymharu â £45,970 yn 2023. Cymhareb cyflog y Prif Swyddog Gweithredol (ar ganol y band cyflog) i'r cyflog canolrifol yw 2:95 yn 2024, o gymharu â 2:77 yn 2023.

O'r 14 o weithwyr newydd a ymunodd â ni yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf, roedd 11 yn fenywod. Fel arfer, mae penodiadau'n cael eu gwneud ar waelod band cyflog ac mae gweithwyr yn symud ymlaen trwy gynyddrannau bob blwyddyn. Mae hyn yn effeithio ar ein bwllch taliadau, yn enwedig pan fydd cyfran uwch o fenywod yn cael eu recriwtio, gyda'r dynion yn yr un band cyflog wedi bod gyda'r sefydliad ers sawl blwyddyn ac wedi cyrraedd uchafswm y band cyflog. Mae gweithwyr yn symud trwy ein graddfeydd cyflog ar ben-blwydd eu penodiad i'r rôl, felly gall y darlun newid yn ystod y flwyddyn gan fod gweithwyr yn symud trwy'r graddau ar adegau gwahanol.

Dyma'r rheswm am y gwahaniaethau negyddol ym mhob band. Mae'n arbennig o amlwg ym mand cyflog 5, lle mae gennym lawer mwy o fenywod na dynion sy'n fwy newydd i'w rolau ar y lefel hon.

Ym mand cyflog 3, i'r gwrthwyneb, mae gennym fwy o fenywod wedi'u cyflogi ac mae cyfran uwch ohonynt wedi cyrraedd uchafswm y band, sy'n cyfrif am y gwahaniaeth cadarnhaol o'u plaid yma.

Ar ddiwedd mis Mawrth 2024, ein bwllch cyflog ar sail rhywedd oedd 13.2% (o'i gymharu â 14.8% yn 2023 a 16.3% yn 2022).


Rydyn ni'n monitro ein gwybodaeth am gyflogau'r rhywiau ochr yn ochr â'n data recriwtio ac mae gennym amcan i wella amrywiaeth ein gweithlu, gyda'r nod o gael effaith gadarnhaol ar yr holl nodweddion gwarchoddedig. Mae ein dull o ran rhywedd yn canolbwyntio ar recriwtio ac, yn benodol, sicrhau bod y rolau a hysbysebwn yn ddeniadol i'r naill ryw neu'r llall ac i bobl â nodweddion gwarchoddedig eraill, er mwyn annog gweithlu amrywiol. Rydyn ni'n cyhoeddi ein data cydraddoldeb sector cyhoeddus mewn fformat agored ar ein gwefan.

Cymraeg

Rydyn ni'n adolygu lefel sgiliau ein gweithwyr yn y Gymraeg fel rhan o'n hymagwedd tuag at y Gymraeg a'n datblygiad sgiliau. Mae cyflogeion yn hunanasesu eu gallu ac yn graddio eu hunain ar raddfa o 1 (Rhugl) – 5 (Dim gallu) mewn perthynas â darllen, siarad, deall ac ysgrifennu.

Ar 31 Mawrth 2024, mae ein cofnodion yn nodi bod 17 o weithwyr (15.8%) wedi disgrifio eu hunain fel rhugl ym mhob un o'r pedwar maes (darllen, siarad, deall ac ysgrifennu), mae hyn yn ostyngiad o un o'i gymharu â'r llynedd. Mae pum gweithiwr arall yn nodi bod ganddynt y gallu i ddeall y rhan fwyaf o eiriau, neu gyfuniad o'r rhan fwyaf o sgiliau rhugl ar draws y pedwar maes. Datganodd 44 (41%) nad oedd ganddynt unrhyw allu o gwbl, mae hyn yn gynydd ar y ffigur y llynedd lle nad oedd ond 23 yn asesu nad oes ganddynt unrhyw allu, ond yn debyg i ffigurau ar gyfer y flwyddyn ariannol flaenorol. Fodd bynnag, o'r 44, mae gan 19 rai sgiliau ar draws un neu fwy o feysydd. Gall y gwahaniaeth fod oherwydd trosiant, ond gan ein bod yn gofyn i weithwyr ddiweddarau eu gallu Cymraeg yn flynyddol gall gweithwyr ailddiffinio eu gallu, oherwydd gallai lefelau sgiliau newid, neu eu hyder o ran defnyddio'r Gymraeg. Nid yw 11 o weithwyr wedi hunanasesu eu lefelau iaith (mae 96 wedi gwneud hynny).

Wrth recriwtio rydyn ni'n gwerthuso'r angen am allu yn y Gymraeg a chaiff hyn ei nodi yn y disgrifiad swydd cyhoeddadedig. Gofynnir i weithwyr newydd adolygu a chadarnhau eu gallu wrth ymuno.



O ran aelodau ein Bwrdd, mae tri o'r wyth ymatebydd wedi hunanasesu eu bod yn rhugl yn y Gymraeg, dau â gallu sylfaenol a thri heb unrhyw allu o gwbl. Nid oedd dau aelod wedi ymateb.

Rydyn ni'n parhau i gefnogi gweithwyr sy'n dymuno dysgu Cymraeg drwy ariannu hyfforddiant a darparu modiwlau e-ddysgu, yn ogystal â chymorth anffurfiol, ymarferol yn amgylchedd y swyddfa gan siaradwyr rhugl, sy'n annog ac yn rhoi mentoriaeth answyddogol i'r rheini sy'n dysgu. Eleni rydyn ni wedi sefydlu grŵp 'Defnyddia dy Gymraeg/Defnyddiwch eich Cymraeg' i gefnogi'r nod hwn. Fe wnaethom hefyd gymryd rhan yn rhaglen Arwain mewn Gwlad Ddwyeithog Academi Wales. Mae pedwar gweithiwr wedi mynychu hyfforddiant mewn perthynas â sgiliau iaith.

Philip Blaker	Philip Blaker Swyddog Cyfrifyddu 19 Medi 2024
---------------	--

Tystysgrif ac adroddiad Archwilydd Cymru I'r Senedd

Barn ar ddatganiadau ariannol

Rwy'n ardystio fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Cymwysterau Cymru am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024 o dan Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015.

Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys y Datganiad ar Wariant Net Cynhwysfawr, y Datganiad o Sefyllfa Ariannol, y Datganiad o Lifau Arian, Datganiad o Newidiadau mewn Ecwiti Trethdalwyr a nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys y polisiau cyfrifeg perthnasol. Mae'r fframwaith adrodd ariannol sydd wedi'i gymhwyso wrth baratoi yn gyfraith berthnasol ac mae'r DU wedi mabwysiadu safonau cyfrifyddu rhyngwladol fel y'u dehonglir a'u haddasu gan Lawlyfr Adrodd Ariannol Trysorlys EM.

Yn fy marn i, ym mhob agwedd faterol, y datganiadau ariannol:

- rhoi darlun cywir a theg o gyflwr materion Cymwysterau Cymru ar 31 Mawrth 2024 a'i ddefnydd o adnoddau, am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â safonau cyfrifeg rhyngwladol a fabwysiadwyd yn y DU fel y'u dehonglir a'u haddasu gan Lawlyfr Adrodd Ariannol Trysorlys EM.
- wedi eu paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015.

Barn ar reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob ystyr berthnasol, mae'r incwm a'r gwariant a gofnodir yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol a gofnodir yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Sail ar gyfer barn

Cynhaliiais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU (ISAs (DU)) a Nodyn Ymarfer 10 'Archwilio Datganiadau Ariannol Endidau Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Disgrifir fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny ymhellach yng nghyfrifoldebau'r archwilydd dros archwilio adran datganiadau ariannol fy nhystysgrif.

Mae fy staff a minnau'n annibynnol ar y corff yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio a gefais yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail i'm barn.

Casgliadau'n ymwneud â busnes gweithredol

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod y defnydd o'r sail gyfredol o gyfrifo wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith rwyf wedi'i gyflawni, nid wyf wedi nodi unrhyw ansicrwydd materol sy'n ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu gyda'i gilydd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r corff i barhau i fabwysiadu sail gyfrifyddu busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o'r adeg y mae'r datganiadau ariannol wedi'u hawdurdodi i'w cyhoeddi.

Disgrifir fy nghyfrifoldebau a chyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu mewn perthynas â busnes gweithredol yn yr adrannau perthnasol o'r dystysgrif hon.

Mabwysiadir sail gynyddol cyfrifyddu ar gyfer Cymwysterau Cymru i ystyried y gofynion a nodir yn Llawlyfr Adrodd Ariannol Llywodraeth Trysorlys EM, sy'n ei gwneud yn ofynnol i endidau fabwysiadu sail barhaus cyfrifyddu wrth baratoi'r datganiadau ariannol lle rhagwelodd y bydd y gwasanaethau y maent yn eu darparu yn parhau i'r dyfodol.

Gwybodaeth arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth a gynhwysir yn yr adroddiad blynyddol ac eithrio'r datganiadau ariannol a rhannau eraill o'r adroddiad sy'n cael eu harchwilio yn adroddiad fy archwilydd ar hynny. Y Swyddog Cyfrifeg sy'n gyfrifol am y wybodaeth arall yn yr adroddiad blynyddol. Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac, ac eithrio i'r graddau a nodir fel arall yn benodol yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd ar hynny. Fy nghyfrifoldeb i yw darllen y wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn sylweddol anghyson â'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth a gafwyd yn ystod yr archwiliad, neu fel arall mae'n ymddangos ei bod wedi'i chamddatgan yn sylweddol. Os byddaf yn nodi anghysondebau materol o'r fath neu gamddatganiadau materol ymddangosiadol, mae'n ofynnol i mi benderfynu a yw hyn yn arwain at gamddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os byddaf i, yn seiliedig ar y gwaith rwyf wedi'i gyflawni, yn dod i'r casgliad bod camddatganiad materol o'r wybodaeth arall hon, mae'n ofynnol i mi adrodd am y ffaith honno.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd yn hyn o beth.

Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, mae'r rhan o'r Adroddiad ar Gydabyddiaeth Ariannol a Staff sydd i'w harchwilio wedi'i pharatoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a wnaed o dan Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015.

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- bod y rhannau o'r Adroddiad Atebolrwydd yn ddarostyngedig i archwiliad wedi'u paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a wnaed o dan Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015; a
- mae'r wybodaeth a roddir yn yr Adroddiad Perfformiad, Adroddiad Atebolrwydd a Thâl ac Adroddiad Staff ar gyfer y flwyddyn ariannol y mae'r datganiadau ariannol yn cael eu paratoi ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac yn unol â'r gofynion cyfreithiol cymwys.

Materion yr wyf yn adrodd amdanynt drwy eithriad

Yng ngoleuni gwybodaeth a dealltwriaeth y corff a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi camddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad Perfformiad, Adroddiad Atebolrwydd a Thâl a'r Adroddiad Staff.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd mewn perthynas â'r materion canlynol yr wyf yn eu hadrodd i chi os, yn fy marn i:

- Nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.
